ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
**i ddefnyddwyr ynni**



# 2024-25

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

HC 1210

# 2024-25

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

(Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau adrannol sydd, ar y cyd â Phrif Amcangyfrifon 2025-26 a'r ddogfen Gwariant Cyhoeddus: Dadansoddiadau Ystadegol 2025, yn cyflwyno alldro'r llywodraeth ar gyfer 2024-25 a'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2025-26.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 17 Gorffennaf 2025.

HC 1210

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn yn drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn hawlfraint i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn i Ofgem, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU.

ISBN 978-1-5286-5823-2

E03383630

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | 6 |
| Adroddiad ar Berfformiad | 8 |
| Ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid | 13 |
| Dadansoddi perfformiad | 16 |
| Adroddiad ar Atebolrwydd | 40 |
| Adroddiad ar Atebolrwydd ac Archwiliad Seneddol | 79 |
| Cyfrifon Adnoddau | 93 |
| Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol | 99 |
| Atodiadau | 121 |
| Atodiad I | 122 |
| Atodiad II | 125 |
| Atodiad III | 134 |
| Atodiad IV | 136 |

# Rhagair y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr

**Mae’r sector ynni yn hanfodol i’n llwyddiant fel gwlad: mae’n sail i’n safonau byw, mae’n helpu i ysgogi twf economaidd ac mae’n galluogi nodau Sero Net y Llywodraeth. Rydym bellach ar adeg hollbwysig yn y broses o drawsnewid o system ynni sy’n seiliedig i raddau helaeth ar nwy naturiol, a oedd yn gwbl ddigonol am sawl degawd, i system newydd yn bennaf seiliedig ar ynni adnewyddadwy. Fel gwlad, rydym dan ddylanwad prisiau nwy byd-eang a fu’n uchel ac yn anwadal yn hanesyddol sy’n golygu nad yw ein diwydiannau yn gystadleuol ac na all llawer o aelwydydd fforddio talu eu biliau ynni. Yn Ofgem, rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y broses o drawsnewid i’r system ynni newydd yn digwydd er budd defnyddwyr, o ran y prisiau y maent yn eu talu ac o ran y gwasanaethau y maent yn eu cael.**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld gwelliannau yn y sector manwerthu, â’r cyfraddau boddhad uchaf ymhlith cwsmeriaid domestig, gan gynnwys y rhai hynny sy’n defnyddio mesuryddion rhagdalu, a’r lefel isaf o gwynion gan gwsmeriaid ers i ni ddechrau casglu’r data. Ar ei orau, caiff y sector ynni cyfan ei lywio gan ymdeimlad clir o wasanaeth cwsmeriaid. Hoffem gydnabod pawb, o’r rhai hynny yn y canolfannau galwadau sy’n helpu cwsmeriaid sy’n wynebu amgylchiadau bregus i’r peirianwyr sy’n adeiladu’r seilwaith newydd hanfodol ac yn ymateb i broblemau a achosir gan dywydd eithafol. Mae’r ddau ohonom wedi gweld yr ymroddiad hwn yn uniongyrchol wrth i ni wrando ar alwadau gan gwsmeriaid ac ymweld â safleoedd prosiectau ledled y wlad.

Er gwaethaf y gwelliannau hyn i’n gwasanaeth cwsmeriaid, nid ydym yn llaesu dwylo ac rydym yn cydnabod bod llawer mwy y gellir ei wneud. Rydym yn dal i ddefnyddio pob adnodd sydd ar gael i ni er mwyn gwella perfformiad: o ymgysylltu â byrddau cwmnïau i gamau cydymffurfio a gorfodi cadarn yn erbyn cwmnïau pan na fyddant yn rhoi’r gwasanaeth y mae cwsmeriaid yn ei haeddu. O ganlyniad i’r ail weithgarwch hwn, mae cwmnïau wedi talu miliynau o bunnoedd i’r Cynllun Gwneud Iawn Ynni, sy’n helpu’r bobl sy’n wynebu’r risg fwyaf yn sgil cartrefi oer a biliau ynni uchel, yn ogystal â darparu buddiannau ehangach i ddefnyddwyr ynni presennol ac yn y dyfodol.

Rydym yn dal i weithio’n agos gyda’r llywodraeth, elusennau a’r sector i ymdrin â chwestiynau fforddiadwyedd a gwasanaeth cwsmeriaid. Rydym yn arbennig o ddiolchgar am y wybodaeth a’r data a gyfrannir gan grwpiau defnyddwyr i’n helpu i nodi materion sy’n dod i’r amlwg. Mae’r ddau ohonom wedi ymweld â llawer o grwpiau defnyddwyr ledled y DU o Poplar i Birkenhead, o Gaerdydd i Govan, a gwnaeth y prosiectau ysbrydoledig a welsom gryn argraff arnom. Rydym yn defnyddio’r holl wybodaeth hon, ynghyd â’n gwaith i ddadansoddi hyder defnyddwyr, i ddatblygu’r ffordd rydym yn rheoleiddio’r farchnad fanwerthu: gan ei gwneud hi’n gliriach pa ganlyniadau rydym yn eu disgwyl, a diffinio safonau perfformiad sylfaenol a meysydd lle gellid gwella gwasanaethau.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd amlwg wrth ddiogelu defnyddwyr rhag y costau a’r ymyriadau pan fydd cwmnïau yn gadael y farchnad fanwerthu, gyda chyflenwyr bellach yn dal cwm cyfanredol o £7.5 biliwn mewn Asedau Net wedi’u Haddasu er mwyn sicrhau eu cydnerthedd ariannol. Ni fu hyn ar draul cystadleuaeth ac arloesedd yn y farchnad, gan fod nifer ac amrywiaeth y tariffau ynni yn dal i gynyddu, ar lefelau sy’n sylweddol is na’r amddiffyniad a ddarperir gan y cap ar brisiau.

Er mwyn sicrhau graddfa’r buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer y system ynni newydd, bu’n rhaid gwneud mwy o waith cynllunio canolog. Sefydlwyd NESO fis Hydref diwethaf a lluniodd Gynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030, a gaiff ei ddilyn gan Gynllun Ynni Gofodol Strategol tymor hwy, wedi’i ategu gan gyfres o gynlluniau Rhanbarthol. Rydym yn dal i reoleiddio pob rhan o waith NESO ac yn gweithio’n agos â’r sefydliad ar ddiwygio Cysylltiadau er mwyn sicrhau y caiff y prosiectau cywir eu cynnwys yn y system Trawsyrru mewn pryd i wireddu’r cynlluniau amrywiol hyn.

Er mwyn rhoi hyder i'r Gweithredwyr Trawsyrru a'u cadwyni cyflenwi ar gyfer y buddsoddiadau sylweddol sydd eu hangen, gwnaethom gyhoeddi'r cynllun Buddsoddiadau Trawsyrru Strategol Carlam (ASTI) ac rydym bellach wedi cyhoeddi ein Mecanwaith Caffael Uwch. Mae'r ddwy fenter yn anelu at optimeiddio cost rhaglen adeiladu'r rhwydwaith. Gyda'r fframwaith galluogol hwn ar waith, byddwn yn dwyn y diwydiant i gyfrif am ddarparu'r system ynni newydd yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb.

Yn olaf, rydym yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth wrth iddi gynnal adolygiad o ddyletswyddau, cwmpas a phwerau a statws llywodraethu Ofgem. Rydym yn bwriadu datblygu fel rheoleiddiwr priodol ar gyfer yr economi ynni newydd, â'r hyblygrwydd i ymateb i farchnadoedd ynni sy'n newid yn gyflym wrth i ni gyflawni ein rôl i ddiogelu defnyddwyr gan gefnogi dyheadau'r Llywodraeth o ran twf a Sero Net ar yr un pryd.

Gan adeiladu ar y cynnydd cyson rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a chan weithio'n agos gyda'n holl randdeiliaid allanol, rydym yn hyderus y bydd Ofgem yn gallu gwasanaethu pob defnyddiwr, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, dros gyfnod o newid digynsail yn y sector ynni.



**Mark McAllister**
Cadeirydd



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr



# Adroddiad ar Berfformiad

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2024-25

# Adroddiad ar Berfformiad

## Trosolwg o Berfformiad

Diben yr adroddiad ar berfformiad yw meithrin dealltwriaeth o rôl, rhwymedigaethau a pherfformiad Ofgem drwy gydol blwyddyn gyllidol 2024-25.

## Diben a strwythur Ofgem

### Rôl statudol a strwythur Ofgem

Ofgem yw rheoleiddiwr ynni annibynnol Prydain Fawr. Ei brif amcan, a nodir yn y gyfraith, yw diogelu buddiannau defnyddwyr nwy a thrydan nawr ac yn y dyfodol.

Mae gan Ofgem hefyd ddyletswyddau i hyrwyddo twf economaidd (gweler y Ddyletswydd Twf) ac i gefnogi targed Sero Net Llywodraeth y DU (gweler y Ddyletswydd Sero Net).

Corff llywodraethu Ofgem yw'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan – y cyfeirir ato fel GEMA, yr Awdurdod, neu Fwrdd Ofgem. Caiff yr Uwch-bwyllgor Gweithredol (SEC) ei gadeirio gan ein Prif Swyddog Gweithredol ac mae'n gweithredu fel fforwm rheoli sy'n cynnig perchenogaeth adeiladol a chyfunol dros berfformiad a chyflawniadau cyffredinol Ofgem.

Ceir rhagor o fanylion am y strwythur yn adroddiad y cyfarwyddwyr ar dudalen 42. Caiff Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) Ofgem eu cynnwys yn Atodiad I. I gael rhagor o wybodaeth am risgiau Ofgem a sut y cawsant eu lliniaru, cyfeiriwch at y Trosolwg o Risgiau ar dudalen 54.

### Llywodraeth newydd

Mae'r llywodraeth Lafur newydd wedi cyhoeddi ei bwriad y bydd Prydain yn uwch-bŵer ynni glân ac wedi pennu ei pholisi ynni blaenllaw er mwyn sicrhau bod system ynni glân ar waith erbyn 2030. Mae Ofgem yn cefnogi elfennau allweddol o Gynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030, gan gynnwys rhwydweithiau a chysylltiadau, hyblygrwydd dan arweiniad defnyddwyr, storio ynni am gyfnodau hir, dylunio'r farchnad a chynlluniau cymdeithasol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ) er mwyn deall pob un o'n rolau a'n cyfrifoldebau ar draws meysydd polisi perthnasol yn glir.

Mae gan Ofgem hefyd ran bwysig i'w chwarae wrth gyflawni twf economaidd. Y tu hwnt i alluogi'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer Pŵer Glân 2030, mae Ofgem yn cefnogi arloesedd yn y sector ynni, yn gwella hyder buddsoddwyr drwy ei gyfundrefn reoleiddio ac yn meithrin twf economaidd cynaliadwy.

### Adolygiad Ofgem

Ar 19 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd DESNZ adolygiad cynhwysfawr o rôl, cylch gwaith, pwerau a dyletswyddau Ofgem. Nod yr adolygiad yw:

- cryfhau rôl Ofgem wrth gefnogi defnyddwyr a diogelu cartrefi rhag gwasanaeth gwael.
- parhau i gefnogi twf ac arloesedd yn y sector ynni.

Mae Ofgem yn croesawu'r adolygiad a'i nodau. Yng nghyd-destun y farchnad ynni ddatblygol, targedau newydd Pŵer Glân 2030, 25 mlynedd ers sefydlu Ofgem, mae nawr yn adeg briodol i gynnal yr adolygiad. Bydd Ofgem yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth i ymateb i ganfyddiadau ac arsylwadau'r adolygiad.

### Newidiadau yn yr amgylchedd sefydliadol

Mae'r Gweithredwr Systemau Ynni Cenedlaethol (NESO) bellach yn weithredol ac mae'n gyfrifol am gynllunio a gweithredu'r system ynni, er mwyn cyflawni amcanion o ran gostyngiadau carbon, diogeledd y cyflenwad ac effeithlonrwydd.

Mae Ofgem yn gyfrifol am reoleiddio NESO, ac mae'n gweithio ochr yn ochr â'r sefydliad fel rhan o genhadaeth Pŵer Glân 2030.

## Buddiannau i ddefnyddwyr

Mae'r Dadansoddiad o'r Buddiannau i Ddefnyddwyr yn cyfrifo cyfanswm gwerth ariannol yr holl fuddiannau a gafodd defnyddwyr yn sgil y penderfyniadau a wneir gan Ofgem bob blwyddyn ariannol. Mae Ofgem yn edrych ar yr holl benderfyniadau a wnaed rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Caiff yr holl fuddiannau i ddefnyddwyr eu mynegi ar sail prisiau 2025, gan ddefnyddio'r datchwyddwr CDG a chyfradd ddisgowntio o 3.5% fel yr argymhellwyd gan y Trysorlys. Dylid nodi mai dim ond y buddiannau a gaiff eu mesur gan y model; felly caiff cyfanswm y buddiannau eu hasesu yn erbyn costau busnes rheoleiddiol Ofgem yn hytrach na'r costau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad polisi.

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae Ofgem yn gwerthuso gwerth penderfyniadau meintiol a wnaed drwy Asesiadau Effaith. Cyfrifwyd bod ein gweithgareddau yn 2024-25 wedi creu buddiannau i ddefnyddwyr gwerth dros £2.7 biliwn. Mae hyn yn golygu am bob punt a werir, y ceir budd o ryw **£7.63** i'r defnyddiwr. Un o'r prif benderfyniadau oedd y Mecanwaith Caffael Uwch ar gyfer Trawsyrru Trydan â budd o ryw £1.4bn. Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau hyn sy'n bwydo i mewn i'r dadansoddiad yn effeithiau uniongyrchol, ond ceir effeithiau anuniongyrchol meintiol cadarnhaol hefyd yn deillio o'r gweithgareddau hyn, e.e. rhagwelodd y Cynllun Gweithredu Carlam ar gyfer Trawsyrru y gallai cyflwyno cystadleuaeth yn y sector trawsyrru ynni arwain at arbedion sylweddol i ddefnyddwyr erbyn 2050.

Nid yw ffigurau 2024-25 yn cynnwys ein holl ymyriadau rheoleiddiol – fel y budd y mae'r Cap ar Brisiau yn ei gynnig i ddefnyddwyr o ran rhwyd ddiogelwch ar gyfer codiadau sydyn annisgwyl mewn prisiau cyfanwerthu, lle caiff arian ei drosglwyddo o un grŵp defnyddwyr i un arall (proses o'r enw lefelu), neu'r cosbau y mae Ofgem yn eu pennu i'r diwydiant.

### Methodoleg

Mae'r dadansoddiad o'r buddiannau i ddefnyddwyr yn cyfrifo cyfanswm gwerth ariannol yr holl fuddiannau mae defnyddwyr yn eu cael yn sgil penderfyniadau Ofgem. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ganlyniadau asesiadau effaith a'r dadansoddiad cadarn a lywiodd pob penderfyniad.

Mae ein dull gweithredu yn anelu at feintioli'r effeithiau mewn ffordd mor drylwyr â phosibl ac mewn termau ariannol lle y bo'n bosibl, er mwyn sicrhau cysondeb wrth eu cyflwyno. Mae'n ofyniad statudol i gyhoeddi asesiadau effaith pan fydd newidiadau i bolisïau yn cael effaith sylweddol. Mae asesiadau effaith yn darparu fframwaith strwythurol a thryloyw ar gyfer deall effeithiau amcangyfrifedig polisïau a gallu cymharu prosiectau.

Fodd bynnag, oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y caiff buddiannau eu cyfrifo, rydym yn gwneud rhai addasiadau er mwyn gallu cymharu'r canlyniadau, e.e. addasiadau o ran chwyddiant a'r gwerth presennol net (NPV). Gan mai dim ond penderfyniadau a wnaed gan ddefnyddio asesiad effaith ffurfiol a gwmpesir gan ein dadansoddiad, mae hyn yn golygu y bydd yn tanddatgan cyfanswm y buddiannau ar draws Ofgem.

## Blaenoriaethau a dyletswyddau Ofgem

### Strategaeth Amlflwyddyn Ofgem

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Ofgem ei Strategaeth Amlflwyddyn 'Protect, Build, Change, Deliver', sy'n nodi blaenoriaethau hirdymor Ofgem ym mhob rhan o'i waith ar gyfer y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.

Ein blaenoriaethau strategol yw:

1. Llunio marchnad fanwerthu sy'n gweithio i ddefnyddwyr
2. Galluogi seilwaith i sicrhau Sero Net yn gyflym
3. Sefydlu system ynni effeithlon, deg, a hyblyg
4. Hyrwyddo datgarboneiddio drwy gynlluniau ynni carbon isel a chynlluniau cymdeithasol
5. Cryfhau Ofgem fel sefydliad

### Dyletswyddau Ofgem

Fel y nodwyd yn y Strategaeth Amlflwyddyn (y 'Strategaeth'), prif amcan Ofgem, sydd wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth, yw diogelu buddiannau defnyddwyr presennol a defnyddwyr yn y dyfodol. Yn 2023, cyhoeddodd Ofgem Fframwaith Buddiannau Defnyddwyr sy'n helpu i esbonio beth mae'r ddyletswydd hon yn ei olygu'n ymarferol.

### Gofynion Statudol – Datganiad Strategaeth a Pholisi (SPS)

Dynododd y cyn Ysgrifennydd Gwladol Ddatganiad Strategaeth a Pholisi (SPS) ar gyfer polisi ynni o dan bwerau a oedd wedi'u cynnwys yn Neddf Ynni 2013 yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Mae dyletswydd arnom i ystyried y blaenoriaethau strategol a nodwyd yn yr SPS ac i helpu cyflawni'r canlyniadau polisi a nodir ynddo wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol.

Mae'r Strategaeth yn nodi ein huchelgeisiau strategol ar gyfer y blynyddoedd o 2024 i 2029 (yn unol â chyfnod yr SPS). Fe'i datblygwyd ochr yn ochr â'r SPS ac mae'n ei ddehongli drwy wneud y canlynol:

- pennu'r cyfeiriad strategol ar draws ein cyfrifoldebau sefydliadol a rheoleiddiol er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau polisi'r SPS;
- nodi'r pethau y mae Ofgem yn bwriadu eu gwneud dros y cyfnod pum mlynedd i roi'r Strategaeth honno ar waith

Mae'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y Strategaeth yn cyd-fynd yn fras â'r amcanion strategol a nodir yn yr SPS.

Yn unol â Deddf Cyfleustodau 2000, sydd i'w weld yn Atodiad IV, mae'n ofynnol i Ofgem gynhyrchu Blaenraglen Waith (FWP) flynyddol bob blwyddyn. Mae Blaenraglen Waith 2025-26 Ofgem (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025) yn nodi'n fanylach beth rydym yn bwriadu ei wneud dros y cyfnod hwnnw i roi ein Strategaeth ar waith ac, o ganlyniad, gyflawni'r canlyniadau polisi a nodwyd yn yr SPS.

Mae'r Adroddiad ar Berfformiad hwn yn rhoi manylion y gwaith y mae Ofgem wedi'i wneud dros flwyddyn ariannol 2024-25, gan gynnwys ers dynodi'r SPS, gan ystyried y blaenoriaethau strategol yn yr SPS.

Mae'r tri chategori allweddol o flaenoriaethau strategol o dan yr SPS yn cyd-fynd yn fras â'r blaenoriaethau strategol o dan y Strategaeth ac wrth gyflawni ein swyddogaethau fel y'u disgrifir yn yr Adroddiad ar Berfformiad hwn, ein hasesiad yw bod Ofgem wedi cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau polisi a nodir yn yr SPS mewn sawl ffordd:

- Galluogi Seilwaith Ynni Glân a Sero Net:
    - Rheoleiddio'r rhwydwaith a lleihau'r terfynau amser ar gyfer seilwaith y rhwydwaith trawsyrru strategol ar y tir, drwy ein gwaith ar systemau rheoli prisiau RIIO-3 a'r fframwaith Buddsoddiadau Trawsyrru Strategol Carlam (ASTI).
- Cefnogi dull system gyfan strategol o gynllunio ynni hirdymor, gan gynnwys helpu i ddatblygu methodoleg y Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP), comisiynu NESO i ddatblygu'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP) cyntaf, a datblygu gwaith i gyflwyno Cynllunwyr Strategol Ynni Rhanbarthol (RESP).
- Sicrhau Diogeledd Ynni a Diogelu Defnyddwyr:

Sicrhau bod cyfranogwyr yn y farchnad yn gadarn yn ariannol, gan gynnwys rheolau newydd i gynnal cydnerthedd ariannol yn y sector.

Monitro cydymffurfiaeth endidau rheoleiddiedig a chymryd camau gorfodi lle bo angen, gan gynnwys ein hachos yn erbyn Drax am gamddatgan biomas, ond mae Ofgem hefyd wedi bwrw ati â gwaith achos sy'n ymwneud â defnyddio PPM a hefyd yn y sector cyflenwi annomestig. Ceir rhagor o fanylion am ein gweithgarwch gorfodi a chydymffurfio yn Atodiad II.

Adfer hyder defnyddwyr yn y farchnad manwerthu ynni drwy ein Strategaeth Bregusrwydd Defnyddwyr a'r adolygiad o'r farchnad annomestig.

- Sicrhau bod y System Ynni yn Addas ar gyfer y Dyfodol: mae ein gwaith yn helpu i ddatblygu amrywiaeth o ganlyniadau polisi yn y categori hwn o dan yr SPS, gan gynnwys:

Datblygu marchnadoedd hyblygrwydd cystadleuol, cydgysylltiedig ac effeithiol drwy gefnogi ymdrechion i gyflwyno setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan a mesuryddion deallus a chreu rôl newydd ar gyfer hwylusydd y farchnad i dyfu marchnadoedd hyblygrwydd lleol.

Trefniadau llywodraethu'r broses o ddiwygio'r cod ynni, gan gynnwys Datganiad Cyfeiriad Strategol arfaethedig Ofgem ar gyfer Diwygio'r Cod Ynni.

Cefnogi arloesedd drwy rannu data yn well, canllawiau ar Ddeallusrwydd Artiffisial i'r sector ynni, a Chronfa Arloesedd Strategol Ofgem.

Lle cafodd prosiectau o dan ein Strategaeth Amlflwyddyn neu ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 sy'n cyfrannu at ddatblygu canlyniadau polisi yn yr SPS eu diwygio neu eu hailflaenoriaethu, nodir manylion ein cynlluniau diwygiedig yn ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2025-26.

## Dyletswydd Twf Ofgem

Yn 2024, cyflwynodd y llywodraeth Ddyletswydd Twf ar gyfer rheoleiddwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ofgem ystyried hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy drwy ei weithgareddau rheoleiddiol. Mae Ofgem yn cyfrannu at dwf economaidd drwy brosesau rheoleiddio sy'n lleihau costau ac yn darparu amgylchedd buddsoddi sefydlog yn y sector ynni a thu hwnt. Drwy Adolygiad Ofgem, mae'r llywodraeth yn canolbwyntio ar fandad a dyletswyddau Ofgem, gan gynnwys diwygiadau posibl i ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol allweddol, gan gynnwys diogelu defnyddwyr, Sero Net a thwf.

At hynny, ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd y llywodraeth ei chynllun gweithredu ar gyfer rheoleiddio, sy'n nodi dull rheoleiddio arfaethedig y llywodraeth. Yn ystod y 12 mis nesaf, bydd Ofgem yn gweithio gyda'r llywodraeth, y Gronfa Gyfoeth Genedlaethol a GB Energy i gefnogi newydd-ddyfodiaid i'r farchnad ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd. Bydd hyn yn cynnwys datblygu DPAau, er mwyn asesu ein cyfraniad at dwf yn holl benderfyniadau rheoleiddiol Ofgem.

## Dyletswydd Sero Net Ofgem

Bu dyletswydd Sero Net ar Ofgem ers diwedd 2023 ar ôl pasio Deddf Ynni 2023. Mae'r Ddyletswydd Sero Net yn diweddaru sut mae Ofgem yn cyflawni ein prif amcan, sef diogelu buddiannau defnyddwyr presennol ac yn y dyfodol. Mae Ofgem yn un o'r ychydig reoleiddwyr ledled y byd â mandad o'r fath ac fel rheoleiddiwr y sector ynni, mae ganddo ran hanfodol i'w chwarae.

Wrth bennu buddiannau cyffredinol defnyddwyr, rhaid i Ofgem bellach gynnwys eu buddiant o ran sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cyrraedd ei darged cyffredinol Sero Net 2050 a'i Chyllidebau Carbon interim bob 5 mlynedd (ochr yn ochr â buddiannau defnyddwyr eraill). Yn flaenorol, roedd geiriad prif amcan Ofgem yn cyfeirio at leihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr wedi'u targedu wrth gyflenwi trydan a nwy. Mae'r Ddyletswydd Sero Net ddiwygiedig, mewn gwirionedd, yn fersiwn fwy uchelgeisiol o'r hyn a oedd ar waith cyn Deddf Ynni 2023 – gan gefnogi ymdrechion i drawsnewid yn llawn i Sero Net yn hytrach na dim ond lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr wedi'u targedu.

Mae'r prif amcan ac, felly, y Ddyletswydd Sero Net, yn berthnasol i'r rhan fwyaf o swyddogaethau Ofgem, a rhaid i Ofgem gyflawni'r swyddogaethau hynny yn y ffordd a fydd yn hyrwyddo'r amcan i ddiogelu buddiannau defnyddwyr presennol ac yn y dyfodol orau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Ofgem ystyried a yw'r penderfyniadau polisi a'r penderfyniadau rheoleiddio a wneir ganddo yn cefnogi cynlluniau Sero Net y Llywodraeth. Dylid cynnal yr asesiad hwn ochr yn ochr ag ystyriaethau

eraill (e.e. diogeledd y cyflenwad, Dyletswydd Twf Ofgem ac ati).

Mae timau polisi Ofgem wedi bod yn gweithio'n galed i integreiddio'r Ddyletswydd Sero Net i'w prosesau gwneud penderfyniadau ac mae Bwrdd Ofgem yn cael diweddariadau rheolaidd am benderfyniadau polisi Sero Net a rhai sy'n ymwneud â'r hinsawdd.

Ymhlith ffrydiau gwaith eraill, rydym wedi diweddaru ein canllawiau Asesiadau Effaith er mwyn adlewyrchu'r Ddyletswydd Sero Net a newidiadau i'r fethodoleg cyfrifyddu carbon yn Llyfr Gwyrdd Llywodraeth y DU yn well. Roedd asesiadau effaith Ofgem yn arfer pwyso a mesur costau a buddiannau i bob penderfyniad pwysig ynghylch y system ynni a oedd yn rhan o'i gylch gwaith. Bydd y canllawiau diwygiedig yn helpu i sicrhau bod ein penderfyniadau yn cefnogi cynnydd tuag at Sero Net.

Mae'r newidiadau a wnaed yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi gwybodaeth am Ddyletswydd Twf, Dyletswydd Sero Net a phwerau statudol Ofgem mewn perthynas â rheoleiddio prosesau cludo a storio carbon deuocsid
- Newidiadau i'r ffordd y caiff effeithiau ar wahanol grwpiau defndydwyr eu mesur
- Newidiadau i'r ffordd y mae Ofgem yn dogfennu sut mae ei gynigion yn effeithio ar lwybrau Sero Net
- Dolenni i ganllawiau allanol newydd sy'n berthnasol i asesiadau effaith

Fel y cyfryw, gan fod Dyletswydd Sero Net Ofgem yn rhan annatod o'n prosesau gwneud penderfyniadau, mae'r rhan fwyaf o'n gwaith a ddisgrifir ar dudalennau canlynol yr adroddiad hwn yn cefnogi cynnydd tuag at Sero Net. Disgrifir diwygiadau i'r farchnad fanwerthu sy'n cefnogi data defnydd ynni mwy gronynnog a thariffau mwy hyblyg i ddefnyddwyr (gan ddiogelu defnyddwyr agored i niwed o hyd) o dan Flaenoriaeth Strategol 1 ac maent yn arbennig o bwysig, felly hefyd waith Ofgem i alluogi cynlluniau adeiladu seilwaith sy'n cefnogi uchelgeisiau Sero Net (gweler Blaenoriaeth Strategol 2).

Mae gan Ofgem hefyd dîm Strategaeth Sero Net penodedig sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, dyfodol nwy, trydaneiddio gwres a thrafnidiaeth, a chyflawni'r Ddyletswydd Sero Net. Mae'r tîm yn gweithio ym mhob rhan o Ofgem i gefnogi timau polisi a rheoleiddiol, gan gyflwyno adroddiadau rheolaidd i uwch-wneuthurwyr penderfyniadau a'r Bwrdd.

## Ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid

Mae'r pwysau costau byw parhaus a'r drafodaeth ynghylch polisïau Sero Net wedi golygu bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau'n rhan hanfodol o rôl Ofgem drwy gydol 2024-25.

### Llais y Defnyddiwr

Mae Ofgem yn ymgysylltu â grŵp eang o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau diwydiant a chynrychiolwyr defnyddwyr. Mae ein prosiect Llais y Defnyddiwr yn helpu bwrdd Ofgem i ganolbwyntio ar ddefnyddwyr – domestig ac annomestig – ac i feithrin gwell dealltwriaeth o'u profiadau drwy sesiynau archwilio dwfn â siaradwyr allanol gwadd, yn ogystal â thrwy ryngweithio â defnyddwyr. Yn ogystal, mae ein Prif Swyddog Gweithredol ac uwch-aelodau eraill o'r staff yn cymryd rhan mewn galwadau un-i-un rheolaidd â defnyddwyr. Mae rhaglen fewnol ar waith hefyd i gefnogi staff Ofgem sy'n cynnwys seminarau a blogiau. Drwy sicrhau bod diwylliant Ofgem yn canolbwyntio mwy ar y defnyddiwr, ein nod yw gwneud yn siŵr y caiff defnyddwyr eu hystyried ym mhob rhan o waith Ofgem, gan arwain at bolisi mwy effeithiol a gwell canlyniadau i ddefnyddwyr.

### Grwpiau defnyddwyr ac elusennau

Parhaodd Ofgem i feithrin cydberthnasau â grwpiau defnyddwyr ac elusennau drwy ein sianeli ymgysylltu rheolaidd, a thrwy fwy o waith ymgysylltu ar lefel uwch. Fel rhan o Uwch-gynhadledd Bregusrwydd Ofgem yn ystod hydref 2024, daeth 200 o arweinwyr o'r sector cyfleustodau, grwpiau defnyddwyr, elusennau, cynrychiolwyr masnach a'r llywodraeth at ei gilydd. Roedd y Gweinidog dros Ddefnyddwyr Ynni hefyd yn bresennol. Am y tro cyntaf, cynhaliwyd yr uwch-gynhadledd mewn partneriaeth â'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) er mwyn rhannu

safbwyntiau ar draws y sectorau ynni a dŵr. Cynhaliodd Ofgem hefyd ddigwyddiad partneriaeth am y tro cyntaf ar y cyd â'r Sefydliad Banc Tanwydd yng Nghaerdydd â 40 o gyfranogwyr a ddaeth ynghyd i dynnu sylw staff Ofgem at yr heriau sy'n wynebu unigolion agored i niwed.

## Ymgyrch Ymwybyddiaeth Ynni

Mae ymgyrch #YmwybyddiaethYnni Ofgem i ddefnyddwyr yn parhau i ddatblygu yn sgil lansio'r Sioe Deithiol Ymwybyddiaeth Ynni. Wedi'i hanelu at godi lefel llythrennedd ynni ledled y DU, mae'r ymgyrch yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau o gynnwys wedi'i deilwra'n benodol i ddigwyddiadau a chydweithrediadau, yn ogystal â datblygu **pecynnau addysgu** i'w defnyddio mewn ysgolion.

Er mwyn ehangu ein cyrhaeddiad ymhellach, mae Ofgem wedi cefnogi ac wedi hyrwyddo'r ymgyrch hon i ddefnyddwyr drwy gyflwyniadau i randdeiliaid, dosbarthu deunyddiau'r ymgyrch i randdeiliaid er mwyn cefnogi defnyddwyr agored i niwed ledled y DU, a gwaith ymgysylltu uniongyrchol â defnyddwyr mewn digwyddiadau fel y **sioe Everything Electric**. Yn y digwyddiadau hyn, rhoddodd cydweithwyr Ofgem (o faes polisi a chyfathrebu) gyngor ymarferol ar fesurau arbed effeithlonrwydd ynni a'r grantiau ariannol sydd ar gael – gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i rymuso defnyddwyr drwy gynnig camau gweithredu iddynt.

## Diogelu defnyddwyr a gwella safonau

## Diffodd y Gwasanaeth Radio Teleswitch (RTS)

Cyn diffodd y Gwasanaeth Radio Teleswitch (RTS), lluniodd Ofgem dasglu traws-sector dan arweiniad y diwydiant, gan gynnwys grŵp ymgysylltu a sefydlwyd yn benodol i ehangu allgymorth a chodi ymwybyddiaeth cwsmeriaid. Mewn partneriaeth â Smart Energy GB (SEGB), mae'r tasglu wedi cefnogi ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus chwe mis o hyd wedi'i chyflwyno gan y cyflwynydd teledu Lorraine Kelly.

## Cynlluniau carbon isel a chynlluniau cymdeithasol

Parhaodd y cynlluniau ynni carbon isel a'r cynlluniau cymdeithasol a weinyddir gan Ofgem i dyfu. Yn ystod 2024-25, trefnwyd 22 o ddigwyddiadau a fforymau ar gyfer cynlluniau penodol, yn ogystal â 12 wedi'u hanelu at y porth Flex newydd i Awdurdodau Lleol. Cynhaliwyd gweminarau i ryw 1,000 o gyfranogwyr ar y Gofrestr Trydan Adnewyddadwy newydd. Roedd hyn ochr yn ochr â 27 o adroddiadau ar gynlluniau a thros 215,000 o daflenni gwybodaeth uniongyrchol i gyfranogwyr cynlluniau, er mwyn rhoi gwybod iddynt am y datblygiadau diweddaraf.

## Defnyddwyr annomestig: busnesau a sefydliadau nid-er-elw

O safbwynt y sector annomestig, ar ddechrau cyfnod 2024-25, cyhoeddwyd yr Adolygiad o'r Farchnad Annomestig, a ddeilliodd o waith sylweddol a wnaed ac a oedd yn garreg filltir bwysig yn ymdrechion Ofgem i ehangu a gwella ei allu i ymdrin yn effeithiol â'r farchnad annomestig.

Ers hynny, mae Ofgem wedi parhau i ymgysylltu â chyflenwyr, busnesau a grwpiau sy'n cynrychioli busnesau i ddarparu diweddariadau, cael adborth a datblygu polisïau a'u rhoi ar waith. Roedd hyn yn cynnwys fforymau rheolaidd y Grŵp Defnyddwyr Bach a Chanolig a'r Grŵp Defnyddwyr Mawr, a'r Fforwm Cyfarwyddwyr Rheoleiddiol annomestig. Mae hefyd yn cynnwys gweithdai penodol a chyfres o gyfarfodydd ar bynciau fel casglu data yn effeithiol a gwella canllawiau ar arferion gorau pan fydd deiliadaethau / tenantiaethau yn newid ymhlith busnesau bach ar safleoedd penodol.

Yn arwyddocaol, mae Ofgem hefyd wedi gwella ein cydberthnasau â Chyfryngwyr Trydydd Parti / broceriaid. Mae o leiaf 2,000 o sefydliadau o'r fath yn gweithredu yn y farchnad annomestig, gan hwyluso cydberthnasau a chontractau rhwng defnyddwyr a chyflenwyr. Cafwyd trafodaethau ynghylch y ffordd orau o gefnogi'r sector hwn – mae'r cwestiwn yn agored o hyd, ond mae mentrau rhanddeiliaid diweddar fel Gweithgor a Fforwm ehangach yn benodol i froceriaid yn datblygu'r cydberthnasau sydd eu hangen arnom er mwyn deall y sector hwn a chyfathrebu'n well ag ef.

## Ymgysylltu Rheolaidd â Chyflenwyr

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, bu Ofgem yn rheoli cydberthnasau â chyflenwyr ynni yn rheolaidd, a hynny o ran optimeiddio cydberthnasau Busnes fel Arfer ac o ran helpu i gyflwyno / cefnogi negeseuon polisi pwysig ynghylch llawer o'r pynciau yr ymdrinnir â nhw yn yr adroddiad hwn e.e. Mae Ofgem wedi cynnal galwadau misol â Chyfarwyddwyr Rheoleiddiol (gan gynnwys sesiwn wyneb yn wyneb bob chwarter) gan ddod â grŵp craidd o fwy na 40 o gydweithwyr o gyflenwyr mawr a bach ynghyd i drafod, rhannu gwybodaeth a rhoi adborth dwy ffordd.

Rydym hefyd wedi cynnal sawl dwsin o sesiynau ad-hoc dwyochrog ac mewn grwpiau er mwyn gallu ymgysylltu'n fanwl mewn ffordd wedi'i deilwra'n benodol ar bynciau proffil uchel fel rhyddhau o ddyledion a safonau gwasanaeth cwsmeriaid.

## Seilwaith

Mae amrywiaeth o weithgareddau rheolaidd, penodol ac effeithiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod yn sail i gynnydd parhaus Ofgem mewn sawl maes sy'n allweddol i nodau'r llywodraeth o ran Pŵer Glân 2030 a Sero Net 2050. Mae Ofgem wedi parhau i atgyfnerthu ei brosesau ar gyfer rhyngweithio â rhanddeiliaid ar sail ddwyochrog ac amlochrog, drwy amrywiaeth o weithgareddau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- Mwy o ddefnydd o flogiau i ddatblygu ein naratif ar ddiwygio cysylltiadau.
- gweminarau pwnc-benodol hynod ryngweithiol ar bynciau mor amrywiol â rhagolygon y gaeaf, Storio Ynni am Gyfnodau Hir a rôl Ofgem yn y broses o adeiladu seilwaith.
- Manteisio i'r eithaf ar ymweliadau a llwyfannau i siaradwyr, er mwyn casglu adborth gwerthfawr a chyfleu ein negeseuon strategol.

## Rheoleiddio Rhwydweithiau Gwres ym Mhrydain Fawr

Rydym yn parhau i ddatblygu'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer rhwydweithiau gwres, ac mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol i'r gwaith hwn. Rydym wedi defnyddio sianeli fel y Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Allweddol ar Rwydweithiau Gwres, sef seinfwrdd â chynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid allweddol. Gwnaethom hefyd gyflwyno rhaglen ymgysylltu eang ar gyfer dau ymgynghoriad, gan gynnwys un ar y cyd â'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net. Roedd hyn yn cynnwys cydgysylltu presenoldeb mewn 18 o ddigwyddiadau, gyda chyfanswm o fwy na 1,000 o gyfranogwyr.

# Dadansoddi perfformiad

Mae adran dadansoddi perfformiad yr adroddiad hwn ar berfformiad yn nodi sut mae Ofgem wedi cyflawni yn erbyn ei Flaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 a'i Strategaeth Amlflwyddyn, gan felly gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau polisi a nodwyd yn y Datganiad Strategaeth a Pholisi a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Mai 2024.

Yn unol ag amcanion Adolygiad Ofgem a'r ymgyrch i sicrhau twf, mae Ofgem yn ymrwymedig i wella ei dryloywder a'i atebolrwydd drwy adrodd ar set gadarn o fetrigau perfformiad. Rydym wrthi'n datblygu set fwy cadarn o fetrigau er mwyn monitro perfformiad Ofgem yn erbyn ein Strategaeth Amlflwyddyn a byddwn yn anelu at gyflwyno adroddiad yn eu herbyn erbyn y flwyddyn nesaf fan bellaf.

## Blaenoriaeth strategol 1: Llunio marchnad fanwerthu sy'n gweithio i ddefnyddwyr

### *Amcan Strategol 1: Sicrhau prisiau teg*

Mae gan Ofgem ran i'w chwarae wrth helpu i sicrhau costau teg i ddefnyddwyr, gan gynnwys y ffordd y caiff costau eu dyrannu. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddefnyddio ein pwerau yn effeithiol, ac i ddylanwadu ar y penderfyniadau a'r camau gweithredu y mae eraill yn gyfrifol amdanynt, yn enwedig y Llywodraeth. Mae rôl Ofgem yn cynnwys mynd i'r afael â heriau dyledion a fforddiadwyedd ac adolygu taliadau sefydlog, a diogelu prisiau yn effeithiol wrth i'r farchnad fanwerthu newid. Mae prisiau teg hefyd yn flaenoriaeth wrth ddarparu'r seilwaith ar gyfer Sero Net a chreu system fwy effeithlon a hyblyg.

### *Gweithredu a datblygu dulliau diogelu prisiau*

#### *Diweddariadau ar y Cap ar Brisiau*

Mae Ofgem wedi cyflawni ei amseriadau statudol wrth gyhoeddi newidiadau i gyfraddau'r cap ar brisiau ar gyfer 2024-25. Yn ystod y flwyddyn, gwelsom gynnydd cyffredinol yn lefel y cap ar brisiau, yn bennaf oherwydd ffactorau byd-eang parhaus a oedd yn dylanwadu ar brisiau nwy cyfanwerthu. Lefel y cap ar brisiau o fis Gorffennaf i fis medi 2024 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024) oedd £1,568 i gwsmer nodweddiadol. Cafodd y cap ar brisiau ei gynyddu deirgwaith yn olynol drwy gydol 2024-25, i £1,717 ar gyfer y cyfnod o fis Hydref i fis Rhagfyr 2024, £1,738 ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr i fis Mawrth 2025 a £1,849 ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill i fis Mehefin 2025. Ceir rhagor o wybodaeth am lefelau'r cap ar brisiau ynni ar gyfer 2024-25 (a blynyddoedd blaenorol) ar ein gwefan.

#### *Polisi ar y Cap ar Brisiau Tariffau diofyn*

Roedd yr adolygiad o lwfansau costau gweithredu a dyledion yn gyfrifol am ran helaeth o'r gwaith ar y polisi ar y cap ar brisiau. Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Ofgem ymgynghoriad statudol yn nodi ein cynigion ar yr adolygiad o lwfansau costau gweithredu a dyledion.

Ar ôl i ni ddadansoddi ac ystyried ymatebion rhanddeiliaid, ar 23 Mai 2025, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad gan ddod â'r adolygiad i ben. Gwnaethom benderfynu ailstrwythuro a diweddaru'r lwfansau gan ddefnyddio data newydd am gyflenwyr. Mae'r newid hwn yn lleihau'r lwfansau costau gweithredu a dyledion ryw £8 fesul cwsmer ar gyfartaledd. Yn dilyn yr adolygiad hwn, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i adolygiad o lwfansau cyfanwerthu, gan roi ffocws penodol ar sut y gallant addasu i'r setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan.

#### *Taliadau sefydlog*

Mae tâl sefydlog yn gost ddyddiol benodol a gaiff ei hychwanegu at filiau ynni. Ym mis Tachwedd 1024, cyhoeddodd Ofgem gais am fewnbwn mewn perthynas â thaliadau sefydlog a chawsom dros 30,000 o ymatebion i'r cyhoeddiad hwn.

Dilynwyd hyn drwy gynnal ymgynghoriad polisi ym mis Chwefror 2025 ar yr opsiynau ar gyfer cyflwyno mwy o ddewis i gwsmeriaid e.e. drwy amrywiolyn yn cynnig tâl sefydlog o sero fel rhan o'r cap ar brisiau ynni. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn nodi ein camau nesaf yn ystod haf 2025.

#### *Pennu prisiau ar gyfer cwsmeriaid rhagdalu*

Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Ofgem ei benderfyniad terfynol ar y broses o 'lefelu' prisiau i gwsmeriaid ar fesuryddion rhagdalu. Gwnaethom gyhoeddi cais am fewnbwn ar ein fframwaith cwmpas a gwerthuso arfaethedig er mwyn ystyried sut y mae'n gweithredu'n

ymarferol ym mis Rhagfyr 2024, a daeth y broses hon i ben ym mis Chwefror 2025. Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi diweddariad yn nodi y byddem yn gohirio'r adolygiad tan Gaeaf flwyddyn nesaf ar y cynharaf, ar ôl ystyried yr adborth. Cafodd Cam 2, a fydd yn ystyried lefelu costau i ddefnyddwyr sy'n defnyddio dulliau Credyd Safonol a Debyd Uniongyrchol, ei ohirio ym mis Awst 2024.

### *Dewisiadau amgen i'r Cap ar Brisiau (cyfanwerthu cynyddraddol, BAT a hyblygrwydd)*

Cyhoeddodd Ofgem bapur trafod ar yr opsiynau ar gyfer diogelu prisiau yn y dyfodol ym mis Mawrth 2024, a chyhoeddodd grynodeb o'r ymatebion yn agosach at ddiwedd y flwyddyn. Nododd y papur hwn ddewisiadau amgen posibl i'r cap presennol ar brisiau a gwahoddodd randdeiliaid i gyflwyno sylwadau ar rinweddau'r dewisiadau hyn ac i nodi a ddylai unrhyw rai o elfennau allweddol y cap ar brisiau (gwastad, cyffredinol a llym) gael eu llacio neu eu newid i ystyried newidiadau yn y ffordd y bydd y farchnad yn gweithredu yn y dyfodol, gan gynnwys defnydd mwy hyblyg o ynni a chyflwyno'r setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan.

Dilynwyd hyn â chyfres o gyfarfodydd dwyochrog â rhanddeiliaid allweddol ddechrau 2025. Yn sgil y papur hwn a'r gwaith dilynol, rydym yn disgwyl cytuno ar ein safbwynt o ran dyfodol diwygio'r cap ar brisiau yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn hon.

Gwnaethom gadw'r Gwaharddiad ar Dariffau Caffael yn unig (BAT) am flwyddyn arall drwy ymgynghori â'r cyhoedd ac, er mwyn rhoi mwy o eglurder i'r farchnad, gwnaethom nodi ein bwriad y bydd yn parhau ar waith am gyfnod amhenodol. Disgwylir estyniadau blynyddol pellach – hyd nes y caiff penderfyniadau tymor hwy eu gwneud ynghylch dyluniad y farchnad fanwerthu yn y dyfodol (fwy na thebyg o fewn y flwyddyn neu ddwy nesaf).

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Ofgem wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer tariffau heb daliadau sefydlog ochr yn ochr â'n strategaeth dyledion, gan ymgynghori arnynt er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn clywed gan y rhai y mae dyledion ynni yn effeithio arnynt fwyaf. Rydym wedi gweithio gyda'r Llywodraeth wrth iddi gyflwyno cymorth drwy fil cryfach drwy'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes a datgan ei chefnogaeth o blaid cynllun lliniaru dyledion arfaethedig Ofgem. Gyda'i i gilydd, mae'r ffrydiau gwaith a'r dulliau gweithredu hyn yn helpu i sicrhau prisiau teg yn y farchnad fanwerthu, ac yn helpu i fynd i'r afael â dyledion ynni a materion fforddiadwyedd.

## Amcan Strategol 2: Sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel

Defnyddio pwerau rheoleiddiol Ofgem i wella safonau a dwyn y sector cyfan i gyfrif, gan gynnwys cyhoeddi mwy o ddata am berfformiad cyflenwyr. Rhaid i hyn fod o fudd i bob defnyddiwr, o'r rhai mwyaf agored i niwed i ddiwydiant trwm, wrth i gynhyrchion a gwasanaethau newydd ddod i'r amlwg, ac wrth i anghenion defnyddwyr ddatblygu.

### *Gwell camau diogelu i bob defnyddiwr, yn enwedig cwsmeriaid agored i niwed*

Lansiodd Ofgem Strategaeth Bregusrwydd Defnyddwyr newydd ym mis Ebrill 2025 a oedd yn fwy penodol er mwyn sicrhau bod ffocws Ofgem a'r sector ynni ar yr hyn sydd bwysicaf i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus.

Mae'r Strategaeth Bregusrwydd Defnyddwyr yn helpu Ofgem a'r diwydiant i sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr. Mae'n nodi canlyniadau clir a phenodol, yn tynnu sylw at yr hyn a ddisgwylir gan gwmnïau ynni, ac yn ymrwymo i dryloywder yn ein gwaith perthnasol. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar roi'r strategaeth ar waith ac ar fonitro cynnydd wrth ei chyflawni.

### *Y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth (PSR) a rhannu data*

Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2024, cytunodd y mwyafrif o'r cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr i gyd-gyllido datrysiad i awtomeiddio'r prosesau ar gyfer rhannu data PSR rhyngddynt a gyda pherchenogion rhwydweithiau dosbarthu (DNO). Caiff y datrysiad hwn ei greu a'i weithredu gan Electralink a bydd yn adlewyrchu'r llif data DO225 presennol a sefydlwyd ers peth amser rhwng perchenogion rhwydweithiau dosbarthu a'r cyflenwyr ynni.

Mae datrysiad rhannu data PSR cwbl weithredol ar waith gan Ofgem rhwng y cwmnïau ynni a dŵr, sy'n golygu mai dim ond unwaith y bydd angen i ddefnyddwyr esbonio eu hamgylchiadau

i un cwmni, a chaiff y wybodaeth ei rhannu â'r holl gwmnïau ynni a dŵr perthnasol. Mae hyn yn berthnasol i 95% o'r farchnad.

Rhoddodd Ofgem gymorth i'r Adran Busnes a Masnach ddatblygu PSR aml-sector, ond mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio am y tro.

*Mesuryddion Rhagdalu Anwirfoddol (PPM)*

Enhanced licence requirements have been iGweithredwyd gofynion trwydded estynedig ar gyfer gosod PPM anwirfoddol. Mae Ofgem wedi cwblhau'r adolygiad o gydymffurfiaeth ar gyfer arferion gosod hanesyddol. Bydd cyflenwyr na wnaethant ddilyn y rheolau wrth osod mesuryddion rhagdalu i gasglu dyledion heb ganiatâd deiliad y cartref yn talu £18.6m mewn iawndal a threfniadau diystyru dyledion i o leiaf 40,000 o gwsmeriaid.

*Cymorth i gwsmeriaid heb gyflenwad*

Yn dilyn gweithgarwch ymgynghori â rhanddeiliaid a gwblhawyd ar 31 Mawrth 2025, mae Ofgem yn bwriadu gweithredu'r amod trwydded segur sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyflenwr domestig gynnig gwasanaeth ymholiadau 24 awr y dydd i gwsmeriaid yr effeithir arnynt. Daw'r rheol i rym o 1 Awst 2025.

*Diweddariad ar lefelau talu GSOP cyflenwyr*

Yn weithredol o 2 Ionawr 2025 a chan gwblhau'r gweithgaredd ar 31 Mawrth 2025, cynyddodd Ofgem lefel yr iawndal y mae'n rhaid i gyflenwyr ei dalu i gwsmeriaid pan fyddant yn methu â chyrraedd unrhyw un o'r Safonau Perfformiad Gwarantedig (GSOP). Dim ond adlewyrchu chwyddiant y bwriedir i'r cynnydd hwn o £30 i £40 ei wneud, gan mai yn 2015 y cafodd y lefel dalu o £30 ei phennu.

*Diogelu buddiannau defnyddwyr annomestig*

Ofgem continue to engage proactively with Mae Ofgem yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid a chefnogi materion penodol wrth iddynt ddod i'r amlwg e.e. rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried yn fras y rhesymau dros gwynion bilio, a sut i'w lleihau. Mae'r gwaith rydym wedi'i gyflawni eisoes yn cynnwys y canlynol:

*Adolygiad o'r farchnad annomestig*

Yn 2024, cyhoeddodd Ofgem ein penderfyniad ar reolau newydd a diwygiedig i gyflenwyr ynni yn dilyn ein hadolygiad o'r farchnad annomestig. Daeth amodau trwydded newydd yn weithredol yn ystod yr haf a'r gaeaf, a daeth y newidiadau olaf i drwyddedau yn weithredol ar 19 Rhagfyr 2024.

Yn sgil ein newidiadau, rydym yn disgwyl gweld triniaeth decach i bob cwsmer annomestig, gwell cymorth a gwell tryloywder er mwyn grymuso cwsmeriaid.

*Gwell dulliau monitro*

Nodwyd gennym y byddem yn rhoi dulliau monitro mwy cyson ar waith yn y farchnad annomestig yn ystod 2024-25. Cwblhawyd y gweithgaredd hwn ac mae Ofgem wedi cyhoeddi cais cyffredinol newydd am wybodaeth gan bob cyflenwr annomestig a fydd yn ein helpu i fonitro'r farchnad mewn ffordd gynhwysfawr

*Cyfnodau ailystyried*

Mae Ofgem wedi ailasesu'r materion sy'n gysylltiedig â chyfnodau ailystyried ac ni ddaeth o hyd i unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r angen am gyfnodau ailystyried newydd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mwy o enghreifftiau o niwed wrth gytuno i gontractau ar lafar. Rydym yn gweithio gyda chyflenwyr i'w hannog i beidio â derbyn contract ar lafar oni fydd cwsmer yn gofyn am hynny, o ystyried y gall datblygiadau technolegol ddileu'r angen mewn sawl achos.

*Defnyddwyr domestig y tu ôl i gontractau annomestig*

Mae Ofgem yn creu gwell ymgyrch gwybodaeth i sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'u hawliau a'u hopsiynau. Rydym hefyd yn gweithio gyda chyflenwyr a sefydliadau cymorth i ddiweddaru ein canllaw arferion gorau ar ddyledion a datgysylltu.

*Cynnal gweithgareddau monitro, goruchwylio, cydymffurfio a gorfodi effeithiol a rhagweithiol*

Mae Ofgem wedi cynnal amrywiaeth o waith achos gorfodi sy'n ymdrin ag amrywiaeth gweithgareddau Ofgem. Mae'n werth nodi y daeth achos i ben yn erbyn Drax am gamddatgan biomas, ond mae Ofgem hefyd wedi bwrw ati â gwaith achos sy'n ymwneud â defnyddio PPM a hefyd yn y sector cyflenwi annomestig. Ceir rhagor o fanylion am ein gweithgarwch gorfodi a chydymffurfio yn Atodiad II.

*Cydymffurfiaeth manwerthwyr*

Mae camau rhagweithiol i liniaru risgiau yn parhau ac mae adolygiadau o gydymffurfiaeth ar waith mewn perthynas â bilio, hunan-

ddatgysylltu a chredyd cymorth ychwanegol. Gwaith achos cydymffurfiaeth a Rheoli Cyfrifon Cyflenwyr yw'r rhan fwyaf o'n busnes fel arfer parhaus, ac mae achosion diweddar a gwblhawyd wedi gwella'r canlyniadau i ddefnyddwyr o ran PPM biliau terfynol, ymdrin â chwynion a chywirdeb biliau annomestig.

### *Monitro'r farchnad cyfanwerthu a rhyngwladol*

Mae Ofgem wedi bwrw ati â'n gwaith i ganoli setiau data a chreu delweddau data newydd ac adnoddau gwyliadwriaeth rhagweithiol, er mwyn gallu cynnal dadansoddiadau cryfach a nodi achosion posibl o gamddefnyddio'r farchnad yn well. Rydym wedi dadansoddi sawl rhybudd o ymddygiad yn y farchnad, wedi cynnal gwaith cydymffurfiaeth ac wedi gweithio tuag at agor achos gorfodi newydd (mewn perthynas â TCLC) ym mis Ebrill 2025.

Mae Ofgem wedi parhau i gydgysylltu â'n rheoleiddwyr cyfatebol yn Ewrop i sicrhau y caiff gweithgarwch ymddygiad y farchnad trawsffiniol ei fonitro ac y cymerir camau gweithredu os bydd angen.

### *Defnyddio data i wella perfformiad cyflenwyr*

Mae Ofgem yn parhau i fonitro a dadansoddi gweithgareddau yn y marchnadoedd er mwyn deall effaith ein polisïau ar ganlyniadau defnyddwyr.

Mae rhaglen Gwelliant Parhaus yn mynd rhagddi o hyd, ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Rhaglen Gwell Data'r Farchnad newydd i ysgogi gwelliannau pellach.

### *Deallusrwydd am y Farchnad, Cydymffurfiaeth Defnyddwyr a Deallusrwydd*

Mae ein rhaglen Gwelliant Parhaus o ran deallusrwydd am y farchnad yn mynd rhagddi o hyd, ochr yn ochr â ffrydiau gwaith i wella sut y caiff gweithgareddau casglu data eu cydgysylltu drwy'r broses Cais am Wybodaeth.

### *Rhaglen Gwella Data'r Farchnad*

Mae Swyddfa Data'r Marchnadoedd newydd wedi lansio sawl gwasanaeth i wella'r wybodaeth sydd ar gael ac i wella sut y caiff gweithgareddau casglu data eu cydgysylltu drwy'r broses Cais am Wybodaeth.

Caiff trefniadau llywodraethu data ffurfiol eu cyflwyno yn ystod y misoedd nesaf, ac mae gwaith ar y model data strategol a'r gwaith mapio llif data ar y gweill.

### *Rhaglen newydd i fesur hyder defnyddwyr yn ystod y flwyddyn*

Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Ofgem 'Consumer Confidence', a oedd yn nodi cynigion ar gyfer ysgogi newid diwylliannol a gwelliannau o ran gwasanaeth cwsmeriaid ac ymddiriedaeth y cyhoedd ym mhob rhan o'r sector ynni.

Yn ystod yr argyfwng ynni, gostyngodd boddhad cwsmeriaid i'w lefelau isaf ac er ein bod wedi gweld gwelliannau ers hynny a gostyngiad yn nifer y cwynion, mae'r sector ar ei hôl hi o hyd o gymharu â sectorau eraill.

Mae'r darlun cyffredinol yn anghyson o hyd gyda lefelau boddhad defnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus a defnyddwyr annomestig yn parhau ar lefelau is o gymharu â'u cymheiriaid domestig.

Ers cyhoeddi gweledigaeth Ofgem, rydym wedi gweithio'n agos gyda chyflenwyr, grwpiau defnyddwyr, elusennau a rhanddeiliaid eraill ym mhob rhan o'r sector i ddiffinio'r canlyniadau rydym am i'r sector eu cyflawni, ar gyfer cwsmeriaid domestig ac annomestig.

Rydym hefyd yn ystyried sut i greu fframwaith rheoleiddiol sy'n gwella'r cymhellion i gyflawni'r canlyniadau hynny ac sy'n sicrhau bod gan Ofgem y pwerau priodol i weithredu lle y bo angen.

Rydym yn anelu at gynnal ymgynghoriad ar y fframwaith canlyniadau i ddefnyddwyr yn ystod yr haf.

## Amcan Strategol 3: Galluogi cystadleuaeth a pharodrwydd i fuddsoddi drwy gydnerthedd ariannol

Mae creu sector sy'n fwy cydnerth yn ariannol yn helpu i atal cyflenwyr rhag methu ac yn lleihau'r risgiau i ddefnyddwyr os byddant yn methu. Ar yr un pryd, mae Ofgem yn ei gwneud hi'n haws i gyflenwyr newydd ymuno ac yn hwyluso cystadleuaeth fwy effeithiol er mwyn i'r farchnad allu cyflawni gwell canlyniadau i ddefnyddwyr.

*Cydnerthedd ariannol a rheolaethau, SoLR /SAR, Monitro Ariannol yn y Sector Manwerthu*

Mae Ofgem yn parhau i fonitro sefyllfaoedd ariannol trwyddedeion cyflenwi er mwyn deall lefelau risg yn y farchnad ynni. Ym mis Ebrill 2025, cynhaliodd Ofgem SoLR o Rebel Energy Supply Limited, gan benodi British Gas Trading Limited fel SoLR.

## Amcan Strategol 4: Cefnogi marchnadoedd newydd a datblygol

Rheoleiddio marchnadoedd newydd (fel rhwydweithiau gwres) a datblygu dull rheoleiddio Ofgem mewn ymateb i farchnad gwbl wahanol – gan gynnwys ystyried diwygiadau mwy sylweddol i'n fframwaith rheoleiddiol.

*Ystyried diwygio'r farchnad fanwerthu ac ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol.*

Mae Ofgem wedi creu gweithgor ar y cyd â DESNZ i gwblhau rhaglen waith â therfyn amser penodol (12 mis) sy'n canolbwyntio ar arloesedd yn y farchnad fanwerthu yn y dyfodol.

Mae Ofgem wedi b od yn gweithio ar y cyd â DESNZ i ddatblygu fframwaith rheoleiddiol ar gyfer rhwydweithiau gwres sy'n gymesur ac yn unol â dyletswyddau Ofgem i ddiogelu defnyddwyr, gan gynnwys monitro, gorfodi a diogelu defnyddwyr.

Mae Ofgem wedi ymgynghori ar gamau diogelu newydd arfaethedig i ddefnyddwyr i gwsmeriaid rhwydweithiau gwres, ac ar ein dull awdurdodi a goruchwylio rheoleiddiol. Mae Ofgem wedi ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid ar yr ymgyngoriadau hyn, ac ar gyflwyno platfform digidol newydd a fydd yn cynnig pwynt mynediad i bob parti rheoleiddiedig. Caiff y gyfundrefn reoleiddiol ei chyflwyno dros amser, a bydd rôl Ofgem yn dechrau ym mis Ionawr 2026.

*Blaenoriaeth strategol 2: Galluogi seilwaith i sicrhau Sero Net yn gyflym*

## Amcan Strategol 5: Bwrw ati â gwaith cynllunio strategol

Galluogi symudiad pendant tuag at gynllunio a chydgysylltu systemau drwy swyddogaethau newydd gan gynnwys y Cynllun Ynni Gofodol Strategol, a fydd yn helpu i gydgysylltu penderfyniadau, lleihau ansicrwydd ymhlith buddsoddwyr a lleihau costau.

Y Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP)
Cafodd NESO ei gomisiynu i ddatblygu'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol cyntaf erioed i Brydain Fawr. Mae Ofgem yn helpu i ddatblygu methodoleg y Cynllun, gan sicrhau ei fod yn gydnaws â dyletswyddau rheoleiddiol, a diogelu buddiannau defnyddwyr. Mae Ofgem yn gweithio'n agos gyda NESO a'r Llywodraeth i sicrhau bod y Cynllun yn cyflawni ei nodau strategol ac yn cefnogi'r broses o drawsnewid i system ynni glân, diogel a fforddiadwy.

*Y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP)*

Mae Ofgem wedi gofyn i NESO ddatblygu'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog cyntaf a disgwylir iddo fod yn barod erbyn mis Rhagfyr 2027. Yn ystod 2024-25, cyhoeddodd Ofgem amodau trwydded NESO er mwyn rhoi eglurder rheoleiddiol ynghylch y rhwymedigaethau a'r amserlenni ar gyfer rhoi'r Cynllun Rhwydwaith ar waith, gan amlinellu rôl Ofgem wrth gymeradwyo'r fethodoleg a'r cynllun ei hun. Rydym wedi helpu i ddatblygu'r fethodoleg er mwyn sicrhau y gall y cynllun rhwydwaith ymgorffori'r gofynion cynhyrchu a'r galw a nodwyd yn yr SSEP er mwyn cyflawni Sero Net yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae Ofgem hefyd yn dylunio fframwaith rheoleiddiol RIIO-3 mewn ffordd sy'n sicrhau bod penderfyniadau rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Rhwydwaith yn helpu perchenogion rhwydweithiau i sicrhau canlyniadau cyflym, gan ar yr un pryd ddiogelu defnyddwyr.

*Y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog trosiannol*

Cyn cyhoeddi'r Cynllun Rhwydwaith llawn, cyhoeddodd NESO Gynllun Rhwydwaith Strategol Canolog trosiannol o'r enw "Beyond 2030" ym mis Mawrth 2024, sy'n nodi'r rhwydwaith trawsyrru sydd ei angen i gysylltu'r gofynion cynhyrchu a galw a ddisgwylir erbyn 2035. Cynhaliodd Ofgem adolygiad cyflym o'r cynllun hwn a ddefnyddiwyd fel sail wrth i ni benderfynu sut i'w drin o safbwynt rheoleiddiol ym mis Rhagfyr 2024. Gan nad oedd y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi'u datblygu'n ddigonol, rydym wedi rhoi cyllid i weithredwyr trawsyrru i'w datblygu ymhellach a bydd NESO yn rhoi diweddariad i'w gynllun erbyn mis Ionawr 2026 yn seiliedig ar brosiectau digon aeddfed.

### *Cynllunwyr Strategol Ynni Rhanbarthol (RESP)*

Yn dilyn ein penderfyniad i gyflwyno Cynllunwyr Strategol Ynni Rhanbarthol ym mis Tachwedd 2023, yn ystod y flwyddyn hon mae Ofgem wedi agor ac wedi cwblhau ymarfer ymgynghori ar sut y byddent yn gweithio'n ymarferol, gan ddod â'r ymarfer i ben ym mis Hydref 2024. Daeth 133 o ymatebion i law a chyhoeddwyd ein penderfyniad ar y fframwaith polisi ddechrau mis Ebrill 2025. Bydd y Cynllunwyr yn golygu y gellir datblygu'r system ynni mewn ffordd gydgysylltiedig ar draws sawl fector, yn rhoi hyder yng ngofynion y system, ac yn ein galluogi i fuddsoddi mewn seilwaith rhwydwaith cyn fod ei angen.

## Amcan Strategol 6: Ehangu rhwydweithiau trydan

### *Buddsoddi mewn rhwydweithiau ar y tir.*

Mae Ofgem yn cyflymu'r broses "asesu prosiectau" a'r gwaith o ymgysylltu â gweithredwyr trawsyrru; LOTI; a phrosesau ailagor prosiectau bach a chanolig

### *Cystadleuaeth gynnar ar y môr*

Mae Ofgem wedi cyhoeddi'r rheoliadau tendro cystadleuaeth gynnar a'r model cystadlu ac mae wrthi'n nodi prosiect cyntaf addas

Bydd y broses o gyflwyno'r rhwydweithiau trydan ar lefel trawsyrru a dosbarthu yn sail i'r broses o drawsnewid i Sero Net ac yn ysgogwr allweddol o ran twf economaidd; esblygu ein fframweithiau rheoleiddiol – gan gynnwys drwy ddatblygu fframwaith ar gyfer asedau a rennir – er mwyn gallu adeiladu'n gyflym ac am gost deg.

### *Buddsoddiadau Trawsyrru Strategol Carlam (ASTI)*

Mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd ar brosiectau o dan raglen ASTI. Rhaglen garlam yw hon ar gyfer prosiectau trawsyrru mawr sy'n cyflymu'r broses gyllido hyd at ddwy flynedd ac yn cefnogi ac yn galluogi rhan allweddol o daith Pŵer Glân 2030. Mae'r gwaith adeiladu bellach yn mynd rhagddo ar y 26 prosiect cychwynnol o dan ASTI; yn 2024-25, cwblhaodd Ofgem dri Asesiad Prosiect pellach gan gynnwys prosiectau allweddol Yorkshire Green ac Eastern Links 1 a 2, ac mae dau gyflwyniad arall wrthi'n cael eu hasesu ar hyn o bryd.

### *Fframwaith Gweithredwyr Trawsyrru ar y Môr (OFTO)*

Mae Ofgem hefyd yn parhau i reoli fframwaith OFTO, gan gynnwys ymgynghori ar ganllawiau ar gynnal a chadw asedau a'u cyhoeddi, cynnal ymarferion tendro gwerth am arian, a chyhoeddi trwyddedau, e.e. rhoddwyd trwydded OFTO i EKITD (consortiwm yn cynnwys Equitix Investment Management Limited, Kyuden International Corporation a Kyuden T&D Global CO, INC), yr ymgeisydd a ffafriwyd ar gyfer Prosiect Seagreen yn dilyn y gwahoddiad i dendro a lansiwyd ym mis Ionawr 2023. Fferm Wynt ar y Môr Seagreen yw'r fferm wynt fwyaf yn yr Alban, wedi'i lleoli ryw 27km oddi ar arfordir Angus ym Môr y Gogledd. Gall 114 o dyrbinau (cyfanswm capasiti cynhyrchu o 1075MW) Seagreen ddarparu digon o ynni gwyrdd i bweru mwy nag 1.6 miliwn o gartrefi, sef dwy ran o dair o'r holl gartrefi yn yr Alban. Byddant hefyd yn dadleoli tua 900,000 o dunelli o garbon deuocsid o'r trydan a gynhyrchir gan danwyddau ffosil bob blwyddyn gan wneud cyfraniad sylweddol tuag at uchelgais Sero Net yr Alban erbyn 2045.

### *Refeniw, Cymhellion, Arloesedd ac Allbynnau*

Parhaodd gwaith Ofgem i ddatblygu'r trefniadau rheoleiddiol newydd ar gyfer y rhwydweithiau trydan y tu hwnt i 2026. Cyhoeddwyd y fethodoleg ar gyfer y system rheoli prisiau newydd, sef RIIO-3, ym mis Gorffennaf 2024 ac roedd yn nodi'r sail i'r gweithredwyr trawsyrru trydan gyflwyno eu cynlluniau gwariant ar gyfer cyfnod y system rheoli prisiau nesaf (mis Ebrill 2026 i fis Mawrth 2031). Cyflwynwyd y cynlluniau gwariant hyn ym mis Rhagfyr 2024, a disgwylir i Ofgem gyhoeddi penderfyniadau ar y cynlluniau hyn yn ddiweddarach yn 2025.

### *Fframwaith Ymgynghori ED3*

Aeth camau cyntaf y broses o ddatblygu'r trefniadau rheoleiddiol ar gyfer y rhwydweithiau dosbarthu trydan lleol hefyd yn eu blaen ar yr un pryd cyn cyflwyno'r trefniadau nesaf, gan gynnwys cyfnod y system rheoli prisiau rhwng mis Ebrill 2028 a mis Mawrth 2033. Ystyriodd ymgynghoriad Ofgem ar Fframwaith ED3 amrywiaeth eang o opsiynau dylunio, cafwyd ymatebion gan randdeiliaid a disgwylir penderfyniad yn y gwanwyn. Bydd y penderfyniad hwn yn adlewyrchu'n ofalus adolygiad dosbarthu trydan y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (NIC) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025, yn enwedig o ran y buddsoddiad strategol mewn capasiti

rhwydwaith ar draws gridiau lleol er mwyn gallu datgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth, a chefnogi dulliau cynhyrchu carbon isel a galw mwy lleol. Cyhoeddwyd y penderfyniad fframwaith ym mis Ebrill 2025 ac yn dilyn hynny, caiff methodoleg ei datblygu i lywio cynlluniau gwariant Perchenogion Rhwydweithiau Dosbarthu y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno yn 2026.

### *Mecanwaith Caffael Uwch (APM)*

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Ofgem ein penderfyniad i gyflwyno'r APM i'r system rheoli prisiau trydan. Bydd hyn yn galluogi perchenogion trawsyrru i drefnu capasiti yn y gadwyn gyflenwi yn gynharach na'r trefniadau presennol, gan gefnogi targedau datgarboneiddio a Phŵer Glân Prydain Fawr, gan hefyd gefnogi cyfleoedd ehangach ar gyfer twf yn y gadwyn gyflenwi.

### *Ased Hybrid ar y Môr*

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Ofgem ein penderfyniad terfynol ar gyfer y trydydd ffenestr ar gyfer rhyng-gysylltwyr a'r Cynllun Peilot OHA cyntaf. Cymeradwywyd cyfundrefnau rheoleiddiol cap a llawr mewn egwyddor i LirIC i Ogledd Iwerddon, MaresConnect i Weriniaeth Iweddon a Tarchon i'r Almaen, a chymeradwywyd cyfundrefnau rheoleiddiol OHA Peilot mewn egwyddor i LionLink i'r Iseldiroedd a Nautilus i Wlad Belg.

Gallai'r prosiectau hyn ychwanegu 6GW i'r capasiti rhyng-gysylltedd o 11.7GW sydd eisoes ar waith neu sy'n cael ei adeiladu, ac mae'n ein gosod ar y trywydd cywir i rannu adnoddau adnewyddadwy a rhoi hyblygrwydd ychwanegol i'r grid. Yn ogystal, bydd y cynlluniau peilot Asedau Hybrid ar y Môr yn ein galluogi i ddatblygu ein dealltwriaeth dechnegol, fasnachol a rheoleiddiol o'r cynlluniau hyn er mwyn helpu i ddatblygu grid Môr y Gogledd, drwy gyfuno rhyng-gysylltwyr â chysylltiadau o ffermydd gwynt ar y môr.

### *Rhyng-gysylltydd Trydan GreenLink (GreenLink)*

Daeth GreenLink yn weithredol ym mis Ionawr 2025. Mae'n cynnig rhyng-gysylltydd cerrynt uniongyrchol foltedd uchel 504MW sy'n cysylltu arfordir de-ddwyrain Gweriniaeth Iwerddon (is-orsaf Campile yn Great Island, Swydd Wexford) ac arfordir Cymru yn y DU (Penfro yn Sir Benfro, is-orsaf 400kV Cymru). Cyfanswm hyd y cebl yw 200 km, ac mae 160 km ohono o dan y môr. Gallai bweru hyd at 380,000 o gartrefi ac mae'n cynrychioli buddsoddiad cyfalaf sylweddol yng Nghymru ac Iwerddon, gan greu swyddi yn ogystal â buddiannau economaidd cysylltiedig.

## Amcan Strategol 7: Paratoi ar gyfer dyfodol nwy naturiol

Rheoleiddio gwariant yn y dyfodol ac adenillion ar fuddsoddiadau yn y gorffennol mewn perthynas â'r rhwydweithiau nwy, gan gynnwys drwy ein systemau rheoli prisiau rhwydwaith. Er mwyn lleihau ansicrwydd i ddefnyddwyr a'r sector, mae angen penderfyniad clir hefyd ar rôl hydrogen wrth wresogi cartrefi, a hynny cyn gynted â phosibl. Mae Ofgem yn disgwyl y bydd y llywodraeth yn ymgynghori ar y mater yn ystod haf 2025.

Mae fframwaith y systemau rheoli prisiau dosbarthu a thrawsyrru nwy yn cael ei gyflwyno'n unol â'r un amserlen ar gyfer trawsyrru trydan. Yn ogystal â'r fethodoleg ar gyfer RIIO-3, mae Ofgem bellach wedi derbyn ac wedi asesu cynlluniau busnes manwl pob cwmni ac mae ar y trywydd cywir i gyhoeddi Penderfyniadau Drafft ym mis Mehefin 2025.

Mae Ofgem yn gweithio gyda'r llywodraeth a nawr NESO i geisio sicrhau diogeledd cyflenwadau nwy naturiol a'i rwydweithiau a rôl marchnadoedd yn y dyfodol wrth gefnogi'r broses trawsnewid ynni, gan gynnwys senarios a thybiaethau trawsnewid, y potensial o ran ailddefnyddio'r rhwydwaith nwy presennol at ddiben gwahanol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar senarios datgomisiynu posibl. Y flwyddyn hon, mae Ofgem wedi bod yn ystyried rôl strategol hydrogen wrth gyflawni Sero Net, yn enwedig mewn sectorau defnydd terfynol anodd eu datgarboneiddio a phŵer, yng nghyd-destun prosiectau hydrogen sy'n mynd rhagddynt.

## Amcan Strategol 8: Hwyluso'r defnydd o dechnoleg carbon isel

Datblygu fframweithiau rheoleiddiol newydd i hwyluso buddsoddiad mewn technoleg carbon isel, yn enwedig niwclear newydd, dal a storio carbon, a hydrogen – gan ar yr un pryd leihau costau i ddefnyddwyr.

Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig ym mis Rhagfyr 2024 pan ddyfarnwyd Trwydded Economaidd Clwstwr CCS NEP, gydag Ofgem yn dod yn rheoleiddiwr ar gyfer dosbarth ased newydd sbon. Mae hyn yn golygu ein bod

bellach yn rheoleiddio'r rhwydwaith cludo a storio CO2 o safbwynt economaidd, gan hefyd barhau i roi cymorth cynghorol i DESNZ wrth iddo barhau i ddatblygu rhaglen CCUS.

CCUS yw'r broses o ddal CO2 i'w ddefnyddio neu i'w storio'n barhaol yn ddwfn o dan y ddaear, lle na all fynd i'r atmosffer. Defnyddir y dechnoleg hon i ddal allyriadau CO2 o ffynonellau gan gynnwys safleoedd pŵer, purfeydd a gweithfeydd sment, neu i gael gwared ar CO2 sy'n bodoli eisoes o'r atmosffer. Ceir rhagor o fanylion am ddal a storio carbon yn Atodiad III.

Yn ogystal â hyn, mae Ofgem yn datblygu'r cyfundrefnau rheoleiddiol a all ddatblygu pŵer niwclear ychwanegol, a modelau busnes newydd ar gyfer hydrogen, gan weithio'n agos gyda'r llywodraeth.

*Storio Ynni am Gyfnodau Hir (LDES)*

Ym mis Hydref 2024, gofynnodd DESNZ i Ofgem fod yn gyfrifol am greu a datblygu cyfundrefn cap a llawr newydd sbon ar gyfer LDES. Ers hynny, mae Ofgem wedi gofyn am sylwadau ar ddyluniad y cynllun drwy gais am fewnbwn a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024. Yn dilyn hyn, gwnaethom gyhoeddi dogfen dechnegol ar y cyd â DESNZ ym mis Mawrth 2025. Mae'r ddogfen hon yn nodi manylion y gyfundrefn cap a llawr ar gyfer LDES, gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd, y broses asesu a'r terfynau amser ar gyfer cymeradwyo prosiectau.

## Amcan Strategol 9: Perfformiad y rhwydwaith a chysylltiadau

Atgyfnerthu systemau Ofgem ar gyfer dwyn y cwmnïau rhwydwaith i gyfrif drwy ein systemau rheoli prisiau, gan sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel, e.e. sicrhau bod cwmnïau yn ymateb yn gyflym pan fydd pethau'n mynd o chwith. Rhaid i ni fynd gam ymhellach wrth ddiwygio'r ciw cysylltiadau cyfan, gan sicrhau ei fod yn rhoi blaenoriaeth i'r prosiectau hyfyw sy'n barod i gysylltu a fydd yn helpu i gyflawni Sero Net a datgloi twf economaidd.

Yn ystod 2024-25, datblygodd a chyhoeddodd Ofgem ei gymeradwyaeth i'r diwygiadau i gysylltiadau trydan ym mis Ebrill 2025. Mae'r diwygiadau hyn yn trawsnewid i gyfundrefn a fydd yn seiliedig ar yr egwyddor mai'r cysylltiadau sy'n barod ac sydd eu hangen gyntaf a gaiff eu cysylltu gyntaf, er mwyn cynyddu cyfradd cysylltiadau. Mae'r system newydd hon yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau sy'n "barod" ac y mae eu "hangen", gan anelu at gyflymu cynigion newydd erbyn diwedd y flwyddyn, yn unol â gwaith cynllunio a threfniadau gweithredu ategol ar gyfer Pŵer Glân 2030, gyda'r cysylltiadau cyntaf yn dod yn weithredol yn 2026.

Mae'r diwygiadau hyn yn radical ac yn fentrus. Maent yn rhoi eglurder i gwmnïau rhwydwaith ynghylch y rhwydwaith i'w greu, gan wella hyder buddsoddwyr gan ddiffinio anghenion y system yn glir a sicrhau y caiff y rhwydwaith ei adeiladu mewn modd amserol. Mae hyn yn gydnaws â thaith Prydain Fawr tuag at Pŵer Glân 2030 a thu hwnt, yn ei chynnal ac yn rhan hanfodol ohoni, drwy gyflymu'r gyfradd cysylltu ar gyfer prosiectau hanfodol.

Mae'r diwygiadau hyn yn deillio o weithgarwch gan y diwydiant cyfan dros gyfnod o fwy na ddwy flynedd, gan gynnwys ymgyngoriadau, gweithgorau addasu'r cod, a gwaith ymgysylltu ehangach, gan arwain at y cynigion a gyflwynwyd i Ofgem gan NESO. Mae'r cydweithrediad hwn yn dangos ymrwymiad y sector ynni i roi proses gysylltiadau fwy effeithlon ar waith er mwyn cyflawni Pŵer Glân erbyn 2030 a Sero Net erbyn 2050.

Mae gwaith Ofgem i weithredu systemau rheoli prisiau RIIO-2 wedi parhau, gan sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwerth am arian o'r rhwydweithiau nwy a thrydan, a bod y cwmnïau rhwydwaith yn cyflawni ar ran eu cwsmeriaid. Rhoddodd Ofgem bwyslais o'r newydd ar fonitro perfformiad y rhwydwaith, gan gynnwys cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol y sector ar gyfer blwyddyn reoleiddio 2023-24.

Gwnaethom hefyd gynnal y cymhelliant i Weithredwyr Systemau Dosbarthu am y tro cyntaf, gan annog cwmnïau rhwydweithiau trydan i ddatblygu a defnyddio eu rhwydwaith mewn ffordd fwy effeithlon gan ystyried dewisiadau amgen yn lle camau gorfodi. Gan ddefnyddio'r hyblygrwydd sy'n rhan o'r systemau rheoli prisiau, gwnaethom hefyd sicrhau y gallai'r rhwydweithiau ynni fuddsoddi £500m pellach i wella cydnerthedd y rhwydweithiau, gwella eu parodrwydd at argyfyngau a'u hymatebion, a helpu i gyrraedd targedau Sero Net.

Ymrwymodd Ofgem i ystyried adolygiad o'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer Cludwyr Nwy Annibynnol, Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu Annibynnol a Gweithredwyr Trawsyrru Annibynnol. Yn ein bwrdd cyflwyno seilwaith,

gwnaethom benderfynu canolbwyntio i ddechrau ar adolygiad o'r Cludwyr Nwy Annibynnol er mwyn sicrhau bod ein prosesau rheoleiddio yn cynnig gwerth a gwasanaeth o ansawdd i'w cwsmeriaid cysylltiedig, y mae tua un filiwn ohonynt. Byddwn yn parhau i adolygu'r maes hwn, gan ddefnyddio'r hyn y byddwn yn ei ddysgu o'r adolygiad o Gludwyr Nwy Annibynnol.

## Amcan Strategol 10: Sicrhau cyflenwadau diogel a chydnerth

Mae Ofgem yn parhau i sicrhau a chynnal cyflenwadau ynni parhaus drwy'r broses o drawsnewid i Sero Net, gan atgyfnerthu cydnerthedd yn erbyn risgiau ariannol, risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a risgiau seiber. Mae hyn yn cynnwys datblygu fframwaith rheoleiddiol i sicrhau y caiff costau a manteision camau i sicrhau gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd eu hystyried wrth wneud penderfyniadau e.e. drwy ein fframwaith ED3.

Yn 2024-25, datblygodd Ofgem ei asesiad o gynnydd y sector ynni o ran cydnerthedd mewn perthynas â'r hinsawdd hyd yn hyn a nododd yr heriau allweddol. Nododd Ofgem flaenoriaethau allweddol ar gyfer ymdrin â'r heriau hyn, gan gynnwys galluogi eglurder ar nod a chynnwys y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd fel rhan o reoliadau. Cyhoeddwyd y wybodaeth hon mewn adroddiad ar y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ym mis Ebrill 2025, mewn ymateb i gais gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) i adrodd drwy'r pedwerydd rownd o adroddiadau ar ymaddasu i newid hinsawdd o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae tîm Rheoli Systemau Ynni a Diogeledd Ofgem wedi gweithio'n agos gyda'r Grid Cenedlaethol ac ESO wrth baratoi i gyhoeddi eu Cynllun Rhagolygon y Gaeaf ar gyfer 2024-25. Cynhaliodd Ofgem weminar cyhoeddus gyda thros 300 o randdeiliaid allanol yn bresennol. Rhoddodd gyfle i ni roi ein barn ar ddiogeledd y cyflenwad ar gyfer cyfnod y Gaeaf. Caiff yr adroddiadau hyn eu rhyddhau drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau tryloywder a'u nod yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r diwydiant ynni.

Parhaodd y tîm Diogeledd Cyflenwadau Trydan i arwain y ffrwd waith amlasiantaethol Digonolrwydd Capasiti Trydan Tymor Canolig gyda DESNZ a NESO gan arwain at lefel sylweddol uwch o ymgysylltu a chydweithredu i ddatrys problemau yn y maes hwn ac at ddefnyddio newidiadau yn y Farchnad Capasiti i gefnogi rhaglen Pŵer Glân 2030.

Gan adeiladu ar lwyddiant y dull gweithredu hwn, sefydlodd y tîm Diogeledd Cyflenwadau Nwy ffrwd waith amlasiantaethol debyg gyda'r rhanddeiliaid hyn a National Gas er mwyn gwella eu dealltwriaeth o faterion strategol sy'n gysylltiedig â'r cyflenwad nwy a'r galw amdano yn y 2020au a'r 2030au ac er mwyn creu fforwm i nodi ac asesu camau lliniaru a chydweithio i'w rhoi ar waith.

Mewn ymateb i'r bygythiad cynyddol, mae Ofgem, ar y cyd â DESNZ, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC), a NESO, yn datblygu strategaeth ar y cyd i atgyfnerthu'r Rheoliad Seiber a chydnerthedd system ynni Prydain Fawr ymhellach. Fel rhan o'r strategaeth, mae Ofgem wedi bod yn gweithio gyda'r sector i gyflwyno gweithgareddau sicrwydd ychwanegol yn eu sefydliadau, sy'n cynnwys archwiliadau manwl, ymarferion a phrofion technegol. Nod y dull sicrwydd yw defnyddio sefydliadau achrededig, yn ogystal â safonau sefydledig, sy'n darparu model gweithredu mwy cynaliadwy o ystyried nifer cynyddol yr OES a chynnig opsiynau ar gyfer rheoleiddio sefydliadau nad ydynt wedi'u cwmpasu gan yr NIS. Yn olaf, mae Ofgem yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (DSIT) ar y Bil Seiberddiogelwch a Chydnerthedd newydd.

*Blaenoriaeth strategol 3: Sefydlu system ynni effeithlon, deg, a hyblyg*

## Amcan Strategol 11: Sicrhau bod y trefniadau llywodraethu a'r sefydliadau cywir ar waith

Rheoli diwygiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y system ei llywodraethu – yn enwedig NESO – a sicrhau bod y dirwedd newydd hon yn gydgysylltiedig, yn glir ac yn effeithiol.

Yn dilyn cryn dipyn o waith paratoi dan arweiniad Ofgem, lansiodd NESO yn swyddogol ar 1 Tachwedd 2024, a oedd yn gam allweddol tuag at ddatgarboneiddio trydan a gwaith cynllunio systemau cynhwysfawr er mwyn helpu i gyflawni Sero Net.

Bydd NESO yn gyfrifol i raddau helaeth am oruchwylio'r systemau trydan a nwy o safbwynt strategol, gan sicrhau bod seilwaith ynni Prydain Fawr yn parhau'n ddiogel, yn gydnerth ac yn hyblyg ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

Fel rhan o'r broses o greu NESO, cafodd y Gweithredwr System Drydan (ESO) blaenorol, y Grid Cenedlaethol, ei wladoli, a rhoddwyd cyfrifoldebau ychwanegol iddo, gan gynnwys goruchwylio'r grid gwresogi nwy cenedlaethol. Nod y newid hwn oedd dod â rolau gweithredwyr systemau ynghyd o dan un corff cyhoeddus, gan sicrhau 'dull systemau cyfan cyfannol' o drawsnewid system ynni Prydain.

### *Diwygio trefniadau llywodraethu codau ynni er mwyn gallu gwneud newidiadau cyflymach a mwy strategol mewn perthynas â rheolau ym mhob rhan o'r sector*

Gan weithio gyda'r Llywodraeth, mae Ofgem wedi gwneud cynnydd wrth ddiwygio'r trefniadau ar gyfer llywodraethu codau'r diwydiant, gan gynnwys ymgynghori ar ein dull gweithredu, y drwydded i reolwyr codau a'r datganiad cyfeiriad strategol rhagarweiniol cyntaf. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dynodi 11 o godau diwydiant, codau rhwydweithiau unigol a phum system ganolog fel rhai sy'n gymwys at ddibenion Atodlen 12 o Ddeddf Ynni 2023 ond ni chafodd unrhyw ddogfennau eu dynodi eto at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Ynni 2023.

Mae Ofgem yn anelu at benodi'r ddau reolwr cod cyntaf erbyn canol 206, a bydd yr ymgyngoriadau a'r penderfyniadau arfaethedig ar ein cynigion polisi terfynol yn ein symud ymlaen i gam gweithredu cyntaf y rhaglen.

## Amcan Strategol 12: Darparu cymhellion a signalau effeithiol ac effeithlon i'r farchnad

Gweithio gyda'r Llywodraeth a'r sector i sicrhau bod penderfyniadau critigol, gan gynnwys yr Adolygiad o Drefniadau'r Farchnad Drydan a'n taliadau rhwydwaith ni, yn lleihau costau systemau ac yn cynnal tegwch gan ar yr un pryd ddarparu amgylchedd buddsoddi cadarn.

Mae Ofgem wedi dechrau ein Hadolygiad o Ddyrannu ac Adennill Costau Ynni, lle byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer ffordd decach, fwy effeithlon a symlach o adennill y costau hynny.

Wrth i system ynni Prydain Fawr drawsnewid o danwyddau ffosil tuag at ynni adnewyddadwy, mae'n hanfodol y caiff costau eu dyrannu a'u hadennill mewn ffordd deg. Megis dechrau y mae gwaith Ofgem yn hyn o beth; ond rydym yn bwriadu ystyried meysydd fel datblygiadau cost yn y dyfodol yn y system ynni a dulliau amgen yn hytrach na throsglwyddo costau i sawl math o gwsmer. Yn ystod haf 2025, rydym yn bwriadu cyhoeddi cais am fewnbwn yn nodi ein canfyddiadau cychwynnol, dull gweithredu arfaethedig, cwmpas a ffocws yr adolygiad.

Ceir rhagor o fanylion am ein gwaith yn y maes hwn ar flog allanol.

## Amcan Strategol 13: Galluogi hyblygrwydd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr

Galluogi'r hyblygrwydd a fydd yn trawsnewid y ffordd y mae defnyddwyr yn defnyddio trydan ac yn cyflawni Sero Net am gost deg. Mae hyn yn cynnwys ysgogi ymdrechion i gyflwyno setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan a mesuryddion deallus – a chreu rôl newydd ar gyfer hwylusydd y farchnad i dyfu a datblygu marchnadoedd hyblygrwydd lleol.

Mae mesuryddion deallus yn hanfodol i allu defnyddwyr i reoli a lleihau eu biliau mewn ffordd effeithiol a chyfleus. Maent hefyd yn cyfrannu at nodau Pŵer Glân 2030 drwy alluogi defnyddwyr i ddefnyddio trydan ar adegau o'r dydd pan fo'r grid o dan lai o bwysau. Felly mae methu â gosod mesuryddion deallus neu ddatrys diffygion pan na fydd mesuryddion deallus yn gweithredu mewn modd deallus yn broblem sylweddol.

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Ofgem Safonau Perfformiad Gwarantedig drafft i ymgynghori arnynt, gan nodi disgwyliadau clir na ddylai cyflenwyr oedi cyn cynnig apwyntiadau i ddefnyddwyr i osod mesurydd deallus, a bod yn rhaid iddynt ymchwilio i ddiffygion â mesuryddion a'u datrys o fewn terfynau amser byrrach, neu dalu iawndal i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt.

Mae Ofgem wedi parhau i gymryd camau cydymffurfiaeth yn erbyn chwe phrif gyflenwr er mwyn ymchwilio i'r rhesymau pam eu bod o bosibl wedi methu â chyrraedd y targedau gosod a bennwyd gan y Llywodraeth a pham nad yw amcangyfrif o 10% o fesuryddion deallus yn gweithio mewn modd deallus ar hyn o bryd.

Mae Ofgem wedi cwblhau'r systemau rheoli prisiau ar gyfer y Cwmni Cysylltiadau Data (DCC) ar gyfer blwyddyn reoleiddiol 2023-24. Nodwyd nad oedd dros £20m o gostau'r Cwmni yn ddarbodus nac yn effeithlon, a chaiff y swm hwn ei ddileu o Refeniw a Ganiateir y Cwmni.

Er mwyn cyflawni'r targed Sero Net erbyn 2050, bydd angen newidiadau sylweddol ym mhob rhan o'r system ynni. Mae'r broses drawsnewid eisoes yn mynd rhagddi, gan gynnwys sut rydym yn gwresogi ein cartrefi, yn pweru ein cerbydau ac yn cynhyrchu trydan ond bydd angen newidiadau ym mhob rhan o'r system ynni, y mae'n rhaid iddynt fod yn ddeallus ac yn hyblyg a chael eu gweithredu drwy farchnadoedd hyblygrwydd wedi'u hwyluso'n effeithiol, hygyrch, tryloyw a chydgysylltiedig.

Fel rhan o'r rhaglen drawsnewid, cadarnhaodd Ofgem mai Elexon fyddai Hwylusydd y Farchnad ar gyfer hyblygrwydd ynni lleol ym mis Gorffennaf 2024. Mae Hwylusydd y Farchnad Flex yn anelu at symleiddio'r broses hon drwy gysoni trefniadau'r farchnad, galluogi mwy o gynigion flex, llacio cyfyngiadau'r system ac yn y pen draw, leihau biliau defnyddwyr.

### *Sicrhau y caiff y setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan ei gyflwyno'n llwyddiannus*

Mae'r setliad hanner awr drwy'r farchnad gyfan yn rhaglen drawsnewid sylweddol sy'n cefnogi'r broses o drawsnewid i Sero Net ac yn ceisio cymell cyflenwyr ynni i gynnig tariffau arloesol, gan gynnwys tariffau Amser Defnyddio i ddefnyddwyr terfynol. Cytunwyd ar amserlen gyflawni newydd ym mis Tachwedd 2024, ac mae'r rhaglen ar y trywydd cywir i gyflawni'r terfynau amser newydd. Disgwylir i'r systemau canolog fod yn barod i'w gweithredu ar 22 Medi 2025 a disgwylir i'r cyflenwyr ddechrau trosglwyddo pwyntiau mesuryddion trydan i'r trefniadau newydd o 22 Hydref 2025.

## Amcan 14: Sicrhau bod system ynni fwy digidol yn gweithio i ddefnyddwyr

Datgloi arloesedd a datblygu dull Ofgem o ystyried system data helaeth sy'n datblygu'n gyflym o safbwynt digidol, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau i'r sector ar ddeallusrwydd artiffisial.

Cyhoeddodd Ofgem ddau ymgynghoriad yn ystod 2024-25 i ddiwygio data ynni er mwyn iddynt fod yn hygyrch i'r sefydliadau cywir ar yr adeg gywir yn y fformat cywir.

### *Seilwaith Rhannu Data*

Bydd ymgynghori yn galluogi i'r sefydliad cywir gyrchu data'r system yn ddiogel ac mewn modd amserol.

### *Cydsyniad defnyddwyr*

Mae'r ymgynghoriad yn mabwysiadu gwerthoedd bancio agored er mwyn i ddefnyddwyr allu rhannu data mesuryddion deallus yn ddiogel ac yn hwylus.

### *Galluogi arloesedd gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial ym mhob rhan o'r sector ynni*

Yn dilyn Cais am Fewnbwn ym mis Chwefror 2024, lansiodd Ofgem ymgynghoriad ffurfiol ar ein canllawiau drafft ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn y sector ynni ym Mhrydain Fawr ym mis Rhagfyr 2024.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Chwefror 2025, a chyhoeddwyd y canllawiau terfynol ym mis Mai 2025, wedi'u llywio gan adborth a gwybodaeth werthfawr gan bob rhan o'r sector ynni a rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys darparwyr technoleg.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliodd Ofgem ei Lab Rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial cyntaf ym mis Chwefror 2025, gan gynnig fforwm dynamig i drwyddedeion ynni ystyried enghreifftiau damcaniaethol o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i gynnal 'prawf straen' ar y canllawiau arfaethedig. Cynigiodd y Lab Rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial gyfle gwerthfawr ac egnïol i ddysgu ar y cyd a rhoi adborth.

Yn sgil y lefelau ymgysylltu a'r ymatebion cadarnhaol gan drwyddedeion o'r sector ynni, mae Ofgem yn bwriadu cynnal mwy o Labordai Rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial, gan ystyried enghreifftiau go iawn o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, er mwyn parhau i gefnogi camau moesegol ac arloesol i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial ym mhob rhan o'r sector.

### *Cronfa Arloesedd Strategol (SIF) Ofgem*

Mae'r Gronfa yn rhan o'r system rheoli prisiau a reolir gan Ofgem ac fe'i sefydlwyd yn 2021 i ysgogi arloesedd a chamau trawsnewid o fewn rhwydweithiau ynni.

Mae'r Gronfa yn cefnogi arloesedd rhwydwaith sy'n cyfrannu at gyflawni Sero Net, gan gynnig buddiannau net go iawn i gwmnïau rhwydwaith

a defnyddwyrar yr un pryd. Gan weithio gyda chyllidwyr arloesedd cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau bod gweithgareddau a gyllidir yn briodol gan ddefnyddwyr rhwydwaith yn cael eu cydgysylltu â gweithgareddau a gyllidir gan y Llywodraeth. Mae cwmnïau rhwydwaith ynni yn creu partneriaethau ag arloeswyr ynni i gyflwyno ceisiadau am gyllid i gynnal prosiectau arloesedd trawsnewidiol.

Ddiwedd hydref 2024, cyhoeddodd Ofgem ymgynghoriad i ystyried sut y gallem ddatgloi mwy o arloesedd yn y farchnad manwerthu ynni. Cawsom ymatebion ac ymgysylltwyd ag amrywiaeth o randdeiliaid. Mae gwaith pwysig eisoes yn mynd rhagddo i weithredu prif alluogwyr arloesedd (e.e. cyflwyno mesuryddion deallus, diwygio setliadau a gwella mynediad at ddata). Rydym yn bwriadu cyhoeddi diweddariad ar ein gwaith i ddatgloi arloesedd manwerthu yn ystod haf 2025. Mae hyn yn cynnwys diweddariad ar sut y byddwn yn darparu mwy o hyblygrwydd o fewn rheolau manwerthu er mwyn i newydd-ddyfodiaid neu gwmnïau presennol roi cynnig ar ddulliau masnachol newydd.

### *Blaenoriaeth strategol 4: Hyrwyddo datgarboneiddio drwy gynlluniau ynni carbon isel a chynlluniau cymdeithasol*

Mae Ofgem yn gweinyddu 12 o gynlluniau ar ran llywodraeth y DU. Nod y cynlluniau hyn yw annog y defnydd o ynni carbon isel, hyrwyddo datgarboneiddio a chefnogi defnyddwyr agored i niwed. Gyda'i gilydd, roedd y cynlluniau hyn yn werth mwy na £12 biliwn yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25.

Yn ystod 2025-26, bydd Ofgem yn cyflwyno nifer o feysydd gwaith penodol sy'n gydnaws â chenadaethau ac amcanion y llywodraeth ac yn eu cefnogi. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) lle bydd Ofgem yn ymgynghori ar newidiadau gweinyddol ac yn eu rhoi ar waith drwy gyhoeddi canllawiau newydd, gan ddiweddaru prosesau ac unrhyw systemau lle y bo'n berthnasol. Bwriedir gwneud newidiadau pellach hefyd i'r Cynllun Uwchraddio Boeleri (BUS) er mwyn sicrhau ei fod yn fwy hygyrch ac ychwanegu nodweddion i barhau i'w wneud yn fwy deniadol i ddefnyddwyr.

Mae Ofgem yn annog sefydliadau sy'n gweithio ar ran y diwydiant a defnyddwyr i ymgysylltu â ni i sicrhau y caiff cynlluniau eu datblygu mewn ffordd sydd o fudd i'w rhanddeiliaid.

Mae nifer o gynlluniau bellach wedi cau i ymgeiswyr newydd neu disgwylir iddynt gau yn 2026, fel y nodir yma. Byddwn yn gweithio'n agos gyda DESNZ i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol hyd nes y byddant yn cau'n llwyr. Bydd Ofgem hefyd yn gweithio gyda'r llywodraeth ac yn ei chefnogi wrth iddi wneud penderfyniadau ar yr hyn sydd i ddod nesaf, yn ogystal ag ymgysylltu â diwydiant a grwpiau defnyddwyr ar ddyfodol datblygu cynlluniau.

## Cynlluniau ynni carbon isel

### *Cynllun Uwchraddio Boeleri*

Lansiwyd y Cynllun hwn ym mis Mai 2022 a'i nod yw helpu perchenogion eiddo i osod systemau gwresogi carbon isel, er mwyn helpu i drawsnewid i Sero Net drwy grantiau cyfalaf uniongyrchol, i osod pympiau gwres a boeleri biomas mewn cartrefi ac adeiladau annomestig. Lefelau'r grantiau ar hyn o bryd yw £7,500 ar gyfer pympiau gwres a £5,000 ar gyfer boeleri biomas.

Mae'r cynllun wedi tyfu'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2024-25), gwnaethom dalu 25,331 o grantiau ar gyfer datrysiadau gwresogi carbon isel gwerth bron i £190m, gan ddod â chyfanswm nifer y grantiau a dalwyd ers lansio'r cynllun i dros £328m

Ar 21 Tachwedd 2024, cyhoeddodd y llywodraeth y bydd cyllideb y Cynllun Uwchraddio Boeleri yn cynyddu i £295m ar gyfer 2025-26.

Mae'r cynllun wedi bod yn destun un cylch o newidiadau Offeryn Statudol, a ddaeth i rym ym mis Mai 2024. Ers hynny, mae DESNZ wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno cyfres bellach o newidiadau rheoleiddiol i'r Cynllun Uwchraddio Boeleri i ehangu ei gyrhaeddiad a pharhau i wneud cynnydd tuag at gefnogi Sero Net. Mae Ofgem yn gweithio'n agos gyda'r adran i ddylunio'r newidiadau hyn a'u rhoi ar waith, a allai gynnwys cyflwyno technolegau amgen, systemau aml-dechnoleg, modelau perchenogaeth trydydd parti, yn ogystal â newidiadau i systemau diogelu defnyddwyr. Mae Ofgem wedi adolygu ac wedi gwella ei brosesau gweinyddol a'i systemau digidol yn barhaus, gan weithio'n agos gyda defnyddwyr y cynllun i sicrhau bod y Cynllun Uwchraddio Boeleri yn diwallu eu hanghenion o hyd.

*Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd*

Mae'r cynllun yn rhoi cymorth ariannol i safleoedd biomethan treulio anaerobig newydd cymwys ar gyfer y swm o 'nwy gwyrdd' a gaiff ei chwistrellu i mewn i'r grid. Bydd cyfranogwyr cofrestredig yn cael taliadau chwarterol dros gyfnod o 15 mlynedd ar yr amod eu bod yn parhau i fodloni'r holl feini prawf cymhwysedd perthnasol.

Caiff y cynllun ei ariannu drwy Ardoll Nwy Gwyrdd, sy'n rhoi rhwymedigaeth ar bob cyflenwr nwy tanwydd ffosil trwyddedig i dalu taliad ardoll chwarterol. Ar 30 Awst 2024, cynyddodd DESNZ gyfraddau haenau tariff ar draws y tair haen yn dilyn ei hadolygiad blynyddol o dariffau er mwyn adlewyrchu'r tybiaethau cost a refeniw gweithredu diwygiedig. Y nod oedd sicrhau bod taliadau cymorth yn parhau i gymell defnydd o'r cynllun, gan ar yr un pryd sicrhau gwerth i dalwyr biliau.

Ym mis Mehefin 2024, daeth y diwygiadau i'r rheoliadau i rym. Y newidiadau allweddol oedd ehangu'r cynllun, ac felly mae bellach ar agor i geisiadau tan fis Mawrth 2028, a newid er mwyn cymell y defnydd o bympiau gwres cymwys fel rhan o'r cynllun.

*Y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy*

Mae'r cynllun yn rhoi cymorth hirdymor i'r broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae bellach wedi'i gau i ymgeiswyr newydd. Caiff Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (ROCs) eu rhoi i weithredwyr gorsafoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy achredededig ar gyfer y trydan a gynhyrchir ganddynt a gaiff wedyn ei werthu i gyflenwyr trydan. Rhaid i gyflenwyr trydan gyflwyno nifer penodedig o'r tystysgrifau hyn ar gyfer pob MWh o drydan a gyflenwir i gwsmeriaid. Mae'n ofynnol i gyflenwyr nad ydynt yn cyflawni eu rhwymedigaeth dalu swm cyfwerth i mewn i gronfa allbrynu.

Yn 2024-25, parhaodd Ofgem i weinyddu'r cynllun drwy gyhoeddi tystysgrifau rhwymedigaeth, monitro cynnydd cyflenwyr yn erbyn eu rhwymedigaethau, a datblygu system ddigidol newydd i symleiddio'r broses weinyddu. Ym mis Awst 2024, cwblhaodd Ofgem ei ymchwiliad i Drax Power Limited ("Drax"). Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oedd digon o drefniadau llywodraethu a rheoli data ar waith, a bod hynny wedi cyfrannu at fethiant Drax i gydymffurfio â'i rwymedigaethau proffilio data o dan y cynllun Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy.

*O ganlyniad, cytunodd Drax i dalu iawndal o £25m ac i gynnal archwiliad annibynnol o'i gadwyn gyflenwi ryngwladol.*

Mae'r llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ar y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar ôl 2027, pan fydd cymorth llawer o'r gorsafoedd cynhyrchu o dan y cynllun yn dod i ben. Mae Ofgem wedi cymryd rhan yn y broses hon drwy roi cyngor ac arbenigedd i'r llywodraeth ar oblygiadau gweinyddol y newidiadau posibl hyn.

*Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO)*

Mae'r cynllun hwn yn cynnig tryloywder i ddefnyddwyr o ran cyfran y trydan y mae cyflenwyr yn ei chael o ffynonellau adnewyddadwy. Gwneir hyn drwy gyhoeddi un dystysgrif REGO fesul awr megawat (MWh) o drydan adnewyddadwy cymwys i gynhyrchwyr. Mae'r cyflenwyr yn eu cyflwyno wedyn i ddilysu honiadau amgylcheddol a wneir ynghylch eu tariffau drwy'r Datgeliad Cymysgedd Tanwydd (FMD).

Yn ddiweddar, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cynhyrchwyr sy'n cymryd rhan yng nghynllun REGO. Mae hyn yn debygol o gynyddu gan fod rhai cynlluniau ynni adnewyddadwy wedi'u cau i ymgeiswyr newydd.

Mae'r defnydd o REGO wedi ehangu y tu hwnt i FMD ac fe'u defnyddiwyd hefyd i gyflwyno adroddiadau ar garbon. Mae rhai o gynlluniau'r llywodraeth fel Safon Hydrogen Carbon Isel DESNZ a Rhwymedigaeth Tanwydd Trafnidiaeth Adnewyddadwy'r Adran Drafnidiaeth wedi dangos diddordeb mewn defnyddio cynllun REGO i roi cyfrif am y trydan adnewyddadwy a ddefnyddir wrth gynhyrchu hydrogen. Mae Ofgem yn cydweithio i sicrhau y caiff hyn ei wneud mewn ffordd sy'n cynnal integredd y cynllun.

Caiff prosesau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa lai eu cefnogi drwy'r cynllun Tariff Cyflenwi Trydan, lle mae cyflenwyr yn gwneud taliadau i gyfranogwyr sy'n gosod gosodiadau cynhyrchu trydan, fel paneli ffotofoltäig solar. Mae'r cynllun wedi'i gau i gynhyrchwyr newydd. Yn 2024-25, parhaodd Ofgem i weinyddu'r cynllun, gan gynnwys sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau.

Ers cau'r FIT, mae'r Warant Allforio Deallus (SEG) yn ei gwneud yn ofynnol i rai cyflenwyr trydan dalu cynhyrchwyr SEG bach am drydan carbon isel, y byddant yn ei allforio'n ôl i'r Grid

Cenedlaethol. Mae Ofgem wedi gweld cynnydd yn nifer y cynhyrchwyr sy'n cymryd rhan yn SEG, ac nid oes unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r cynllun ar hyn o bryd. Yn 2024-25, parhaodd Ofgem â'i waith i fonitro'r cynllun ac adrodd arno.

Er bod cynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy domestig, annomestig a Gogledd Iwerddon oll wedi cau i newydd-ddyfodiaid erbyn hyn, bydd Ofgem yn dal i weinyddu'r cynlluniau'n unol â'r rheoliadau, gan gynnwys cyflwyno taliadau cysylltiedig i gartrefi, busnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau nid er elw, a bydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r cynlluniau.

## Cynlluniau cymdeithasol

### *Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni 4 (ECO4)*

Mae cynllun ECO4 yn canolbwyntio ar aelwydydd incwm isel, sy'n dioddef tlodi tanwydd ac sy'n agored i niwed er mwyn gwella'r cartrefi lleiaf ynni effeithlon. Mae hefyd yn uwchraddio'r cartrefi hynny mewn ffyrdd mwy cyflawn na chynlluniau ECO blaenorol, gan newid i bolisi ôl-osod tai cyfan amlfesur ffabrig yn gyntaf. Drwy ECO4, nod y llywodraeth yw annog gosod deunydd inswleiddio, systemau ynni adnewyddadwy a chysylltiadau gwresogi dosbarth yn ogystal ag uwchraddio systemau gwresogi aneffeithlon.

Ymgynghorodd y llywodraeth ar newidiadau i ECO4 hanner ffordd drwy'r cynllun ym mis Tachwedd 2024 ac ers hynny, mae wedi cyhoeddi ei hymateb. Mae'r ddeddfwriaeth ar gael yng Ngorchymyn Trydan a Nwy (Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni) (Diwygio) 2025 sy'n aros am gymeradwyaeth Seneddol cyn dod i rym. Bydd Ofgem yn gweithio gyda'r llywodraeth yn ystod 2025-26 i'w rhoi ar waith.

Daethpwyd o hyd i enghreifftiau helaeth o ddeunydd inswleiddio waliau solet o ansawdd gwael drwy ECO4. Rydym yn gweithio gyda'r llywodraeth a TrustMark, corff goruchwylio'r cynllun ar gyfer ansawdd technegol a diogelu defnyddwyr, i sicrhau y caiff yr holl broblemau hysbys eu datrys ar fyrder.

### *Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr (GBIS)*

Fel ECO4, cynllun effeithlonrwydd ynni yw GBIS sy'n rhoi rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyflenwyr ynni i roi mesurau effeithlonrwydd ynni a gwresogi ar waith mewn cartrefi ledled Prydain Fawr.

Yn wahanol i ECO4, mae GBIS yn canolbwyntio ar osod llai o fesurau effeithlonrwydd ynni fesul cartref, ond i gronfa ehangach o gartrefi. Er bod GBIS yn pennu targedau cyflawni ar gyfer cartrefi incwm isel a chartrefi sy'n dioddef tlodi tanwydd, mae hefyd yn cynnig mesurau i gronfa ehangach o gartrefi, yn ôl bandiau'r dreth gyngor.

Fel ECO4, ymgynghorodd y llywodraeth hefyd ar newidiadau i GBIS hanner ffordd drwy'r cynllun ym mis Tachwedd 2024 ac ers hynny, mae wedi cyhoeddi ei hymateb, sy'n cynnwys newidiadau polisi i gyflymu a chynyddu cyflawniadau'r cynllun. Bydd Ofgem yn gweithio gyda'r llywodraeth yn ystod 2025-26 i roi'r diwygiadau hyn ar waith. Mae Gorchymyn Trydan a Nwy (Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni) (Diwygio) 2025 ar gael yma ac mae'n aros am gymeradwyaeth Seneddol cyn dod i rym.

### *Y Gostyngiad Cartrefi Cynnes (WHD)*

Mae'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn cynnig ad-daliad i gartrefi incwm isel sy'n agored i niwed ar eu cyfrif trydan neu nwy yn ystod misoedd oerach y gaeaf. Mae mathau eraill o gymorth a ddarperir gan gyflenwyr ynni yn cynnwys mentrau'r diwydiant, fel gwiriadau hawl, cymorth dyledion, cyngor ar ynni a mesuryddion deallus, a mesurau effeithlonrwydd ynni.

Yn 2024-25, blwyddyn olaf ond un fersiwn bresennol y cynllun (Blwyddyn 14 y Cynllun), ymgynghorodd y llywodraeth ar gynigion i ehangu'r cymorth a gynigir. O dan y cynigion hyn, disgwylir i 2.7m o gartrefi ychwanegol gael cymorth drwy ddileu'r trothwy cost-i-wresogi uchel, a chynyddu'r targedau gwariant. Byddai'r 2.7m o ad-daliadau ychwanegol hyn yn cynyddu cyfanswm amlen wario Prydain Fawr ryw £400m, o ryw £600m ar hyn o bryd i £1b. Bydd Ofgem yn diweddaru ac yn cyhoeddi canllawiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun i adlewyrchu newidiadau yn sgil y broses ehangu hon unwaith y daw'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig i rym.

Yn y cyfamser, mae Ofgem yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd y mae cyflenwyr ynni yn ei wneud tuag at gyflawni eu rhwymedigaethau ar draws cynlluniau drwy'r Adroddiad ar Berfformiad Cyflenwyr. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd i helpu cyflenwyr i sicrhau eu bod yn cynnal cydymffurfiaeth a'r camau gweithredu a gymerwyd yn erbyn y rhai hynny nad ydynt yn cydymffurfio.

# Adroddiad Cynaliadwyedd

## Cynaliadwyedd a'r effaith amgylcheddol fewnol

Prif amcan Ofgem yw diogelu buddiannau defnyddwyr presennol ac yn y dyfodol drwy helpu i gyflawni targedau Sero Net mewn perthynas â system ynni Prydain Fawr – ochr yn ochr â buddiannau eraill defnyddwyr. O dan ddyletswydd Sero Net a dyletswydd twf statudol newydd Ofgem, rydym yn gweithio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol i helpu'r Llywodraeth i gyflawni targed Sero Net 2050, a thargedau interim, fel y'u nodwyd yn y diwygiad yn 2019 i'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd (2008).

Mae'r adran hon yn ymdrin â pherfformiad amgylcheddol Ofgem ei hun ar draws ein hystad, gan gynnwys ein prif swyddfeydd yn Llundain, Glasgow a Chaerdydd. Caiff ein dulliau adrodd ar berfformiad eu llywio gan Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth (GGCs), ac mae'r cyfrifiadau ar gyfer allyriadau yn gydnaws â Ffactorau Trosi diweddaraf Llywodraeth y DU. Caiff ein targedau lleihau carbon eu pennu gan DEFRA ac maent yn cyfeirio at ein perfformiad amgylcheddol yn 2017-2018 fel llinell sylfaen.

Bydd y fframwaith GGC presennol ar gyfer 2021-2025 yn dod i ben ym mlwyddyn ariannol 2024-25. Mae Ofgem yn croesawu dull gweithredu diwygiedig fframwaith newydd 2025-2030 mewn perthynas â thargedau allyriadau, gwaith cynllunio a llywodraethu. Nid ydym wedi gwneud cais am esemptiadau o dan y fframwaith newydd.

## Trosolwg o lywodraethu mewnol


Rydym wedi atgyfnerthu ein llywodraethu mewnol mewn perthynas â chynaliadwyedd corfforaethol er mwyn cyfuno blaenoriaethau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd a chefnogi gwaith cynllunio cysylltiedig. Mae'r grwpiau canlynol yn goruchwylio'r trefniadau:

- **Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (GEMA):** Yn gweithredu fel Bwrdd Ofgem ac yn hyrwyddo llwyddiant cynaliadwy hirdymor i'r defnyddiwr. Mae GEMA yn darparu cyfeiriad i SEC drwy bennu'r parodrwydd i dderbyn risg a nodi'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.
- **Yr Uwch-bwyllgor Gweithredol (SEC):** Rhoi arweiniad ar uchelgeisiau cynaliadwyedd Ofgem. Mae SEC hefyd yn cael cyngor am gynnydd cynaliadwyedd sefydliadol ac yn cael arfarniadau o unrhyw risgiau a ragwelir o ran cyrraedd targedau amgylcheddol a thargedau lleihau carbon yn y dyfodol. Mae Prif Swyddog Gweithredu Ofgem yn rhan o'r pwyllgor ac yn bennaf gyfrifol am gamau cynaliadwyedd.
- **Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC):** Yn goruchwylio cyfrifon ariannol a threfniadau rheoli risg. Mae'r pwyllgor hwn yn gyfrifol am oruchwylio strategaethau cynaliadwyedd sefydliadol.
- **Y Gweithgor Cynaliadwyedd:** Yn cyfuno mewnbwn gan gyfarwyddwyr a gweithwyr proffesiynol o gyfarwyddiaethau gweithredol, rheoleiddiol a darparu a chynlluniau. Mae'r grŵp hwn yn cynnal gwiriadau synnwyr o gyfleoedd i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu cynaliadwyedd ac mae'n cynnwys noddwr cynaliadwyedd ar lefel cyfarwyddwr
- **Y Tîm Ystadau:** Yn gyfrifol am oruchwylio cynaliadwyedd gweithredol yn y sefydliad. Mae'r tîm yn atebol i DESNZ a'r Gwasanaethau Corfforaethol Integredig (ICS) ar gynnydd yn erbyn y GGS ar sail chwarterol. Mae'r tîm hefyd yn cydgysylltu a thimau rheoli adeiladau a darparwyr gwasanaethau perthnasol i nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion carbon ym mhob rhan o'r ystad. Mae'r tîm yn parhau i ymgysylltu â fforymau cynaliadwyedd DESNZ a DSIT i feincnodi perfformiad, nodi arferion gorau a thrafod newidiadau i'r gofynion adrodd.
- **Tîm y Strategaeth Sero Net:** Yn gweithio ym mhob rhan o Ofgem i helpu pob tîm i integreiddio'r Ddyletswydd Sero Net i'w gwaith a hyrwyddo ymdrechion datgarboneiddio a chynaliadwyedd ehangach. Mae'r tîm yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i uwch-reolwyr a'r Bwrdd. Mae'r tîm yn holl bwysig wrth lywio ymdrechion Ofgem i ddarparu system ynni Sero Net ddibynadwy, sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ar y gost leiaf bosibl i ddefnyddwyr ynni. Mae'r tîm yn darparu arbenigedd penodol ar ddatgarboneiddio a chynaliadwyedd ac yn pennu cyfeiriad er mwyn helpu i sicrhau gwell penderfyniadau ym mhob rhan o Ofgem. Mae'r tîm yn cynnal prosiectau strategol i lywio prosesau llunio polisïau Ofgem er mwyn cefnogi datgarboneiddio a chynaliadwyedd.

## Rheoli risg

Mae'r tîm Risg Gorfforaethol yn rhoi arweiniad a chymorth ar y prif risgiau, risgiau strategol a risgiau tactegol a allai effeithio ar allu Ofgem i gyflawni ei fandad. Mae digwyddiadau hinsawdd andwyol yn peri risg i'r broses o reoleiddio'r farchnad ynni, ac i'n gallu i gyflawni prosiectau seilwaith a chynlluniau carbon isel. Rydym yn parhau i alinio ein prosesau rheoli risg â'r Llyfr Oren, ac yn gweithio ochr yn ochr â DESNZ a'r Ysgrifennydd Gwladol i liniaru'r risgiau sy'n bygwth ein gallu i gyflawni Sero Net. Rydym yn anelu at sefydlu dangosyddion risg allweddol yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26 a fydd yn ein galluogi i fonitro newidiadau o ran ein hamlygiad i risgiau.

## Metrigau ac adrodd





| Allyriadau uniongyrchol (ar y safle) | Allyriadau a gaffaelwyd (ar y safle) | Allyriadau anuniongyrchol |
|---|---|---|
| Nwy<br>(wedi'i fesur mewn CO2e) | Trydan a gwresogi nwy dosbarth<br>(wedi'u mesur mewn CO2e) | Teithiau busnes ar awyrennau a threnau<br>(wedi'u mesur mewn CO2e)<br>Y defnydd o ddŵr<br>(wedi'i fesur mewn cyfaint)<br>Gwastraff<br>(wedi'i fesur mewn cyfaint) |

### Lliniaru newid yn yr hinsawdd: Gweithio tuag at Sero Net erbyn 2050

| Targed Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth | Cynnydd yn erbyn y flwyddyn sylfaen (fesul CALl) | Cynnydd yn erbyn y flwyddyn ddiwethaf (fesul CALl) | A gyrhaeddwyd y targed? |
|---|---|---|---|
| | Cynnydd yn erbyn y flwyddyn sylfaen (fesul CALl) | Cynnydd yn erbyn y flwyddyn ddiwethaf (fesul CALl) | Yes |
| Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol 62% | -83% | -31% | Yes |
| Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol 30% | -98% | -39% | Yes |
| Lleihau allyriadau o deithiau domestig mewn awyren o leiaf 30% | -90% | -44% | |

Perfformiad yn erbyn targedau allyriadau cyffredinol ac uniongyrchol yn ôl cyfanswm tunelli tCO2e $tCO_2e$




## Nod Datblygu Cynaliadwy 13: Cymryd camau gweithredu brys i drechu newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau.

Drwy gydol cyfnod adrodd presennol Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth, mae ein gweithlu wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae niferoedd CALI Ofgem bellach bron deirgwaith niferoedd 2018. Mae'r graff yn dangos cyfanswm ein hallyriadau, ac mae'r tabl yn dangos ein hallyriadau "fesul CALI" er mwyn gallu cynnig dadansoddiad cyd-destunol o'n cynnydd o ran cynaliadwyedd.

Yn ystod 2024-25, rydym wedi lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol a chyffredinol. Mae cyfanswm ein hallyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 bellach ar 241 kg fesul CALI, sef traean yn llai na'n hallyriadau y llynedd (349 kg fesul CALI) a gwelliant o 83% yn erbyn ein blwyddyn sylfaen (1440 kg fesul CALI). Y gaeaf hwn, cafodd y boeler nwy olaf yn ein swyddfa yn Llundain ei ddatgomisiynu a gosodwyd pwmp gwres ffynhonnell aer yn ei le.

Mae allyriadau o deithiau domestig mewn awyren wedi lleihau i 39 kg fesul CALI, sy'n cyfateb i ryw un daith ddomestig fesul pob 4 aelod o staff. Mae'r gwelliant mewn ffigurau teithio mewn awyren wedi'i gysylltu'n rhannol â'n polisi teithio mewnol diwygiedig, sy'n cynghori cydweithwyr i roi blaenoriaeth i opsiynau teithio carbon isel lle bynnag y bo'n bosibl. Rydym yn parhau i edrych ar sut y gallwn leihau'r angen i deithio mewn awyren, yn enwedig rhwng ein tair swyddfa.

Yn ystod y flwyddyn hon, cyflwynwyd hyfforddiant Sero Net fel rhan allweddol o'n rhaglen cynefino staff. Caiff yr hyfforddiant hwn ei oruchwylio gan dîm y Strategaeth Sero Net ac mae'n rhoi cyflwyniad i staff i bynciau ynni a datgarboneiddio allweddol. Caiff cydweithwyr eu grymuso i ystyried sut y gallant, drwy eu rôl, helpu Ofgem i drawsnewid i Sero Net mewn ffordd deg a chyfiawn.


Mae tîm ein Strategaeth Sero Net hefyd wedi lansio cyfres Delivering Decarbonisation newydd sy'n cynnwys siaradwyr gwadd a thrafodaethau manwl. Mae'r tîm yn parhau i gynhyrchu blogiau mewnol, fideos a sesiynau addysgu byw, gan feithrin dealltwriaeth amlhaenog o gynaliadwyedd ymhlith cydweithwyr.

Yn 2026, rydym yn bwriadu datblygu ein Cynllun Trawsnewid i Sero Net, a fydd yn amlinellu ein huchelgeisiau datgarboneiddio gweithredol.

Bydd y camau sydd eu hangen i gyrraedd ein targedau sero net yn gyson ag egwyddorion Tasglu Cynllunio Trawsnewid y DU, gyda chyfresi o dargedau wedi'u llywio gan ein Cynllun Rheoli Asedau Strategol, gweithwyr proffesiynol mewnol ym maes cynaliadwyedd, Ymrwymiadau Gwyrddu diwygiedig y Llywodraeth a Cham 3 canllawiau'r TCFD

### Lleihau gwastraff a hybu effeithlonrwydd adnoddau 2024-25

Cyfansoddiad gwastraff swyddfa fel canran o bwysau




| Targed Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth | Cynnydd yn erbyn y flwyddyn sylfaen (fesul CALI) | Cynnydd yn erbyn y flwyddyn ddiwethaf 2023-24 (fesul CALI) | A gyrhaeddwyd targed Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth? |
|---|---:|---:|---:|
| Lleihau swm cyffredinol y gwastraff a gynhyrchir 15% | -91% | -8% | Yes |
| Lleihau swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi i 5%* o'r cyfanswm gwastraff | Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi | Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi | Yes |
| Cynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu i 70%* o'r cyfanswm gwastraff | 48% | -4% | No |
| Lleihau'r defnydd o bapur o leiaf 50% | -91% | -3% | Yes |

## Nod Datblygu Cynaliadwy 12: Sicrhau patrymau defnyddio a chynhyrchu cynaliadwy

Rydym wedi lleihau swm y gwastraff fesul person a gynhyrchir yn ein swyddfeydd ac wedi cyrraedd ein targed cyffredinol ar gyfer lleihau gwastraff. Rydym hefyd wedi lleihau'r angen am bapur ac argraffu drwy ddigideiddio a defnyddio gwasanaethau cwmwl cyhoeddus i rannu ffeiliau a gwybodaeth. Caiff papur peiriannau argraffu a phapur llyfrau nodiadau a brynir eu hailgylchu 100% lle y bo'n bosibl. Er bod ein cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu a'n bod yn creu mwy o ailgylchu na gwastraff cyffredinol, bu'n heriol cyrraedd ein targed ailgylchu o 70%. Rydym yn parhau i gydgysylltu â'n darparwyr gwasanaethau i ddeall cyfansoddiad ein gwastraff ac i ystyried mentrau a allai helpu i leihau cyfraddau halogi a hwyluso ymddygiadau ailgylchu. Gan fod ein ffigurau gwastraff yn cael eu dosrannu ymhlith tenantiaid pob adeilad,

byddai angen archwiliad gwastraff i ddeall heriau gwastraff tenantiaid penodol.


Rydym yn annog unigolion i beidio â defnyddio Plastigion Untro i Ddefnyddwyr yn ein ceginau drwy ddarparu cyllyll a ffyrc a llestri y gellir eu hailddefnyddio. Caiff eitemau diodydd eu swmp-ddarparu er mwyn hybu effeithlonrwydd adnoddau a dileu'r angen i gyflogeion ddod ag eitemau traul a phlastigion untro ychwanegol i'r swyddfa, a all helpu i leihau gwastraff ymhellach. Caiff symiau eu haddasu ar sail ad hoc i addasu i'r defnydd tymhorol o swyddfeydd.

Y flwyddyn hon, gwnaethom brynu 95,637 o eitemau plastig untro. Lle y bo'n bosibl, mae deunydd papur swyddfa a gaffaelir wedi'i wneud o ddeunydd wedi'i ailgylchu ar ôl ei ddefnyddio (PCR). Y flwyddyn hon, rydym wedi creu partneriaeth â darparwr datrysiadau post oddi ar y safle, gan leihau'r angen i argraffu ac anfon post o'n swyddfeydd.

Caiff dulliau rheoli gwastraff cyfrifol eu hyrwyddo gan ein rhwydwaith cynaliadwyedd staff, ac mae cyfleoedd dysgu sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd adnoddau a chyfrifo olion troed carbon ar gael. Yn ogystal, lansiwyd Rhwydwaith Hyrwyddwyr Gwyrdd i'r adeilad cyfan yn ein swyddfa yng Nghaerdydd gyda'r nod o hyrwyddo arferion ymddygiad o blaid yr amgylchedd yn y gweithe.

Rydym yn defnyddio cynlluniau TerraCycle ac Oxfam i atal eiddo coll yn y swyddfa rhag mynd i ffrydiau gwastraff eraill.

## Lleihau ein defnydd o ddŵr




| Targed Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth | Cynnydd yn erbyn y flwyddyn sylfaen (fesul CALl) | Cynnydd yn erbyn y flwyddyn ddiwethaf 2023-24 (fesul CALl) | A gyrhaeddwyd y targed? |
|---|---|---|---|
| Lleihau'r defnydd o ddŵr o leiaf 8% | -90% | -14% | Yes |

## Nod Datblygu Cynaliadwy 6: Sicrhau bod dŵr a chyfleusterau glanweithdra ar gael i bawb ac yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy.

Mae'r defnydd o ddŵr a gofnodir gan Ofgem yn seiliedig ar y dŵr a brynir wedi'i ddosrannu yn ôl deiliadaeth ein hystad. Yn 2024-25, rydym wedi lleihau ein defnydd o ddŵr islaw 1 metr ciwbig y person, gan barhau i ddefnyddio dyfeisiadau dŵr-effeithlon mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi ym mhob rhan o'n hystad.

## Caffael cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy

Mae proses gaffael Ofgem yn anelu at sicrhau gwerth am arian drwy ddulliau teg a thryloyw. Mae'r broses dendro ar gyfer cyflenwyr a chontractau newydd yn gydnaws â Safonau Prynu'r Llywodraeth, a rhaid iddi roi pwysoliad o 10% o leiaf at asesu'r gallu i greu gwerth cymdeithasol drwy roi contractau ar waith.

Mae Nodyn Polisi Caffael 002, wedi' ategu gan y Model Gwerth Cymdeithasol, hefyd yn nodi sut y gellir defnyddio gwerthusiadau cyflenwyr i asesu buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ymrwymo i gontract gydag Ofgem. Anogir gweithwyr caffael proffesiynol i ystyried sut y gall cyflenwyr, drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau, wneud y canlynol:

- lleihau allyriadau carbon;
- darparu buddiannau i'r gymuned;
- ac ysgogi amrywiaeth yn y gweithlu.

Ar gyfer tendrau yn y farchnad agored, mae'n ofynnol cynnal gwiriadau llygredigaeth, llygredd a chaethwasiaeth fodern ar gyflenwyr ar sail gwahardd gorfodol.

Mae adran caffael ystadau Ofgem yn rhoi blaenoriaeth i gynaliadwyedd lle y bo'n bosibl – rydym yn goruchwylio manylion ESG ein cyflenwyr, eu cydymffurfiaeth ag ardystiadau amgylcheddol fel ISO14001, ac unrhyw gynlluniau posibl a allai fod ganddynt ar waith i leihau carbon yn barhaus.

Mae Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA), sy'n rheoli cyflenwyr ein swyddfeydd yn Llundain a Chaerdydd, yn ymrwymedig i gaffael cynaliadwy. Mae GPA yn priodoli pwysoliad gwerth cymdeithasol o 15% o leiaf wrth sgorio pob tendr caffael masnachol. Mae system Rheoli Cydberthnasau Strategol â Chyflenwyr GPA yn galluogi gwaith monitro rheolaidd mewn perthynas â DPAau ESG ac yn ei galluogi i nodi ble y gallai fod angen ymyriadau ESG ar gyfer cyflenwyr haen uchaf. Mae ein cyflenwr lletygarwch ac arlwyo yn Llundain yn canolbwyntio ar ddarparu bwyd sy'n seiliedig ar blanhigion a bwyd carbon isel o hyd.

### Adfer natur a bioamrywiaeth

Mae potensial Ofgem i gefnogi nodau bioamrywiaeth a gwella prosesau adfer natur yn seiliedig ar waith cynllunio ystadau strategol, gwaith cyflawni gweithredol rhagweithiol a gwaith gweithredol i ymgysylltu â chyflogeion.

#### *Ein strategaeth*

Mae Cynllun Rheoli Asedau Strategol (SAMP) Ofgem yn nodi ein huchelgais hirdymor i leoli pob un o'n gweithrediadau o fewn Hybiau'r Llywodraeth sydd o dan berchenogaeth GPA. Felly bydd canllawiau'r GPA ar Fioamrywiaeth ac Adfer Natur, sy'n nodi cyfleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth yng nghyd-destun portffolio swyddfeydd y llywodraeth, yn allweddol wrth lywio cynllun cyflawni Ofgem ei hun ar gyfer strategaeth natur arfaethedig y llywodraeth.

#### *Ein hystad*

Mae swyddfeydd Ofgem yn integreiddio egwyddorion dylunio bioffilig fel delweddau naturiol a phlanhigion dan do, y gwyddys eu bod yn gwella iechyd a llesiant cyflogeion. Mae gan ein swyddfa yn Llundain do gwyrdd eang wedi'i orchuddio â llystyfiant sedum acre – mwsogl sy'n denu pryfed peillio ac sy'n gallu gwrthsefyll sychder.

Gall caffael cynhyrchion a gwasanaethau sy'n helpu i adfer natur ehangu ein heffaith ar fioamrywiaeth ymhellach. Dyna a ddigwyddodd gyda'n darparwr gwasanaethau glanhau yn Glasgow – sy'n lleihau'r defnydd o gemegau cryf ac yn defnyddio cynhyrchion sy'n ystyriol o'r amgylchedd yn eu lle – a'n cyflenwr diodydd, sy'n buddsoddi mewn mentrau i warchod coedwigoedd glaw, atafaelu carbon a diogelu rhywogaethau sydd mewn perygl.

#### *Ein rôl reoleiddiol*

Mae gan Ofgem ddyletswydd bioamrywiaeth statudol. Er bod cylch gwaith y ddyletswydd hon yn amrywio yn ôl rhanbarth, mae cyfrifoldeb cyffredinol arnom i ystyried effaith ein swyddogaethau rheoleiddiol ar golledion ac enillion bioamrywiaeth.

*Ein pobl*

Caiff cyflogeion eu hannog i wirfoddoli yn eu cymuned leol er mwyn cefnogi achosion sy'n bwysig iddynt sy'n cyd-fynd ag amcanion corfforaethol Ofgem. Bob blwyddyn, gall cyflogeion gymryd hyd at dri diwrnod o absenoldeb â thâl er mwyn gwirfoddoli. Gellir defnyddio'r polisi hwn i gefnogi gwaith adfer natur a gwella bioamrywiaeth ledled y DU. Y flwyddyn hon, mae cydweithwyr wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiectau plannu coed, casglu sbwriel a garddio cymunedol.

### Addasu i newid yn yr hinsawdd

Y flwyddyn hon, mae Ofgem wedi datblygu ein Climate Resilience Report drwy'r 4ydd cylch o adroddiadau ar ein gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Dros yr wyth mlynedd diwethaf, rydym wedi cyflawni ar bob un o'r camau gweithredu a nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol. Mae adroddiad y flwyddyn hon yn sôn am gynnydd parhaus Ofgem o ran gallu'r sector ynni i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a phwysigrwydd ein trefniadau cydweithio â DESNZ a'r sefydliad newydd NESO.

## Lleihau effeithiau amgylcheddol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a gwasanaethau digidol

Mae Ofgem yn cydnabod bod ein rôl wrth drawsnewid y sector ynni yn cyd-fynd yn agos ag arloesedd digidol. Ar yr un pryd, mae angen lleihau effaith amgylcheddol ein technolegau digidol. Gallai integreiddio deallusrwydd artiffisial i'n swyddogaethau rheoleiddiol ein helpu i ddatgarboneiddio'r sector ynni yn gyflym, a helpu llywodraeth y DU i gyrraedd ei dargedau sero net tymor canolig a hirdymor. Ar yr un pryd, mae angen lleihau effaith amgylcheddol ein defnydd o dechnoleg ddigidol. Mae tîm Tasglu ein Polisi Deallusrwydd Artiffisial yn gyfrifol am sicrhau bod gennym yr offer a'r adnoddau sydd eu hangen i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial mewn ffordd ddiogel, deg a chynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Tasglu ein Polisi Deallusrwydd Artiffisial ganllawiau ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ffordd foesegol yn y sector ynni, sy'n hybu arferion gorau a dulliau rheoli risgiau oes er mwyn defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ffordd sy'n gynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd. Rydym eisoes yn mabwysiadu dull tebyg ar gyfer ein sefydliad ni. Rydym hefyd wrthi'n lansio ein Strategaeth Ddigidol ar gyfer 2025 i 2028, sy'n nodi ein hymrwymiadau i gynnwys arferion da yn ein gweithrediadau TG.

Rydym yn gweithio'n unol â pholisi Cloud First y Llywodraeth ac yn gweithredu ein systemau TG ar y cwmwl cyhoeddus. Mae'r dull hwn yn dileu'r angen am seilwaith helaeth ar y safle, gan ein galluogi i weithredu'n fwy effeithlon ac yn fwy cynaliadwy fel ystad. Rydym hefyd wedi diwygio ein polisïau cadw data ac yn annog unigolion i rannu ffeiliau cydweithredol ar-lein er mwyn lleihau achosion diangen o gadw data. Rydym bellach yn goruchwylio'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'n cyfrifiadureg cwmwl ac yn gallu eu monitro wrth symud ymlaen, ac adrodd ar ein cynnydd yn unol â'r strategaeth ar gyfer gwyrddu gwasanaethau TGCh a gwasanaethau digidol y llywodraeth.

### Dangosyddion Perfformiad Cynaliadwyedd Anariannol ac Anariannol

### Ynni

| | 2017-18 (llinell sylfaen) | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (MWh) Cyfanswm yr ynni a ddefnyddiwyd | 2,397 | 847 | 1,189 | 1,166 | 1,368 |
| Dangosyddion anariannol (MWh) Nwy | 797 | 28 | 143 | 158 | 123 |
| Dangosyddion anariannol (MWh) Trydan | 1,600 | 819 | 1,046 | 1,008 | 1,245 |
| Dangosyddion ariannol (£000) Cyfanswm costau ynni | 241 | - | - | 296* | 347* |
| Dangosyddion ariannol (£000) Nwy | - | - | - | 8* | 6* |
| Dangosyddion ariannol (£000) Trydan | - | - | - | 288* | 341* |

## Dŵr

| | 2017-18 (llinell sylfaen) | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (m3) Defnydd o ddŵr | 7,959 | 1,207 | 1,795 | 1,982 | 2,250 |
| Dangosyddion ariannol (£000) Costau cyflenwi dŵr | 33 | 3 | 5* | 9 | 26* |

## Gwastraff

| | 2017-18 (llinell sylfaen) | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24* | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunnell) Cyfanswm y gwastraff | 49 | 19 | 6 | 10 | 13 |
| Dangosyddion anariannol (tunnell) Ynni o wastraff | 9 | 4 | 3 | 5 | 6 |
| Dangosyddion anariannol (tunnell) Wedi'i ailgylchu | 40 | 15 | 3 | 4 | 6 |
| Dangosyddion anariannol (tunnell) Wedi'i gompostio | 0 | - | - | < 1 | 1 |
| Dangosyddion anariannol (tunnell) TGCh | - | - | - | - | < 1 |
| Dangosyddion ariannol (£000) Cyfanswm y gost gwaredu | 29 | - | - | - | 18* |

* Ailddatganwyd ffigurau ynni, dŵr a gwastraff 2023-24 i gynnwys data ar gyfer ein swyddfa yng Nghaerdydd, a gawsom gan y landlord ym mis Mai 2024. Rydym bellach yn derbyn adroddiadau chwarterol wedi'u dosrannu ar gyfleustodau ar gyfer ein swyddfa yng Nghaerdydd.

## Teithio

| | 2017-18 (llinell sylfaen) | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (000 km) Cyfanswm pellter teithio | 2,610 | 335 | 1,607 | 4,347 | 3,777 |
| Dangosyddion anariannol (000 km) Teithio domestig ar reilffyrdd | 859 | 285 | 1,160 | 3,385 | 3,138 |
| Dangosyddion anariannol (000 km) Teithio rhyngwladol ar reilffyrdd | 57 | 2 | 6 | 31 | 20 |
| Dangosyddion anariannol (000 km) Teithio domestig mewn awyren | 1,408 | 35 | 354 | 463 | 328 |
| Dangosyddion anariannol (000 km) Teithio cyfandirol mewn awyren | 201 | > 1 | 37 | 68 | 124 |
| Dangosyddion anariannol (000 km) Teithio rhyngwladol mewn awyren | 84 | 12 | 50 | 400 | 167 |
| Dangosyddion ariannol (£000) Cyfanswm y gwariant | 747 | - | - | 652 | 620 |

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| | 2017-18 (llinell sylfaen) | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli CO2e) Cwmpas 1: uniongyrchol | 147 | 5 | 4 | 12 | 10 |
| Dangosyddion anariannol (tunelli CO2e) Cwmpas 2: ynni anuniongyrchol | 563 | 174 | 2232 | 226 | 271 |
| Dangosyddion anariannol (tunelli CO2e) Cwmpas 3: arall anuniongyrchol | 466 | 23 | 143 | 364 | 267 |

## Defnydd o bapur

| | 2017-18 (llinell sylfaen) | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (rimiau) | 2,090 | - | - | 402 | 515 |

1 Mae'r ffigurau sydd wedi'u hamcangyfrif yn y tabl wedi'u dynodi drwy "*".
2 Lle nad oedd data hanesyddol ar gael ac na ellid rhoi amcangyfrif rhesymol, dynodir hyn drwy "-". Mae hyn yn cynnwys data ariannol nad oedd modd i'n landlordiaid eu darparu oherwydd natur ein cytundebau aml-denantiaeth.
3 Addaswyd rhai o ffigurau'r flwyddyn ddiwethaf ar ôl i'n landlord yng Nghaerdydd ddarparu data newydd.

## Crynodeb Cydymffurfiaeth y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd

Mae Ofgem wedi adrodd ar ddatgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n gydnaws â chanllawiau ceisiadau datgelu TCFD Trysorlys EF, sy'n dehongli ac yn addasu'r fframwaith ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU.

Rydym wedi cydymffurfio ag argymhellion Cam 2 TCFD o ran:

- Llywodraethu: Mae'r datgeliadau a argymhellir (a) yn disgrifio trefniadau'r bwrdd ar gyfer goruchwylio risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a (b) yn disgrifio rôl rheolwyr wrth asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Ceir trosolwg o'n prosesau llywodraethu mewnol, gan gynnwys disgrifiad o gyfrifoldebau'r bwrdd a rheolwyr mewn perthynas â risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ar ddechrau'r adroddiad ar gynaliadwyedd.
- Rheoli Risg: Mae'r datgeliadau a argymhellir (a) Yn disgrifio prosesau'r sefydliad ar gyfer nodi ac asesu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, (b) Yn disgrifio prosesau'r sefydliad ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a (c) yn disgrifio sut y caiff prosesau ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd eu hintegreiddio i drefniadau cyffredinol y sefydliad ar gyfer rheoli risg. Nid yw Ofgem o'r farn bod yr hinsawdd yn brif risg ar wahân, ond mae'n ystyried yr hinsawdd wrth wneud penderfyniadau fel rhan o'r ddyletswydd Sero Net, fel y nodir yn yr adroddiad ar berfformiad. Nodir ein fframwaith rheoli risg a'r ffactorau risg yn ein Datganiad Llywodraethu ar dudalennau 52.
- Metrigau a Thargedau: Mae'r datgeliad a argymhellir (a) yn datgelu'r metrigau a ddefnyddir gan y sefydliad i asesu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn unol â'i strategaeth a'i broses rheoli risg, (b) yn datgelu allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1, Cwmpas 2, ac, os yw'n briodol, Cwmpas 3, a'r risgiau cysylltiedig a (c) yn disgrifio'r targedau a ddefnyddir gan y sefydliad i reoli risgiau a chyfleoedd sy'n

gysylltiedig â'r hinsawdd a pherfformiad yn erbyn targedau. Mae ein metrigau a'n targedau yn seiliedig ar Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth ac adroddir ar ein hallyriadau Cwmpas 1, Cwmpas 2 a Chwmpas 3 o dan yr Ymrwymiadau yn ogystal â dangosyddion o berfformiad cynaliadwyedd eraill ar dudalennau 36.

Rydym yn ystyried bod y wybodaeth yn ein hadroddiad ar berfformiad a chynaliadwyedd yn cydymffurfio â'r gofynion datgelu. Er nad yw'n ofynnol cyflwyno datgeliadau ar strategaeth TCFD tan gam 3 (2025-26), mae ein Strategaeth Amlflwyddyn yn amlinellu ein blaenoriaethau o ran ein gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ac mae'r perfformiad hyd yn hyn wedi'i nodi ar dudalennau 16 to 29.



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr
14 Gorffennaf 2025




# Adroddiad ar Atebolrwydd

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2024-25

# Adroddiad ar Atebolrwydd

Diben adran atebolrwydd yr adroddiad blynyddol yw bodloni gofynion atebolrwydd allweddol i'r Senedd, sef prif ddefnyddiwr yr adroddiad blynyddol a chyfrifon, i esbonio trefniadau llywodraethu Ofgem – yn debyg i ofynion y Ddeddf Cwmnïau i grwpiau a chwmnïau mawr.

## Adolygiad Ariannol

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd Ofgem ei gyllideb i gefnogi Blaenraglen Waith 2024-25 a gwariodd o fewn y terfynau cyllidebol cymeradwy (y cyfeirir atynt fel 'cyfansymiau rheoli'). Cyflwynir trosolwg o gostau ac incwm Ofgem (ar sail cyllidebau adnoddau), wedi'u mesur yn erbyn y cyllidebau cymeradwy isod:

| Gweithgaredd | Cyfanswm Cost £m | Cyfanswm Incwm £m | Gwariant Net £m | Cyllideb net £m | Tanwariant net £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau rheoleiddio a chefnogi craidd | 158.6 | (151.0) | 7.6 | 40.1 | 32.5 |
| Cynlluniau, heb gynnwys Nwy Gwyrdd | 63.0 | (58.0) | 5.0 | 8.3 | 3.3 |
| Nwy Gwyrdd | 38.7 | (10.9) | 27.8 | 44.2 | 16.4 |
| **Isgyfanswm** | **260.3** | **(219.9)** | **40.4** | **92.6** | **52.2** |
| Lefelu | 55.5 | (55.5) | - | - | 0 |
| **Cyfanswm (RDEL)** | **317.8** | **277.4** | **40.4** | **92.6** | **52.2** |

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol (SOPS) a'i nodiadau ategol ar dudalennau 78 i 85 yn cyflwyno crynodeb ffurfiol o berfformiad Ofgem yn erbyn y cyllidebau cymeradwy. Mae'r rhain yn dangos bod Ofgem wedi gwario £226.6 miliwn ar gostau gweinyddu i gyflawni ei waith rheoleiddiol a gweinyddu cynlluniau amgylcheddol. Yn ogystal, arweiniodd costau rhaglen y Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd, sef £35.2m, at gyfanswm gwariant o £261.8m, wedi'i wrthbwyso gan £219.9m o incwm adnoddau a arweiniodd at (alldro) gwariant o £41.9 miliwn ar gyfer y flwyddyn (2023-24: £6.4 miliwn).

Mae'r incwm a'r gwariant tybiannol mewn perthynas â'r broses Lefelu (Penderfyniad ar addasu taliadau sefydlog i gwsmeriaid rhagdalu | Ofgem), ), a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2024 ac a ddosberthir fel treth a gwariant yn cyfateb i £53.7m o wariant ac incwm gwrthbwyso. Ceir rhagor o fanylion yn SOPS2.

Mae'r alldro adnoddau yn cynrychioli tanwariant o £50.7 miliwn (2023-24: tanwariant o £32.0 miliwn) ar amcangyfrif cyllideb cymeradwy o £92.5 miliwn (2023-24: £38.4 miliwn), yn bennaf oherwydd gwerth darpariaethau cyfreithiol ariannol (tanwariant o £32.5 miliwn) a'r ffaith bod gwariant Nwy Gwyrdd (tanwariant o £16.0m) yn is na'r amcangyfrif:

- Gall penderfyniadau Ofgem fod yn destun her gyfreithiol, ac, fel rhan o broses pennu cyllidebau Ofgem, bob blwyddyn, amcangyfrifir effaith ariannol bosibl yr her a ragwelir ar benderfyniadau presennol ac yn y dyfodol. Roedd y gyllideb yn uwch na'r alldro y flwyddyn hon am na chafodd rhai penderfyniadau eu herio, cafodd rhai penderfyniadau eu gohirio i flynyddoedd ariannol yn y dyfodol, cafodd un her ei hamddiffyn yn llwyddiannus ac o ran rhai penderfyniadau, mae'r tebygolrwydd y gellir eu hamddiffyn yn llwyddiannus yn edrych yn ddigon uchel.

- Mae taliadau'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd (GGSS) wedi'u llywio gan y galw (yn dibynnu ar gofrestriadau a chwistrellu biomethan). Caiff unrhyw warged neu ddiffyg yn ystod y flwyddyn ei ystyried wrth gyfrifo cyfradd Ardoll Nwy Gwyrdd (GGL) y flwyddyn ganlynol; bydd arian yn parhau i fod ar gael ar gyfer taliadau GGSS ac yn lleihau taliadau cyflenwyr o dan rwymedigaeth yn y dyfodol.

Mae'r Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr (SOCNE) ar dudalen 92 yn cyflwyno incwm a gwariant Ofgem ar sail cyfrifyddu croniadau. Caiff ei baratoi'n unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol a fabwysiadwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn y Datganiad yn wahanol i'r SOPS gan fod y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer rhai eitemau fel prisio asedau ac offerynnau ariannol yn wahanol i'r ffordd y caiff yr eitemau hyn eu trin ym mhrosesau cyllidebu'r llywodraeth. Mae nodyn 2 SOPS yn cysoni'r alldro cyllidebol a ddangosir yn y SOPS i'r gwariant gweithredu net o £34.5 miliwn a ddangosir yn y Datganiad.

Prif ffynhonnell incwm Ofgem yw'r ffioedd trwydded a gesglir gan ddefnyddwyr drwy filiau ynni. Caiff unrhyw warged (dros adennill ffioedd, lle mae'r gwariant yn llai na'r gyllideb) ei ad-dalu i'r defnyddwyr. Mae gwarged o £3.3 miliwn o ffioedd trwydded 2024-25 a godwyd ar y sector (2023-24: gwarged o £4.3 miliwn) a chaiff hyn ei ddychwelyd.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cost gwaith Ofgem ar reoleiddio marchnadoedd ynni wedi cynyddu o ganlyniad i'n gwaith i wella prosesau diogelu defnyddwyr ynni drwy'r argyfwng ynni. Yn ogystal, mae cefnogi'r broses o ddatblygu seilwaith gan gynnwys cysylltiadau newydd i'r grid a mwy o gapasiti grid wrth i ni weithio tuag at Sero Net yn golygu bod tuedd ar i fyny yng nghost rheoleiddio rhwydweithiau ynni. Mae adroddiad ar berfformiad yn ymdrin â chyfrifoldebau newydd Ofgem yn fanylach ac mae'r tueddiadau dros y 3 blynedd diwethaf wedi'u nodi yn adran 1.7 o [Femorandwm Prif Amcangyfrif Ofgem 2025-26](#).

Costau staff yw'r rhan fwyaf (62%) o gostau Ofgem. Mae'r cyfanswm gwariant gweithredu o £261.3 miliwn (2023-24: £189.3 miliwn) yn cynrychioli cynnydd o £71.9 miliwn (38%) sy'n cynnwys:

- cynnydd o £35.0m mewn darpariaethau mewn perthynas â'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd;
- cynnydd o £31.5m mewn costau staff, o ganlyniad i dwf o ran nifer y staff i gefnogi dyletswyddau newydd Ofgem a mesurau rheoleiddiol cynyddol a gyflwynwyd yn dilyn yr argyfwng ynni, ac i roi cynlluniau ynni adnewyddadwy newydd ar waith;
- cynnydd o £2.7m mewn gwariant arall, yn bennaf mewn perthynas â thaliadau cynlluniau
- cynnydd o £2.7m mewn gwariant nad yw'n arian parod, yn bennaf amorteiddio mewn perthynas ag asedau anniriaethol

Roedd gwariant cyfalaf yn cynnwys cyfarpar TG (£2.3m, nodyn 5), lesoedd (£1.8m, SOPS3) a datblygu meddalwedd benodol i gefnogi cynlluniau a weinyddir gan Ofgem (nodyn 6 a SOPS2) yn bennaf. Cafwyd gwariant net o £4.1 miliwn o gymharu â chyllideb net o £4.8 miliwn.

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Nid yw aelodau Bwrdd Ofgem yn gyfarwyddwyr mewn unrhyw gwmni arall nac yn meddu ar fuddiannau arwyddocaol eraill a all wrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli.

Cyhoeddir cofrestr buddiannau aelodau Bwrdd ac Uwch-bwyllgor Gweithredol Ofgem ar ein gwefan.

Ni hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ffurfiol am unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol yn ystod y flwyddyn.




## Bwrdd Ofgem

### Rôl y Bwrdd

Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (GEMA) yw Bwrdd Ofgem. Mae'n cynnwys aelodau anweithredol, gan gynnwys Cadeirydd anweithredol, ac un aelod gweithredol, sef y Prif Weithredwr. Mae aelodau'r Uwch-bwyllgor Gweithredol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, ac mae aelodau eraill o staff Ofgem yn mynychu ar gyfer eitemau penodol, fel sy'n ofynnol. Ceir manylion aelodau Bwrdd Ofgem ar wefan Ofgem Ein strwythur a'n harweinyddiaeth | Ofgem.

Mae pwerau a dyletswyddau'r Bwrdd yn deillio o statud. Mae'r ddeddfwriaeth yn sôn am Ofgem fel 'yr Awdurdod', ac wrth gyfeirio at yr Awdurdod, mae'n golygu Cadeirydd ac aelodau eraill Bwrdd Ofgem. Mae hyn yn golygu pan fydd deddfwriaeth yn rhoi pŵer penodol i Ofgem, mater i Fwrdd Ofgem yw arfer y pŵer hwnnw, oni bai bod dirprwyaeth ddilys ar waith.

### Penodiadau GEMA

Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net sy'n penodi aelodau anweithredol yr Awdurdod, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd. Penodir aelodau gweithredol yr Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Yn ystod 2024-25, ni fu unrhyw newidiadau i aelodaeth GEMA. Ar 1 Chwefror 2025, ehangodd Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net benodiad Jonathan Brearley fel aelod o GEMA tan 31 Ionawr 2030. Ehangodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd gyfnodau dau aelod anweithredol – Myriam Madden hyd at 31 Mawrth 2025 a Barry Panayi hyd at 16 Mawrth 2027.

### Rhannu cyfrifoldebau

Mae'r Bwrdd wedi cadw rhai penderfyniadau yn ôl. Mae'r rhain wedi'u nodi mewn atodlen i Reolau Trefniadaeth y Bwrdd a chyfeirir atynt hefyd fel y 'Swyddogaethau a Gadwyd yn Ôl'.

Mater i'r Bwrdd yw gwneud penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw un o'r Swyddogaethau hyn a Gadwyd yn Ôl, oni bai bod y Bwrdd yn dirprwyo'r penderfyniad hwnnw i un o gyflogeion Ofgem, neu un o Bwyllgorau'r Bwrdd, yn benodol.

Gall dirprwyaeth gan y Bwrdd fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau. Caiff unrhyw ddirprwyaeth ychwanegol gan y Bwrdd ei chofnodi yng nghofnodion y Bwrdd. Yr unig eithriad i hyn yw llunio Offeryn Statudol. Ni all y Bwrdd – yn ôl y gyfraith – wneud dirprwyaeth o'r fath. Cyfeirir at holl swyddogaethau'r Bwrdd nad ydynt yn Swyddogaethau a Gadwyd yn Ôl, a ddirprwyir i un o Bwyllgorau'r Bwrdd, neu gan Drysorlys EF i'r Swyddog Cyfrifyddu, fel 'Swyddogaethau Cyffredinol' ac maent wedi'u dirprwyo i aelodau o'r staff.

Cyhoeddir Rheolau Trefniadaeth y Bwrdd, gan gynnwys ei Faterion a Gadwyd yn Ôl, ar wefan Ofgem.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu nifer o bwyllgorau i gefnogi ei waith, sef: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, wedi'i gadeirio gan Myriam Madden (tan 31 Mawrth 2025), y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth, wedi'i gadeirio gan Warren Buckley, y Pwyllgor RIIO-3 ac ED3, wedi'i gadeirio gan Graham Mather, a'r Panel Penderfyniadau Gorfodi, wedi'i gadeirio gan David Ashbourne.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau a gwaith Pwyllgorau GEMA mewn adran ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Cyfarfodydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod tua deg gwaith y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol. At hynny, defnyddir cyfarfodydd ad hoc a phenderfyniadau drwy ohebiaeth pan fydd materion brys yn codi rhwng cyfarfodydd.

Yn ei gyfarfodydd, mae'r Bwrdd fel arfer yn ystyried amrywiaeth o faterion. Mae hyn fel arfer yn cynnwys diweddariadau gan y Prif Weithredwr, diweddariadau gan Gadeiryddion ei Bwyllgorau ar unrhyw gyfarfodydd diweddar, trafodaethau am strategaeth Ofgem a'r dirwedd ehangach, materion sefydliadol, a phenderfyniadau ynghylch materion penodol nad ydynt wedi'u dirprwyo gan gynnwys mewn perthynas â rhai materion rheoleiddiol penodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r materion a ystyriwyd gan y Bwrdd wedi cynnwys, ymhlith eraill, y canlynol:

- Darparu barn neu wneud nifer o benderfyniadau rheoleiddiol sylweddol yn unol â'n Fframwaith Buddiannau Defnyddwyr, gan gynnwys e.e.:
    - penderfyniadau sy'n gysylltiedig â pholisïau ar gyfer systemau rheoli prisiau dosbarthu Trawsyrru Nwy, Trawsyrru Trydan a Nwy RIIO-3, a'r fframwaith ar gyfer yr adolygiad o brisiau Dosbarthu Trydan (ED3)
    - yr opsiynau polisi ar gyfer diwygio taliadau sefydlog
    - strategaeth ac opsiynau sy'n gysylltiedig â lwfansau dyledion, prisiau teg, safonau a chydnerthedd ym mhob rhan o'r farchnad fanwerthu
    - y fframwaith ar gyfer rheoleiddio Gweithredwr y System Ynni Genedlaethol ar gyfer Prydain Fawr,
    - meysydd sy'n dod i'r amlwg o ran rheoleiddio hyblygrwydd,
    - diwygio cysylltiadau trydan.
- Adolygu risgiau strategol Ofgem a'i datganiad o barodrwydd i dderbyn risg
- Cymeradwyo Blaenraglen Waith Ofgem
- Monitro cynnydd cyflawni yn erbyn ymrwymiadau'r Flaenraglen Waith

At hynny, ac fel arfer cyn pob cyfarfod ffurfiol, mae'r Bwrdd yn cynnal sesiwn friffio lai ffurfiol. Mae'r sesiwn hon yn gyfle i'r Bwrdd drafod materion sy'n dod i'r amlwg, cael gwybodaeth am agweddau penodol ar waith Ofgem, a chlywed gan randdeiliaid ar faterion llosg.

Y flwyddyn hon, roedd yn bleser gan y Bwrdd groesawu nifer o randdeiliaid i'w gyfarfodydd, gan gynnwys er enghraifft, cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, y Ffederasiwn Busnesau Bach, y Grŵp Defnyddwyr Ynni-ddwys a Nesta.

Cyhoeddir cofnodion ac agendâu'r Bwrdd ar wefan Ofgem.

## Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Cadeirydd a'r aelodau anweithredol eraill yn chwarae rhan lawn ym musnes y Bwrdd. Roeddent yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgorau fel a ganlyn::

| Aelod o GEMA | Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth | Pwyllgor RIIO-3 ac ED-3 |
|---|---|---|---|---|
| Alena Kozakova | 10/10 | | 3/3 | 2/2 |
| Barry Panayi | 10/10 | | | |
| Graham Mather | 10/10 | 4/4 | | 2/2 |
| John Crackett | 1/1 | 1/1 | | |
| Jonathan Brearley (Prif Swyddog Gweithredol) | 10/10 | 4/5 | 4/4 | 1/2 |
| Jonathan Kini | 10/10 | | 3/4 | |
| Mark McAllister (Cadeirydd) | 10/10 | 5/5 | 4/4 | 2/2 |
| Myriam Madden | 9/10 | 5/5 | | |
| Tony Curzon-Price | 9/10 | 4/5 | | |
| Warren Buckley | 10/10 | | 4/4 | |

**Nodiadau:**
Ym mis Mehefin 2024, penododd GEMA gynghorydd technegol i'r Bwrdd, Nick Winser, a ddaeth i gyfarfodydd y Bwrdd i roi cyngor i'r Cadeirydd a'r Bwrdd mewn perthynas ag agweddau technegol ar y system ynni a'r rhwydweithiau rheoleiddiedig. Penododd yr Ysgrifennydd Gwladol Nick Winser fel aelod o GEMA o 1 Ebrill 2025 am gyfnod o flwyddyn.
Yn ogystal â'r amserlen arferol o gyfarfodydd a restrir uchod cyfarfu'r Bwrdd sawl gwaith ar fyr rybudd i ymdrin â materion brys a materion strategol.

## Gwerthuso'r Bwrdd a'r trefniadau llywodraethu

Caiff effeithiolrwydd y Bwrdd ei adolygu bob blwyddyn. Mae'n arfer dda o safbwynt llywodraethu corfforaethol cynnal Adolygiad allanol o Effeithiolrwydd y Bwrdd o leiaf unwaith bob tair blynedd. Yn dilyn proses gaffael gystadleuol yn 2024-25, penodwyd Campbell Tickell i gynnal Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd.

Caiff adroddiad Campbell Tickell ei gyhoeddi ar wefan Ofgem. Mae Ofgem yn olrhain ei ymateb i argymhellion yr adolygiad.

## Nodi a rheoli achosion o wrthdaro buddiannau

Mae gan Ofgem bolisi gwrthdaro buddiannau ac mae canllawiau pellach hefyd ar gael i'r staff ar fewnrwyd staff Ofgem. Caiff y polisi ei adolygu bob blwyddyn.

O dan y polisi, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff ein hysbysu am unrhyw achosion posibl o wrthdaro pan fyddant yn ymuno â'r sefydliad ac i gyflwyno datganiadau blynyddol wedi hynny, neu pan fydd newid o ran amgylchiadau a allai arwain at wrthdaro posibl.

Mae'r polisi yn berthnasol i bob aelod o'r staff, boed yn staff parhaol, achlysurol, cyfnod penodol, asiantaeth neu gontractwr.

Caiff unrhyw achosion posibl o wrthdaro eu hasesu gan y tîm Sicrwydd Busnes, sy'n ystyried a oes achos o wrthdaro ac, os felly, pa gamau y dylid eu cymryd, ac erbyn pryd. Mae'r polisi hefyd yn nodi y caiff camau disgyblu eu cymryd yn erbyn unrhyw aelod o staff y canfyddir nad yw wedi cydymffurfio â'r trefniadau hyn.

Cyhoeddir cofrestr buddiannau aelodau ein Bwrdd ar wefan Ofgem.

Pan fydd staff yn gadael y sefydliad, mae proses ar waith gennym i ystyried a oes angen cais o dan y Rheolau Penodiadau Busnes cyn iddynt dderbyn penodiad newydd y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil. Diben hyn yw sicrhau pan fydd cyn aelod o staff yn derbyn penodiad neu gyflogaeth allanol na ddylai fod unrhyw reswm cyfiawn i'r cyhoedd bryderu, beirniadu na chamddehongli'r sefyllfa.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn cynnwys aelodau anweithredol GEMA. Cadeiriwyd ARAC gan Myriam Madden yn ystod 2024-25. Aelodau ychwanegol y pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn oedd Mark McAllister, Tony Curzon Price, John Crackett (tan fis Mai 2024) a Graham Mather (tan fis Rhagfyr 2024). Yng nghyfarfod GEMA ym mis Mawrth 2025, penodwyd Jonathan Kini i rôl Cadeirydd ARAC o 1 Ebrill 2025. Mae ARAC yn cynnal pedwar prif gyfarfod y flwyddyn, yn ogystal â chyfarfod penodol i adolygu'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog

Gweithredu, y Cwnsler Cyffredinol, y Cyfarwyddwr Cyllid, Caffael a Risg, a'r Pennaeth Sicrwydd Busnes a Risg i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor, yn ogystal ag aelodau eraill o staff yn ôl yr angen.

Gwahoddir cynrychiolwyr o Archwilwyr Allanol Ofgem, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a chynrychiolwyr o Archwilwyr Mewnol Ofgem, Forvis Mazars, i fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd. Yn unol ag arfer da, bydd aelodau anweithredol y Pwyllgor fel arfer yn cynnal sesiwn breifat â'r archwilwyr ar ddiwedd pob cyfarfod. At hynny, mae'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn cynnal trafodaethau rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad uniongyrchol â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

### *Diben a chyfrifoldebau*

Mae gan ARAC gylch gorchwyl, a gaiff ei adolygu bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar wefan Ofgem. Ei gyfrifoldebau allweddol yw cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd mewn perthynas ag effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, prosesau rheoli risg a llywodraethu Ofgem.

Bydd yn archwilio'r ffordd y mae Ofgem yn sicrhau ac yn monitro digonolrwydd y systemau rheoli ariannol ac yn argymell unrhyw welliannau angenrheidiol.

Mae ARAC yn cynghori'r Bwrdd ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â'r rhaglen flynyddol o adolygiadau archwilio sy'n ymdrin â phrosesau ariannol a rheoli allweddol, gan ystyried y risgiau presennol sy'n wynebu Ofgem. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr archwilwyr allanol.

### *Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn*

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch ARAC oedd:

- Monitro cynnydd y cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25, a'r her barhaus i Ofgem wella canlyniadau'r rhaglen archwilio mewnol a'u rhoi ar waith.
- Adolygu adroddiadau Archwilio Mewnol, ac adroddiadau sicrwydd eraill a gomisiynwyd gan reolwyr, ac ymatebion rheolwyr i faterion, gan gynnwys er enghraifft: rheoli prosiectau, rheoli contractau, recriwtio, cydymffurfiaeth manwerthwyr, a chamau gorfodi.
- Adolygu'r cynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2025-26.
- Parhau i herio Ofgem er mwyn gwella, gweithredu ac adolygu cynnydd yn erbyn ei welliannau i'r fframwaith rheoli risg.
- Cynnal archwiliadau dwfn o risgiau thematig.
- Adolygu parodrwydd Ofgem i dderbyn risg a rhoi cyngor arno.

- Adolygu dogfen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24 Ofgem a goruchwylio'r broses o gynllunio ar gyfer dogfen 2024-25.
- Ystyried cynllun archwilio ac adroddiad cwblhau archwiliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

*Adrodd*

Caiff crynodeb o weithrediadau ARAC ei rannu â'r Bwrdd yn ystod cyfarfodydd dilynol, a rhoddir cyfle i Gadeirydd y Pwyllgor roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am unrhyw faterion y mae'n awyddus i'w codi.

*Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth*

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth (PRC) yn cynnwys aelodau anweithredol GEMA. Yn ystod 2024-25, Warren Buckley oedd cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth. Aelodau ychwanegol y pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn oedd Mark McAllister, Jonathan Kini, ac Alena Kozakova (tan fis Rhagfyr 2024)

Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Pobl a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth hefyd, yn ogystal ag aelodau eraill o staff yn ôl yr angen.

*Diben a chyfrifoldebau*

Caiff cylch gorchwyl y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth ei adolygu bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar wefan Ofgem.

Cyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor yw cynghori'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr ar gydnabyddiaeth yr Uwch-wasanaeth Sifil, a dulliau strategol o ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â phobl sy'n effeithio ar berfformiad a llwyddiant Ofgem, ynghyd â pholisïau ar faterion o'r fath.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu Strategaeth Gweithlu Ofgem a sut y mae'n cael ei rhoi ar waith yn rheolaidd.

*Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn*

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth oedd:

- Cymeradwyo cydnabyddiaeth ac amcanion blynyddol tîm gweithredol Ofgem
- Adolygu perfformiad tîm gweithredol Ofgem
- Cymeradwyo strategaeth y gweithlu
- Cymeradwyo ceisiadau a wneir o dan y Rheolau Penodiadau Busnes, gan staff SCS2 neu SCS3, neu unrhyw gais arall gan Uwch-was Sifil
- Adolygu maint, strwythur a chyfansoddiad Bwrdd Ofgem
- Cynnal archwiliadau dwfn thematig i faterion sy'n ymwneud â phobl ac adolygu polisïau sy'n gysylltiedig â phobl, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant, adnoddau hyblyg ac atal bwlio ac aflonyddu.
- Y flwyddyn hon, croesawodd y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth rai o rwydweithiau staff Ofgem i'w gyfarfodydd, gan gynnwys cynrychiolwyr Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol a rhwydweithiau Enable, Embrace a chyflogeion LHDT+.

*Adrodd*

Caiff crynodeb o weithrediadau PRC ei rannu â'r Bwrdd yn ystod ei gyfarfod dilynol, a rhoddir cyfle i Gadeirydd y Pwyllgor roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am unrhyw faterion y mae'n awyddus i'w codi.

## Pwyllgor RIIO-3 ac ED3

Ym mis Tachwedd 2024, sefydlodd GEMA bwyllgor newydd i helpu'r Bwrdd i wneud penderfyniadau mewn perthynas â rhaglenni systemau rheoli prisiau RIIO-3 ac ED3. Pwyllgor cynghorol yn unig yw'r pwyllgor, ac mae'n cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol. Cyfarfu'r pwyllgor am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2025 a'i gadeirydd yw Graham Mather. Mae Mark McAllister, Alena Kozakova, a Jonathan Brearley hefyd yn aelodau o'r pwyllgor. Gwahoddir staff i fynychu cyfarfodydd pwyllgor RIIO-3 ac ED3 yn ôl yr angen.

*Diben a chyfrifoldebau*

Cafodd cylch gorchwyl pwyllgor RIIO-3 ac ED3 ei gymeradwyo gan GEMA ym mis Rhagfyr 2024 ac mae wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Diben y pwyllgor yw rhoi arweiniad a chyfeiriad i raglenni RIIO-3 ac ED3, a rhoi cyngor i GEMA cyn iddo wneud penderfyniadau.

### *Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn*

Cyfarfu'r pwyllgor ddwywaith yn ystod 2024-25 ac roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys ystyried cyflwyniadau cynllun busnes RIIO-3, ac adolygu cynigion ar gyfer fframwaith ED3.

### *Adrodd*

Caiff crynodeb o weithrediadau'r pwyllgor RIIO-3 ac ED3 ei rannu â'r Bwrdd yn ystod ei gyfarfod dilynol, a rhoddir cyfle i Gadeirydd y Pwyllgor roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am unrhyw faterion y mae'n awyddus i'w codi.

### *Panel Penderfyniadau Gorfodi*

David Ashbourne yw cadeirydd y Panel Penderfyniadau Gorfodi (EDP). Mae aelodau'r Panel a'i ysgrifenyddiaeth yn gyflogeion Ofgem sy'n annibynnol ar dîm yr achos. Mae'r EDP yn cyfarfod i drafod achosion unigol, er mwyn gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n benodol i'r achos. Mae hefyd yn cyfarfod bob chwarter i drafod amrywiaeth o faterion polisi a gorfodi ac i drafod y gwersi a ddysgwyd o achosion sydd wedi dod i ben.

Mae aelodau'r EDP hefyd yn ffurfio Pwyllgorau Setliadau, gydag aelod o staff Ofgem ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil, er mwyn penderfynu ar achosion sy'n addas ar gyfer setliad ffurfiol.

### *Diben a chyfrifoldeb*

Mae'r EDP wedi bod ar waith ers mis Mehefin 2014 er mwyn gwneud penderfyniadau gorfodi ar ran y Bwrdd ei hun. Cafodd ei sefydlu er mwyn i arbenigwyr penodedig wneud penderfyniadau ynghylch achosion gorfodi fel bod gwahaniad gweladwy rhwng y swyddogaethau ymchwilio a'r swyddogaethau gwneud penderfyniadau.

Caiff cylch gorchwyl yr EDP a'r Pwyllgor Setliadau eu cyhoeddi ar wefan Ofgem.

Cyfrifoldebau allweddol yr EDP yw gwneud penderfyniadau ar ran GEMA ynghylch a fu achos o dorri rhwymedigaethau'r trwyddedai, cyfreithiau cystadleuaeth, rheoliadau REMIT, neu reoliadau'r Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) ac a ddylid gosod cosb neu gyflwyno pecyn unioni ac os felly, pa lefel o gosb neu becyn unioni.

Cyfrifoldeb allweddol y Pwyllgor Setliadau yw awdurdodi penderfyniadau ar ran GEMA. Mae'r rhain yn galluogi timau achosion i ddilyn y weithdrefn setliadau.

### *Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn*

- Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r EDP wedi cyfarfod bob chwarter i drafod amrywiaeth o faterion polisi a gorfodi a'r gwersi a ddysgwyd o achosion sydd wedi dod i ben. Cafodd yr EDP hefyd ddiweddariadau ar strategaeth a chyfeiriad polisi Ofgem. Mynychodd Mark McAllister gyfarfodydd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y blaenoriaethau strategol a'r parodrwydd i dderbyn risg gan GEMA. Mynychodd uwch-aelodau o staff Ofgem hefyd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyflenwad achosion a'r blaenoriaethau.

Roedd y pynciau a drafodwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad yn cynnwys arddangosiad o'r adnodd calibradu cosbau newydd a ddatblygwyd gan y tîm, hyfforddiant penodol ar achosion seiber, y canllawiau ar achosion y ceir dadlau yn eu cylch, ac archwiliad y Tîm Gorfodi.

### *Adrodd*

Rhaid i gadeirydd yr EDP ddarparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd, gan roi sylwadau ar yr achosion a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad at ddefnydd mewnol yn unig.

## Rôl a chyfrifoldebau'r Uwch-bwyllgor Gweithredol (SEC)

Mae'r Uwch-bwyllgor Gweithredol a phedwar Bwrdd Portffolio (Marchnadoedd, Seilwaith, Cyflawni a Chynlluniau, a bwrdd Portffolio'r Prif Swyddog Gweithredu) yn helpu'r Prif Weithredwr i redeg y sefydliad. Nid yw'r pwyllgorau a'r byrddau hyn yn Bwyllgorau Bwrdd ffurfiol.

Caiff yr Uwch-bwyllgor Gweithredol ei gadeirio gan y Prif Weithredwr. Ochr yn ochr â'i gyfarfodydd, a gynhaliwyd o leiaf unwaith y mis yn ystod 2024-25, mae'r Uwch-bwyllgor Gweithredol hefyd yn cynnal cyfarfod wythnosol anffurfiol a chyfarfodydd ad hoc fel y bo'n ofynnol. Mae aelodau'r Uwch-bwyllgor Gweithredol wedi'u rhestru ar wefan Ofgem. Gwahoddir aelodau eraill o staff Ofgem i fynychu cyfarfodydd yr Uwch-bwyllgor Gweithredol yn ôl yr angen.

Mae'r Uwch-bwyllgor Gweithredol yn gweithredu fel fforwm rheoli sy'n cynnig perchenogaeth adeiladol a chyfunol dros berfformiad a chyflawniadau cyffredinol Ofgem. Mae'n darparu arweiniad, goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol gan fwyaf, ac yn rhoi cyngor i'r Prif Weithredwr ar faterion penodol

sydd wedi'u nodi yn ei gylch gorchwyl a'r Rheolaethau Rheoli. Caiff y Byrddau Portffolio eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol neu'r Cyfarwyddwr perthnasol ar gyfer y portffolio hwnnw, gan gyfarfod o leiaf unwaith y mis a rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Uwch-bwyllgor Gweithredol ar y penderfyniadau a wnaed.

Mae'r aelodaeth ar lefel SCS 1 a 2 gan ddibynnu ar strwythur y grŵp.

Mae'r Byrddau Portffolio yn fforymau rheoli ar gyfer perchenogaeth adeiladol a chyfunol dros y meysydd y mae'r cadeirydd yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys goruchwylio perfformiad a chyflawni, datblygu strategaeth y grŵp, rheoli risg a sicrwydd. Caiff materion allweddol sy'n rhan o gylch gwaith y Byrddau Portffolio eu trafod er mwyn meithrin dealltwriaeth traws-grŵp o'r effaith ar waith y grŵp.

### *Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn*

Mae'r Uwch-bwyllgor Gweithredol yn trafod materion rheoleiddiol a materion sefydliadol.

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch yr Uwch-bwyllgor Gweithredol oedd rhoi cyngor i'r Prif Weithredwr mewn perthynas â'r canlynol:

- Ystyried ymatebion y rheolwyr i adroddiadau Archwilio Mewnol ac adroddiadau sicrwydd eraill a monitro cynnydd wrth roi argymhellion yr adroddiadau hynny ar waith.
- Adolygu prif risgiau Ofgem a'r camau lliniaru a'u rhoi ar waith.
- Cynllunio ariannol, rheoli a sicrhau trefniadau cyflawni yn erbyn ymrwymiadau'r Flaenraglen Waith.
- Ystyried materion pwysig sy'n ymwneud â phobl, gan gynnwys strategaeth a pholisïau amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad.
- Adolygu cynigion polisi neu reoliadol pwysig neu drawsbynciol, neu faterion pwysig sy'n ymwneud â threfniadau Ofgem ar gyfer rhoi cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar waith.
- Adolygu papurau perthnasol a gyflwynir gan y rheolwyr i'r Bwrdd neu un o is-bwyllgorau'r Bwrdd.

### *Adrodd*

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn darparu adroddiad misol i'r Bwrdd, gan grynhoi materion proffil uchel a materion llosg sy'n wynebu'r sefydliad, gan gynnwys gweithgareddau'r Uwch-bwyllgor Gweithredol a Byrddau Portffolio'r Gyfarwyddiaeth fel y bo'n briodol. Bob chwarter, mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn cyflwyno adroddiad ar gyflawniadau yn erbyn blaenoriaethau strategaeth amlflwyddyn Ofgem.

## Presenoldeb Ofgem yn yr Alban

Mae Ofgem yn dal i chwarae rhan hanfodol yn nhirwedd ynni'r Alban, gyda bron i hanner ein staff wedi'u lleoli yno a nifer cynyddol o rolau Uwch-weision Sifil wedi'u lleoli yn Glasgow. Mae ein cydweithwyr yn yr Alban yn cyfrannu amrywiaeth eang o sgiliau ac yn chwarae rhan arweiniol wrth ddatblygu polisïau allweddol.

Rydym wedi teilwra ein gwaith at anghenion ynni unigryw yr Alban – fel ei photensial sylweddol o ran ynni adnewyddadwy a'r angen i uwchraddio'r grid – gan ar yr un pryd ymdrin â heriau fel tlodi tanwydd a'r broses o ddiffodd Gwasanaeth Radio Teleswitch (RTS). Mae ein cydberthnasau cadarn â Llywodraeth yr Alban a grwpiau defnyddwyr fel Consumer Scotland a Citizens Advice Scotland yn sicrhau ein bod yn parhau'n ymwybodol o faterion cyfoes.

Mae Cadeirydd Ofgem Mark McAllister wedi ymgysylltu mewn ffordd weithredol â rhanddeiliaid ledled yr Alban. Roedd ei ymweliadau yn cynnwys achlysur torri tir cebl Eastern Green Link 2, prosiect hydro Coire Glas, a phencadlys Flexitricity yng Nghaeredin. Ymwelodd hefyd â safle profi hydrogen SGN yn Fife a chyfarfu â chymdeithasau tai yn Aberdeen i drafod proses drawsnewid RTS. Mae'r ymweliadau hyn yn helpu i nodi risgiau a chyfleoedd mewn amser real.

Mae Ofgem wedi arwain diwygiadau sylweddol sydd o fudd i'r Alban, gan gynnwys:

- **Diwygio cysylltiadau â'r grid:** Mae'r gymeradwyaeth a roddwyd i TMO4+ ym mis Ebrill 2025 yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau ynni glân sy'n barod i'w gweithredu, gan ddatgloi buddsoddiad gwerth £40 biliwn bob blwyddyn.
- **Buddsoddi mewn ynni glân:** Ers mis Gorffennaf 2024, buddsoddwyd £43.7 biliwn mewn ynni glân, gyda llawer o brosiectau wedi'u lleoli yn yr Alban.
- **Rhyng-gysylltwyr o dan y môr:** Bydd pum cyswllt newydd yn cysylltu ynni adnewyddadwy yn yr Alban â grid y DU, gan wella diogeledd ynni.

Rydym hefyd wedi annog cyflenwyr i gyflymu'r gwaith o adnewyddu mesuryddion RTS a lansiwyd ymgyrch genedlaethol i ddiogelu'r defnyddwyr yr effeithiwyd arnynt, yn enwedig yn yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd.

Mae gwaith trawsyrru ar y môr Ofgem yn cefnogi uchelgeisiau gwynt ar y môr yr Alban o hyd. Bydd ein rownd tendro diweddaraf gwerth £2 biliwn yn helpu i gysylltu prosiectau allweddol ym Môr y Gogledd ac Aber Moray â'r grid.

Yn y Gynhadledd Pob Ynni yn Glasgow ym mis Mai 2025, cymerodd Ofgem ran mewn pum sesiwn ar drawsnewid ynni, diwygio'r grid ac arloesedd digidol, gan ymgysylltu â thros 8,000 o randdeiliaid.

Rydym yn cydgysylltu'n agos â Llywodraeth yr Alban drwy fforymau strwythuredig, gan drafod materion allweddol fel systemau rheoli prisiau a chynllunio ynni rhanbarthol. Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i gydweithredu ar y Cynllun Ynni Gofodol Strategol er mwyn darparu ynni glân, diogel a fforddiadwy ledled Prydain Fawr.

## Presenoldeb Ofgem yng Nghymru

Mae rôl Ofgem yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol, ac mae ein swyddfa yng Nghaerdydd wedi ehangu o ddim ond pedwar aelod o staff yn 2021, i 140 yn 2025. Mae ein cydweithwyr yng Nghymru yn parhau i gyfrannu amrywiaeth eang o sgiliau ac yn chwarae rhan arweiniol wrth ddatblygu polisïau allweddol.

Rydym yn ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid gan gynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru, Cymru Gynnes ac Un Blaned Caerdydd. Ym mis Chwefror, cynhaliodd Ofgem ddigwyddiad Time for a Fairer Future ar y cyd â'r Sefydliad Banc Tanwydd, gan dynnu sylw at brofiadau byw y rhai hynny sy'n wynebu argyfwng tanwydd a llywio polisïau'r dyfodol.

Ymwelodd uwch-gydweithwyr â safleoedd ynni allweddol fel Safle Pŵer Dinorwig a rhwydwaith gwres Un Blaned Caerdydd, a gaiff eu rheoleiddio gan Ofgem cyn bo hir. Mae'r ymweliadau hyn yn ein helpu i ddeall arloesedd a heriau seilwaith lleol yn uniongyrchol.

Rydym wedi cynnal deialog cadarn â Llywodraeth Cymru ac aelodau'r Senedd, gan gymryd rhan yn y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd a chyflwyno gwybodaeth yn fforymau National Energy Action (NEA). Rhoddodd gweminar mis Hydref ar y cap ar brisiau eglurder ar bwnc sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd.

Cyfarfu Cyfarwyddwr Cyffredinol Ofgem ar gyfer Marchnadoedd, Tim Jarvis, ag NEA Cymru i drafod diwygiadau i'r farchnad, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i ymgysylltu â rhanddeiliaid o bob maint.

Mae diwygiadau sylweddol fel rhoi TMO4+ ar waith ym mis Ebrill 2025 yn datgloi buddsoddiad preifat gwerth £40 biliwn bob blwyddyn, gan gyflymu prosiectau ynni glân ledled Cymru. Mae Ofgem hefyd yn cefnogi ymdrech Llywodraeth Cymru i annog ynni adnewyddadwy sydd o fudd i gymunedau, gyda 7.8 GW o brosiectau yn cael eu cyflymu – llawer ohonynt mewn ardaloedd cefn gwlad ac ardaloedd arfordirol yng Nghymru.

Un datblygiad nodedig yw Prosiect Ynni Glân Llynfi, lle bwriedir datblygu pedwar micro-adweithydd i Dde Cymru. Dyma fydd safle niwclear newydd cyntaf y DU ers 1978 heb fod wedi'i leoli wrth ymyl cyfleuster sy'n bodoli eisoes, a disgwylir y bydd yr adweithydd cyntaf yn barod erbyn 2027.

Mae ymgyrch RTS Ofgem yn parhau yng Nghymru, ac mae tua 10,000 metr ar ôl i'w adnewyddu o hyd. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r cyfryngau a chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth.

Rydym hefyd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ar gynllunio ynni gofodol strategol ac yn cymryd rhan yn ei Grŵp Cynghori Annibynnol i lywio seilwaith trydan y dyfodol. Mae'r ymdrechion hyn yn sicrhau bod blaenoriaethau Cymru wedi'u cynnwys yng nghynlluniau trawsnewid ynni Prydain Fawr.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo Ofgem i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau yn nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd ohonynt gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofgem a'i hincwm a'i gwariant, ei Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'i llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol yn benodol:

- Dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EF wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofgem. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Ofgem, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofgem yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad Llywodraethu yn nodi trefniadau rheolaeth fewnol Ofgem, sy'n unol â chanllawiau Trysorlys EF a Swyddfa'r Cabinet. Mae cyfansoddiad a threfn y strwythurau llywodraethu, a sut maent yn helpu i gyflawni canlyniadau polisi'r adran, wedi'u nodi yn yr adran uchod, "Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol" ac ymdrinnir â materion ariannol, archwilio, risg a sicrwydd isod.

Mae dull gweithredu Ofgem yn dilyn y model tair llinell amddiffyn a argymhellir gan Drysorlys EF ar gyfer holl adrannau Llywodraeth EF. Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth fewnol effeithiol ar draws gweithgareddau llinell gyntaf a chaiff hyn ei gefnogi, ei fonitro a'i herio drwy ddulliau goruchwylio corfforaethol o fewn cyfarwyddiaethau a swyddogaethau cymorth canolog Ofgem.

**BWRDD/PWYLLGOR ARCHWILIO**

**UWCH-REOLWYR**

**1st LINE**

**Rheolaeth Rheolwyr**

**Mesurau Rheolaeth Fewnol**

- Nodi risgiau, eu hasesu, dod yn berchen ar arnynt a'u rheoli
- Llunio, gweithredu a chynnal mesurau rheolaeth fewnol effeithiol
- Goruchwylio'r broses weithredu a monitro cydymffurfiaeth
- Cymryd camau unioni i fynd i'r afael â diffygion.

**2nd LINE**

**Swyddogaethau sy'n goruchwylio neu sy'n arbenigo mewn rheoli risg**

- Nodi ffiniau cyflawni drwy ddiffinio safonau, polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau.
- Helpu rheolwyr i ddatblygu rheolaethau yn unol ag arferion da.
- Monitro cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd
- Cytuno ar unrhyw randdirymiad o'r gofynion penodedig
- Nodi materion sy'n dod i'r golwg a senarios risg sy'n newid a'u dwyn i sylw uwch-reolwyr a, lle y bo'n briodol, gyrff llywodraethu.

**3rd LINE**

**Archwilio mewnol**

- Rhoi gwerthusiad gwrthrychol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth
- Rhoi gwerthusiad rhagweithiol o reolaethau a gynigir gan reolwyr
- Cynghori ar strategaethau rheolaeth posibl a'r ffordd y caiff rheolaethau eu llunio.

# Sicrwydd Busnes, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol yn 2024-25

Mae'r rheolwyr yn ystyried risgiau mewn ffordd syml ac ymarferol, gan sicrhau y cânt eu nodi a'u rheoli'n effeithiol. Mae'r dull hefyd yn diffinio rolau, cyfrifoldebau a systemau cymorth clir ar gyfer rheoli risg.

Mae'r fframweithiau risg a sicrwydd yn helpu i nodi cryfderau a heriau allweddol yn Ofgem ac yn meithrin diwylliant o atebolrwydd drwy ymdrech ac ymrwymiad bwriadol. Mae'n annog arweinwyr i osod y tôn o'r brig er mwyn rhoi diwylliant corfforaethol ymgysylltiol ac atebol ar waith ar bob lefel.

## Cynllun sicrwydd integredig

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom wella aeddfedrwydd ein goruchwyliaeth ail linell o risgiau sylweddol drwy gyflwyno cynllun sicrwydd integredig. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r ffynonellau sicrwydd sydd eu hangen ar gyfer pob Prif Risg ac amrywiaeth o themâu rheolaeth fewnol corfforaethol. Fel rhan o hyn, gwnaethom gynnal sawl adolygiad o effeithiolrwydd ein prosesau llywodraethu a sicrwydd.

- **Rheolaethau Pobl a Diwylliant:** Rhoddodd adolygiadau o reolaethau mewnol dros y brif risg sy'n gysylltiedig â Phobl a Diwylliant sicrwydd sylweddol bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol.
- **Compliance with corporate policies:** Cydymffurfio â pholisïau corfforaethol: Nododd adolygiad llywodraethu mewn un gyfarwyddiaeth fân achosion o ddiffyg cydymffurfio â pholisïau corfforaethol, gan arwain at argymhellion ar gyfer gwella cydymffurfiaeth a hyfforddiant.
- **Llywodraethu Digwyddiadau Data:** Canfu adolygiadau o'r trefniadau llywodraethu digwyddiadau data fod polisïau a hyfforddiant digonol ar waith, ond y gellid bod wedi atal mân achosion o fynd yn groes iddynt drwy weithredu mewn modd mwy amserol.
- **Treuliau, Teithio, a Gwariant ar Gardiau Caffael:** Ni ddatgelodd hapwiriadau estynedig ar dreuliau, teithio a gwariant ar gardiau caffael unrhyw wyriadau sylweddol ond tynnwyd sylw at gyfleoedd i atgyfnerthu'r rheolaethau oherwydd twf sefydliadol.
- **Goruchwylio Risgiau Technoleg:** Sefydlwyd grŵp adolygu penodedig, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r bwrdd, i sicrhau bod risgiau technoleg yn cael eu goruchwylio'n gadarn.
- **Datgan buddiannau:** Atgyfnerthwyd prosesau goruchwylio achosion posibl o wrthdaro buddiannau yn 2023-24 drwy gyflwyno datganiad blynyddol, sydd wedi creu darlun mwy cynhwysfawr a chyson o unrhyw achosion posibl o wrthdaro ar gyfer 2024-25. Caiff hyn ei gefnogi ymhellach yn 2025-26 wrth i hyfforddiant a deunyddiau canllaw newydd gael eu cyflwyno.

## Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth

Rhaid i adrannau a chyrff hyd braich y Llywodraeth gydymffurfio â gofynion gorfodol safonau swyddogaethol. Swyddfa'r Cabinet. Ni nododd adolygiad Archwilio Mewnol o reolaethau Ofgem ar gyfer rheoli cydymffurfiaeth â sampl o'r safonau unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio ond argymhellodd y dylid atgyfnerthu rôl prosesau goruchwylio corfforaethol mewnol wrth roi sicrwydd yn hyn o beth. Caiff y gwaith hwn ei gynnwys yng nghynllun sicrwydd 2025-26.

Yn ystod 2024-25, cynhaliodd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth adolygiad o gydymffurfiaeth â'r safon swyddogaethol ar gyfer twyll mewn perthynas â chynlluniau ynni adnewyddadwy, gan nodi gwelliannau mewn pum prif faes. Caiff argymhellion o'r adolygiad eu hadlewyrchu mewn strategaeth twyll gryfach i bob rhan o Ofgem yn ystod 2025-26.

## Egwyddorion Llyfr Oren Trysorlys Ei Fawrhydi – Cydymffurfio neu Esbonio

Yn 2024, diweddarodd Ofgem ei bolisi rheoli risg a chafodd radd 'gymedrol' gan yr archwilwyr fel rhan o'u harchwiliad diweddar o'r fframwaith risg.

Mae arferion rheoli risg Ofgem yn cydymffurfio'n llawn â phob un o 5 Egwyddor y Llyfr Oren.

*Egwyddor A: bydd rheoli risg yn rhan hanfodol o lywodraethu ac arweinyddiaeth ac yn sylfaenol i sut mae Ofgem yn cael ei gyfarwyddo, ei reoli a'i reoli ar bob lefel*

Mae Ofgem yn cydymffurfio'n llawn ag 'Egwyddor A'.

Mae gan Ofgem fframwaith clir ac arferion da ar waith ar gyfer adolygu, herio ac uwchgyfeirio'r prif risgiau a risgiau a materion strategol i'r Uwch-bwyllgor Gweithredol ac i GEMA.

Mae'r ARAC yn cynnal archwiliadau dwfn rheolaidd i'r prif risgiau a'r meysydd i'w gwella neu sy'n ddadleuol.

Mae'r dull gweithredu hwn yn hyrwyddo polisi tryloyw Ofgem o ddiwylliant lle na cheir unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl na bai lle caiff ymdrechion i gymryd risgiau wedi'u rheoli'n broffesiynol eu hannog.

Y meysydd a nodwyd i'w gwella'n barhaus yw rhoi diwylliant Ofgem ar waith ar bob lefel o Ofgem ac asesu effeithiolrwydd y system rheoli risg yn fwy rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff, boed yn newydd neu'n brofiadol, yn teimlo'n hyderus yn codi risgiau a bydd hefyd yn golygu y gellir nodi gwelliannau i'r fframwaith yn gynharach.

*Egwyddor B: bydd rheoli risg yn rhan annatod o holl weithgareddau'r sefydliad i gefnogi gwneud penderfyniadau wrth gyflawni amcanion*

Mae Ofgem yn cydymffurfio'n llawn ag 'Egwyddor B'.

Mae gan Ofgem ddull rheoli risg cwbl weithredol ar gyfer prosiectau sy'n cael ei ddefnyddio i oruchwylio'r broses o gyflawni prosiectau haen 1 a, thrwy gysylltiad, bortffolio ehangach Ofgem. Mae'r dull risg hwn ar gyfer prosiectau yn helpu i reoli'r prif risgiau yn gyffredinol, ond yn enwedig y risg sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn technoleg.

*Egwyddor C: rhaid i reoli risg fod yn gydweithredol ac yn cael ei lywio gan y wybodaeth a'r arbenigedd gorau sydd ar gael*

Mae Ofgem yn cydymffurfio'n llawn ag 'Egwyddor C'.

Caiff risg ei hystyried yn rheolaidd gan GEMA, ARAC, yr Uwch-bwyllgor Gweithredol a'r Byrddau Cyflawni. Mae pob un ohonynt yn cael adroddiadau risg rheolaidd ac wedi neilltuo amser penodedig i drafod risg.

Er enghraifft, yn ystod archwiliad dwfn o un o'r prif risgiau, caiff perchennog y brif risg (y Cyfarwyddwyr Gweithredol) ei herio mewn ffordd adeiladol.

Un o'r cyfleoedd i wella fyddai datblygu'r platfform adrodd ar risgiau ymhellach er mwyn gallu cael gafael ar ddata o ansawdd da yn haws a chyflwyno heriau mwy penodol, yn enwedig effeithiolrwydd camau lliniaru a deall y rhyngddibyniaethau rhwng risgiau'n well.

*Egwyddor D: rhaid strwythuro prosesau rheoli risg i gynnwys:*

- *dewis, dylunio a gweithredu opsiynau trin risg sy'n cefnogi cyflawniad y canlyniadau a fwriadwyd ac yn rheoli risgiau i lefel dderbyniol*
- *adnabod ac asesu risg i benderfynu a blaenoriaethu sut y dylid rheoli'r risgiau*
- *dylunio a gweithredu monitro risg integredig, craff a gwybodus*
- *adrodd risg amserol, cywir a defnyddiol i wella ansawdd gwneud penderfyniadau ac i gefnogi cyrff rheoli a goruchwylio i gyflawni eu cyfrifoldebau*

Mae Ofgem yn cydymffurfio'n llawn ag 'Egwyddor D'.

Mae GEMA yn pennu'r lefelau parodrwydd a'r themâu ar gyfer yr holl risgiau ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae hyn yn helpu perchenogion risg i allu rhoi'r camau lliniaru risgiau priodol ar waith, ac i benderfynu a ddylid uwchgyfeirio'r risg os na fydd y camau hyn yn cadw'r risg o fewn y lefelau parodrwydd neu'n ei dychwelyd i'r lefelau hynny.

Mae fframwaith risg Ofgem yn nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am ba lefel o risg ar draws y strwythur llywodraethu a pha mor aml y mae angen adolygu risgiau.

Mae amlder adrodd ar risgiau yn gydnaws â lefel gyffredinol y risg. Mae ARAC yn cael adroddiad risg chwarterol ar y prif risgiau, a'r holl risgiau eraill nad ydynt o fewn y lefelau parodrwydd. Mae'r Uwch-bwyllgor Gweithredol yn adolygu'r Prif Risgiau bob chwarter gan gynnwys archwiliadau dwfn ac mae'r byrddau cyflawni yn cael adroddiadau risg bob mis, a all gynnwys unrhyw risgiau prosiect a uwchgyfeiriwyd gan Fyrddau Cyflawni'r Prosiect. Mae hyn yn sicrhau y caiff y lefel briodol o ddata risg ei hadolygu ar yr adeg briodol ac yn helpu Ofgem i flaenoriaethu sut y caiff penderfyniadau eu gwneud ar bob lefel.

*Egwyddor E: dylid gwella rheoli risg yn barhaus trwy ddysgu a phrofiad*

Mae Ofgem yn cydymffurfio'n llawn ag 'Egwyddor E'.

Mae gan Ofgem 'gynllun gweithredu aeddfedrwydd risg' amlflwyddyn sy'n galluogi Ofgem i wella ei aeddfedrwydd rheoli risg yn barhaus, gan fod lefel hyfforddiant ac arbenigedd rheoli risg yn amrywio ar draws graddau a rolau yn Ofgem.

Mae ymrwymiad clir i wella ac mae hyfforddiant ar gael – e.e. y cyrsiau risg achredededig ac anachredededig sydd ar gael i staff drwy gyfleoedd dysgu'r gwasanaeth sifil, a gweithdai risg mewnol e.e., i wella dealltwriaeth o'r parodrwydd i dderbyn risg a goddefiant a sut y cânt eu defnyddio yn Ofgem.

Cafodd ein fframwaith risg ei adolygu yn ystod 2024-25, yn unol ag un o amcanion yr egwyddor hon.

## Trosolwg o risgiau

Mae fframwaith risg Ofgem yn darparu ffordd bragmatig a syml o gofnodi

risg ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod Ofgem yn mynd ati mewn ffordd gynhwysfawr i nodi ac ymdrin â risgiau a allai ein hatal rhag cyflawni ein nodau strategol ac effeithlonrwydd gweithredol.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi diweddaru'r gofrestr risg yn rheolaidd i adlewyrchu ein dyletswyddau datblygol ac rydym wedi datblygu ein fframwaith risg ymhellach, er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi'r sefydliad yn llawn i gofnodi a lliniaru risgiau.

Nodau allweddol fframwaith risg Ofgem:

- **Diogelu Adnoddau:** Diogelu cyllid cyhoeddus ac asedau adrannol o dan warchodaeth Ofgem, gan sicrhau y cânt eu defnyddio mewn ffordd ddarbodus ac effeithlon.
- **Llywio'r Broses o Wneud Penderfyniadau:** Defnyddio'r Gofrestr Risg i dywys y broses o weithredu polisïau, amcanion a chyfarwyddebau strategol Ofgem.
- **Egluro Egwyddorion Risg:** Cyfleu dull rheoli risg Ofgem yn glir, gan feithrin amgylchedd o dryloywder a dealltwriaeth.
- **Meithrin Ymwybyddiaeth o Risg:** Annog diwylliant sy'n cydnabod gwerth cymryd risgiau priodol wedi'u rheoli fel catalydd ar gyfer arloesedd a chynnydd.
- **Integreiddio Prosesau Rheoli Risg:** Ymgorffori arferion rheoli risg i brosesau busnes Ofgem mewn ffordd ddi-dor, gan osod y sylfaen ar gyfer llywodraethu corfforaethol cadarn.

Drwy wella'r fframwaith risg, gall Ofgem ragweld heriau yn well, diogelu ei fuddiannau, a pharhau i wasanaethu'r cyhoedd yn effeithiol. Gan ddilyn canllawiau Trysorlys EF, gallwn gadarnhau ein bod yn cydymffurfio â'r pum egwyddor rheoli risg, yn unol â'r Llyfr Oren.

Y flwyddyn hon, gwnaethom gyflwyno nifer o fesurau ychwanegol i roi prosesau rheoli risg cadarn ar waith ym mhob rhan o Ofgem, ac rydym wedi nodi'r gwelliannau mwyaf arwyddocaol isod:

- **Cysylltu risgiau cysylltiedig:** Mae ein meddalwedd risg yn ein galluogi i gysylltu risgiau a materion cysylltiedig. Mae hyn yn ein galluogi i gysylltu risgiau neu faterion strategol â'n prif risgiau, er mwyn i berchennog y risg allu goruchwylio'r risgiau a'r materion hyn yn well a sicrhau bod ein risgiau a'n materion yn parhau'n gyson, ni waeth ar ba lefel y cânt eu rheoli.
- **Fideos Hyfforddiant ar Risg:** Gan ddefnyddio ein meddalwedd integredig, rydym wedi datblygu cyfres o fideos hyfforddiant ar risg, o'r enw Risk Bites. Maent wedi'u hanelu at bob lefel defnyddiwr sy'n defnyddio ein meddalwedd risg, er mwyn rhoi mynediad hawdd a chyflym i sesiynau hyfforddiant ar-lein, i sicrhau'r defnydd gorau o'r feddalwedd.
- **Profion Rheolaeth o'r Prif Risgiau:** Datblygwyd rhaglen i adolygu a phrofi'r holl reolaethau sy'n gysylltiedig â'n prif risgiau. Bydd y rhaglen hon yn parhau i gael ei datblygu, gan arwain at adolygiad o'r rheolaethau.
- **Ehangu'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial i gynhyrchu Disgrifiadau Risg:** Mae Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) wedi datblygu rhaglen deallusrwydd artiffisial ffynhonnell gaeedig, yn seiliedig ar ei hanes o adroddiadau archwilio. Mae'r 'Injan Risg' hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu timau risg llinell 1af ac 2il linell i ddatblygu disgrifiadau risg, yn seiliedig ar amcanion busnes.
- **Ategu Dulliau Sganio'r Gorwel:** Rydym wedi datblygu proses baralel i gofnodi'r risgiau sy'n deillio o'r broses strategol gyfredol ar gyfer sganio'r gorwel. Rydym hefyd wedi cefnogi menter i gofnodi risgiau i'r farchnad ynni ehangach, ar wahân i'r rhai sy'n cael eu cofnodi ar hyn o bryd yn erbyn Ofgem.

Adolygodd y bwrdd ein parodrwydd i dderbyn risg a chytunodd ar newidiadau iddo yn ystod y flwyddyn. Gwnaethom barhau i gymhwyso ein parodrwydd i dderbyn risg at risgiau unigol ac i roi gwybod i'r pwyllgor gweithredol am unrhyw risgiau y tu allan i'r lefelau parodrwydd, er mwyn sicrhau y caiff y risgiau hyn eu goruchwylio'n briodol.

Isod ceir trosolwg o risgiau mwyaf sylweddol Ofgem a'r camau gweithredu allweddol a gymerwyd i'w rheoli a'u lliniaru:

## Prif Risgiau

### *Diogelu Defnyddwyr*

Methu â nodi achosion a chymryd camau rheoleiddiol i ddiogelu defnyddwyr mewn perthynas â phrisio teg, dyled a bregusrwydd defnyddwyr gan arwain at golli ymddiriedaeth yn y farchnad ynni manwerthu a niwed i ddefnyddwyr.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Cydgysylltu ar draws y portffolios perthnasol er mwyn sicrhau penderfyniadau cydgysylltiedig a chyson mewn perthynas â defnyddwyr bregus.
- Nodi opsiynau polisi ynghylch safonau i ddefnyddwyr, mesuryddion rhagdalu deallus, credyd cymorth ychwanegol, cyfyngu llwythi a llwybrau dyled.
- Rhannu data a'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau ac adrannau eraill y llywodraeth mewn perthynas â defnyddwyr bregus.
- Ymgysylltu'n rheolaidd â chwmnïau rhwydwaith, gan eu hannog i wneud mwy o dan eu cymhellion presennol i gefnogi cwsmeriaid bregus.
- Caiff adolygiadau cydymffurfiaeth manwerthwyr a chydymffurfiaeth y farchnad eu cynnal er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r rheolau perthnasol sy'n diogelu defnyddwyr â dyledion a'u bod yn helpu i nodi bylchau.
- Ymgysylltu â chyflenwyr ac Energy UK, grwpiau defnyddwyr ac elusennau er mwyn deall yn llawn y materion sy'n effeithio ar gwsmeriaid bregus, cyflwyno eu pryderon i lywodraeth EF ac ystyried beth yn rhagor y gall diwydiant ei wneud i gefnogi cwsmeriaid y mae prisiau cynyddol yn peri risg iddynt.

### *Cydnerthedd y sector ynni*

Methu â gweithredu a gorfodi camau diogelu rheoleiddiol a safonau digonol i gymell marchnad ynni gydnerth a sicrhau diogeledd cyflenwadau i ddefnyddwyr.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Diogelu defnyddwyr drwy ein rôl fel Awdurdod Cymwys ar y cyd â DESNZ drwy ysgogi cynnydd yn nifer y mesurau cydnerthedd seiber a diogelwch ar draws gweithredwyr rheoleiddiedig gwasanaethau hanfodol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen o arolygiadau rheoleiddio 'Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth', i asesu lefel cydnerthedd seiber ym mhob rhan o'r sector, yn ogystal â defnyddio canllawiau ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r diwydiant, gan anelu at gynnal a gwella safonau.
- Datblygu strategaeth ar y cyd i atgyfnerthu cydnerthedd seiber system ynni Prydain Fawr ar y cyd â DESNZ, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a NESO.
- Gwnaethom weithio'n agos gyda'r Grid Cenedlaethol ac ESO cyn iddynt gyhoeddi eu Cynllun Rhagolygon y Gaeaf 2024 i 2025 a chynhaliwyd seminar cyhoeddus y daeth mwy na 300 o randdeiliaid iddo.

### *Cydnerthedd Ariannol*

Gallai defnyddwyr wynebu costau uwch oherwydd (i) bod mwy o fethiannau ariannol na'r nifer a fyddai'n gyson â'n goddefiant risg; (ii) bod y methiannau ariannol sy'n digwydd yn arwain at gostau uwch na'r lefel sy'n dderbyniol yn ein barn ni; neu (iii) bod diffyg buddsoddiadwyedd yn arwain at ddiffyg buddsoddiad.

Rheolaethau/ Cam Lliniaru

- Cynhaliwyd gwaith rheolaidd i sganio'r gorwel a gwerthuso risgiau allanol.
- Ceir cydweithrediad agos â DESNZ a rhanddeiliaid ynghylch cynllunio wrth gefn ar gyfer y Gyfundrefn Gweinyddu Arbennig.
- Mae proses ar waith gennym i gynnal profion straen ar gyflenwyr ac i fonitro cyfalaf a hylifedd yn rheolaidd. Os bydd eu hangen, mae cynlluniau manwl ar waith ar gyfer y broses Cyflenwr Dewis Olaf a'r Gyfundrefn Gweinyddu Arbennig.

- Mae hyn yn cynnwys mwy o waith i oruchwylio'r farchnad a data, er mwyn deall effeithiau yn well a hysbysu Llywodraeth EF er mwyn dylanwadu ar ei hymateb.
- Rydym yn parhau i ddatblygu prosesau cydymffurfiaeth wedi'u teilwra i ymdrin â thrallod ariannol.
- Cwblhau'r adolygiad clustnodi (haf 2026) a pharhau â'r gwaith monitro lefel isel o gydnerthedd ariannol cwmnïau rhwydwaith RIIO.

### *Rhoi cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar waith*

Mae methu â rhoi cynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol ar waith yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n cydymffurfio yn arwain at ddiffyg diddordeb yn y cynlluniau, twyll, effaith andwyol ar enw da ac ymddiriedaeth yn y llywodraeth.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Cytunir ar y strategaeth ar gyfer cynlluniau â'r cyrff cyllido ac mae'n gydnaws â strategaeth ehangach Ofgem er mwyn sicrhau bod ein hamcanion a'n nodau yn gyson. Ymgysylltir yn rheolaidd â'r cyrff cyllido ac mae DPAau perfformiad ar waith er mwyn helpu i nodi materion posibl yn gynnar.
- Cynhelir cylch rheolaidd o adolygu a chymeradwyo cyllidebau â chyllidwyr, ac mae prosesau llywodraethu cadarn ar waith mewn perthynas ag unrhyw geisiadau i newid.
- Darperir hyfforddiant cadarn wedi'i deilwra er mwyn sicrhau y gall ein staff roi ein cynlluniau ar waith yn effeithiol, ac mae gweithdrefnau gweithredu safonol manwl ar waith a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd.
- Mae fframwaith risg a sicrwydd aeddfed a sefydledig ar waith ar gyfer cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys prosesau llywodraethu ac uwchgyfeirio risgiau clir, trafodaethau rheolaidd am risg, gweithdai archwilio dwfn ar risgiau a materion strategol, ac mae rhaglen waith sicrwydd fewnol ar waith sy'n canolbwyntio ar y meysydd risg allweddol drwy gynnal archwiliadau dwfn rheolaidd. Ceir cylch chwarterol o waith sganio'r gorwel hefyd er mwyn mynd ati'n rheolaidd i nodi bygythiadau a chyfleoedd yn gynnar a helpu cydnerthedd.
- Ar gyfer prosiectau, newidiadau a chynlluniau newydd, mae trefniadau llywodraethu ar waith drwy swyddfa rheoli rhaglenni, mae cymorth cyfreithiol penodol ar gael i helpu i ymdrin â materion deddfwriaethol sensitif a chaiff Astudiaethau Dichonoldeb manwl eu cwblhau fel rhan o benderfyniadau i roi cynlluniau newydd ar waith, sy'n ein galluogi i fod yn hyderus ein bod yn gweinyddu'r cynlluniau yn effeithiol.

### *Buddsoddi mewn Seilwaith*

Methu â galluogi buddsoddiad lle mae amser yn ystyriaeth allweddol mewn seilwaith i'r diwydiant i ddiwallu anghenion y system yn y dyfodol, blaenoriaethu a chyflymu buddsoddiadau yn y seilwaith angenrheidiol a'i adeiladu, gan arwain at oedi wrth gyflawni'r targed Sero Net.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Rydym yn gweithio gyda NESO i ddatblygu methodoleg y Cynllun Ynni Gofodol Strategol, gan sicrhau ei fod yn gydnaws â dyletswyddau rheoleiddiol, a diogelu buddiannau defnyddwyr.
- Ymgynghori ar gyflwyno'r Cynllunwyr Strategol Ynni Rhanbarthol, er mwyn gallu datblygu'r system ynni mewn ffordd gydgysylltiedig ar draws sawl fector, rhoi hyder yng ngofynion y system, a'n galluogi i fuddsoddi mewn seilwaith rhwydwaith cyn fod ei angen.
- Cyhoeddi'r fethodoleg ar gyfer y system rheoli prisiau newydd, RIIO-3, ym mis Gorffennaf 2024 a fydd yn darparu dull rheoleiddio cadarn y gellir ei ragfynegi, ond y bydd modd hefyd ei addasu ar gyfer penderfyniadau ac amgylchiadau ansicr ar gyfer y rhwydweithiau trydan y tu hwnt i 2026.
- Ymgynghori ar Fframwaith ED3, gan ystyried amrywiaeth eang o opsiynau dylunio ac a fydd yn nodi ein trefniadau rheoleiddiol ar gyfer y rhwydweithiau dosbarthu trydan lleol cyn cyfnod y system rheoli prisiau nesaf a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2028.
- Parhau i fwrw ati â phrosiectau o dan y rhaglen Buddsoddiadau Trawsyrru Strategol Carlam, sef llwybr carlam ar gyfer prosiectau trawsyrru mawr sy'n cyflymu'r broses gyllido hyd at ddwy flynedd ac sy'n rhan hanfodol o'n taith tuag at Sero Net.

- Cyhoeddi'r penderfyniad i gyflwyno'r Mecanwaith Caffael Uwch i'r system rheoli prisiau trawsyrru trydan. Bydd hyn yn galluogi perchenogion trawsyrru i drefnu capasiti yn y gadwyn gyflenwi yn gynharach na'r trefniadau presennol, gan helpu i gyflawni targedau datgarboneiddio a phŵer glân Prydain Fawr, gan hefyd gefnogi cyfleoedd ehangach ar gyfer twf yn y gadwyn gyflenwi.

### *Pobl a Diwylliant*

Methu â recriwtio a chadw talent â'r sgiliau, amrywiaeth gefndirol ac agwedd priodol, sy'n golygu na all Ofgem gyflawni ein blaengynllun gwaith parhaus.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Lansio strategaeth y gweithlu – mae sicrhau bod elfennau i'w cyflawni o ran pobl yn canolbwyntio ar ein Blaenoriaethau Strategol a'u rhoi ar waith wedi arwain at y camau gweithredu canlynol:
- Gwnaethom newid ein dull o recriwtio staff, gan recriwtio yn ôl proffesiwn, gan ddefnyddio model recriwtio rhagweithiol a gweithgarwch swmp-recriwtio i gefnogi'r niferoedd uwch o staff newydd yr oedd eu hangen i'n galluogi i lenwi'r nifer uchel o swyddi gwag a grëwyd i helpu i roi ein blaengynllun gwaith a'n dyletswyddau ychwanegol ar waith yn effeithiol.
- Mwy o ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys mewn perthynas â phroffesiynau, er mwyn sicrhau bod Ofgem yn cael ei ystyried yn gyflogwr delfrydol.
- Gwaith blaenoriaethu sefydliadol i nodi meysydd gwaith a fydd yn dod i ben – gan ein galluogi i symud cydweithwyr i feysydd blaenoriaeth allweddol.
- Ailwampio'r rhaglen addysg bellach i barhau i feithrin gallu o fewn proffesiynau.
- Parhau i gyflwyno'r rhaglen llesiant staff a sefydlwyd yn 2023-24.

### *Newidiadau mewn Technolegau*

Methu â sefydlu ein fframweithiau rheoleiddiol, olrhain neu fanteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn technolegau ac arloesedd o ran asedau seilwaith neu ddigideiddio neu strwythurau'r farchnad.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Mireinio'r canllawiau Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer y sector ynni, gan adlewyrchu'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad ar y canllawiau drafft ym mis Rhagfyr 2024.
- Datblygu strategaeth ar y cyd i atgyfnerthu cydnerthedd seiber system ynni Prydain Fawr ar y cyd â DESNZ, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a NESO.
- Drwy ein rôl fel Awdurdod Cymwys ar y cyd â DESNZ, mae Ofgem yn parhau i ddiogelu defnyddwyr drwy ysgogi cynnydd yn nifer y mesurau cydnerthedd seiber a diogelwch ar draws gweithredwyr rheoleiddiedig gwasanaethau hanfodol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen o arolygiadau rheoleiddio 'Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth', i asesu lefel cydnerthedd seiber ym mhob rhan o'r sector, yn ogystal â defnyddio canllawiau ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r diwydiant, gan anelu at gynnal a gwella safonau.
- Ymgynghori ar Seilwaith Rhannu Data i hwyluso'r broses o rannu data sensitif yn ddiogel o fewn y sector ynni, sy'n allweddol o ran gweithredu systemau a hwyluso'r farchnad.
- Cydweithio â DESNZ i wella Gwelededd Asedau ers cyhoeddi'r Tasglu Data Ynni. Mae'r rhaglen Cofrestru Asedau Awtomatig a gomisiynwyd gan DESNZ yn adeiladu ar sail dystiolaeth i benderfynu a oes angen 'Cofrestr Asedau Ganolog' ar gyfer asedau trydan bach.
- Ymgynghori ar ddatrysiad cydsynio newydd i ddefnyddwyr.

### *Perfformiad y Farchnad Ynni*

Bydd methiannau perfformiad a/ neu elw gormodol cwmnïau rhwydwaith yn arwain at sefyllfa lle bydd y cyhoedd yn colli hyder yng ngallu Ofgem i reoleiddio seilwaith ynni gan gael effaith andwyol ar ei enw da

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Dwyn cwmnïau rhwydwaith i gyfrif am ddarparu mewn modd amserol drwy'r rhaglen Buddsoddiadau Trawsyrru Strategol Carlam.
- Sefydlwyd partneriaeth deiran rhwng NCSC, Ofgem a DESNZ i gytuno ar rolau a chyfrifoldebau ac i ddatblygu strategaeth gydgysylltiedig.
- Mae prosesau monitro blynyddol ar waith drwy system adrodd reoleiddiol.

## Barn Sicrwydd Archwilio Mewnol

Cwblhaodd ein Harchwilydd Mewnol, Forvis Mazars LLP, amserlen y cytunwyd arni o adolygiadau yn ystod y flwyddyn. Cawsant eu nodi drwy waith cynllunio Archwilio Mewnol seiliedig ar risg a chyfweliadau â rheolwyr Ofgem a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Ym mis Rhagfyr 2024, cynhaliwyd Asesiad Ansawdd Allanol ar gyfer Forvis Mazars. Cadarnhaodd yr asesiad hwn fod Forvis Mazars yn cydymffurfio'n gyffredinol â safonau proffesiynol. Dyma'r lefel uchaf o sicrwydd y gellir ei chyflawni.

Ar sail ei waith archwilio, mae Forvis Mazars o'r farn bod y fframwaith llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth yn Gymedrol o ran ei ddigonolrwydd a'i effeithiolrwydd cyffredinol.

Er nad yw'r farn archwilio mewnol flynyddol wedi newid ers y flwyddyn flaenorol, mae'n bwysig nodi na roddwyd unrhyw farnau sicrwydd Cyfyngedig yn 2024-25, o gymharu â tair yn 2023-24, gan nodi tuedd cadarnhaol. Rhoddwyd barn sicrwydd 'sylweddol' ar gyfer dau archwiliad mewnol; Prosiect RIIO-3 a Recriwtio. Y farn a roddwyd ar gyfer gweddill yr archwiliadau mewnol yn ystod y flwyddyn oedd Cymedrol.

Tynnodd yr archwiliadau mewnol sylw at rai gwendidau ac eithriadau. Ni chodwyd unrhyw ganfyddiadau â blaenoriaeth 'Uchel', ond codwyd cyfanswm o 20 o ganfyddiadau â blaenoriaeth 'Canolig'. Trafodwyd y materion hyn â'r rheolwyr, ac mae'r archwilwyr mewnol wedi gwneud sawl argymhelliad iddynt. Mae pob argymhelliad wedi cael ei roi ar waith, neu wrthi'n cael ei roi ar waith.

Roedd y canfyddiadau cyffredin a nodwyd yn ystod archwiliadau 2024-25 fel a ganlyn:

- Cyfyngiadau o ran adnoddau a chynllunio – nodwyd mewn pedwar adroddiad, ac roedd yn thema gyffredin a nodwyd ar draws y sector cyhoeddus yn ehangach
- Prosesau llaw a chyfyngiadau systemau – nodwyd dibyniaeth ar brosesau llaw a chyfyngiadau o ran swyddogaethau systemau mewn dau adroddiad
- Prosesau anghyson ar gyfer rheoli risg – nodwyd mewn tri adroddiad bod rhai anghysondebau o ran gweithredu'r fframwaith risg

Roedd y canfyddiadau cyffredin a nodwyd yn flaenorol, lle nodwyd gwelliant a chefnogwyd y ddau archwiliad a gafodd radd "sylweddol" fel a ganlyn:

- Rhaglenni hyfforddi a sefydlu – mae hyfforddiant rheolaidd ar waith i staff newydd mewn timau perthnasol a threfniadau sefydlu i newydd-ddyfodiaid
- Dogfennaeth gynhwysfawr – mae dogfennaeth allweddol ar waith gan gynnwys canllawiau a gweithdrefnau.
- Mae strwythurau llywodraethu clir ar waith

Ym mis Rhagfyr 2024, cynhaliwyd Asesiad Ansawdd Allanol (EQA) ar gyfer Forvis Mazars. Cadarnhaodd hyn fod Forvis Mazars yn "cydymffurfio'n gyffredinol" â safonau proffesiynol. Dyma'r sgôr uchaf y gellir ei chyflawni.

## Sicrhau Ansawdd modelau dadansoddol

Parhaodd Ofgem i gynnal prosesau sicrhau ansawdd mewn perthynas â gwaith dadansoddi'r adran. Mae hyn yn cynnwys helpu timau polisi i ddatblygu ac adolygu eu gwaith dadansoddi, gan gynnwys modelau sy'n allweddol i'r busnes, modelau eraill, gwerthuso, dadansoddi costau a manteision ac asesiadau effaith.

Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd Ofgem yn dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF yn ei adolygiad yn 2013. Mae hyn yn parhau i sicrhau bod gwaith dadansoddi Ofgem yn gywir, yn gadarn ac yn cyrraedd y safonau uchaf.

## Achosion mewnol o chwythu'r chwiban yn Ofgem

Mae polisi chwythu'r chwiban mewnol Ofgem yn cynnig proses i'r staff godi unrhyw bryderon chwythu'r chwiban ac yn cefnogi ein diwylliant lle mae cyflogeion yn teimlo'n hyderus i godi materion sy'n achos pryder mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Mae ein polisi yn gyson â'r argymhellion a'r arferion da a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Sifil a Protect. Codwyd dau fater o dan y polisi hwn yn ystod y flwyddyn.

## Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol

Cafodd 43 o achosion lle cynhaliwyd ymchwiliadau sylfaenol eu derbyn gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn ystod 2024-25, ac nid oedd unrhyw achosion a oedd ar agor o hyd ers y flwyddyn flaenorol.

Ni chafodd unrhyw achosion eu cadarnhau'n rhannol nac yn llawn. Penderfynwyd peidio â chadarnhau 29 o achosion. Mae 14 o achosion lle cynhaliwyd ymchwiliad sylfaenol yn mynd rhagddynt o hyd yn 2025.

## Adolygiadau annibynnol

Fel y nodwyd yn yr Adroddiad ar Berfformiad, cyhoeddodd DESNZ ym mis Rhagfyr 2024 y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o Ofgem, a disgwylir i'r canfyddiadau gael eu cyhoeddi yn ystod 2025-26.

Cynhaliwyd adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod 2024-25. Ceir rhagor o fanylion yn adroddiad y cyfarwyddwyr ar dudalen 42.

## Casgliad

ThMae perchenogion y prif risgiau yn hyderus iawn bod trefniadau llywodraethu da a chyfres o weithgareddau mewnol ac allanol da ar waith i roi sicrwydd da ac i fonitro meysydd risg allweddol Ofgem.

Ar y cyfan, aseswyd bod lefel sicrwydd "gymedrol" o ran cydymffurfiaeth â pholisïau a phrosesau corfforaethol yn ystod y flwyddyn, ond nid yw hynny'n adlewyrchu'n llawn y gwelliannau a wnaed yn erbyn cyd-destun heriol o flaenoriaethau sy'n cystadlu. Mae rhai meysydd yn Ofgem yr aseswyd yn flaenorol nad oeddent mor aeddfed o ran rheoli risg wedi atgyfnerthu eu dull gweithredu ac wedi gwella eu haeddfedrwydd yn ystod 2024-25 er mwyn sicrhau gwell cysondeb. Er bod potensial i wella effeithlonrwydd, y mae rhai enghreifftiau yn destun buddsoddiad arfaethedig yn systemau corfforaethol Ofgem, mae'r amgylchedd rheolaeth cyffredinol yn parhau'n effeithiol.

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith am y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth sy'n ategu'r datganiad hwn ar Lywodraethu, gan gynnwys tystiolaeth o strwythurau llywodraethu'r adran a'r cyngor annibynnol a roddwyd gan ARAC a'r Archwilwyr mewnol. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod yr adran wedi rheoli risgiau yn effeithiol ac wedi gwella sicrwydd yn ystod 2024-25 a dof i'r casgliad bod gan Ofgem systemau llywodraethu a rheoli risg boddhaol ar waith



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr
14 Gorffennaf 2025

# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

## Adroddiad ar gydnabyddiaeth

### Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod a thrwy gystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi dan be amgylchiadau y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall isod, mae'r swyddogion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n ben agored. Byddai terfynu penodiad yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn
www.civilservicecommission.org.uk

### Polisi Cydnabyddiaeth

Nodir cydnabyddiaeth pob un o'r cyflogeion yn eu contractau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol yn unol â'r dyfarniadau y cytunwyd arnynt gan Swyddfa'r Cabinet ac, ar gyfer uwch-weision sifil, yn unol ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Ar wahân i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cydnerthedd Ariannol a Rheolaethau, mae pob un o'n huwch-gyflogeion yn aelodau parhaol o staff. Nid oes gan yr un ohonynt gyfnod rhybudd sy'n hwy na chwe mis.

Mae pob aelod parhaol o staff yn yr Uwch Dîm Rheoli yn gymwys i fod yn rhan o

gynllun bonws sy'n unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae'r bonws yn seiliedig ar berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn rhai ar wahân i gyflog ac nid ydynt yn bensiynadwy.

### Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn nodi manylion am gydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn y rheolwyr ar y lefel uchaf (h.y., aelodau'r Bwrdd) yn yr adran.

## Un cyfanswm ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol (archwiliedig

| | Cyflog (£000) 2024-2025 | Cyflog (£000) 2023-2024 | Taliadau Bonws (£000) 2024-2025 | Taliadau Bonws (£000) 2023-2024 | Buddian-nau mewn da (i'r £00 agosaf) 2024-2025 | Buddian-nau mewn da (i'r £00 agosaf) 2023-2024 | Buddi-annau Pensiwn (i'r £000 agosaf) 2024-2025* | Buddian-nau Pensiwn (i'r £000 agosaf) 2023-2024* | Cyfanswm (£000) 2024-2025 | Cyfanswm (£000) 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau'r Uwch-bwyllgor Gweithredol (Nodyn 1)** | | | | | | | | | | |
| Jonathan Brearley | 205-210 | 200-205 | 5-10 | 5-10 | - | - | 94,000 | 116,000 | 310-315 | 320-325 |
| Melinda Johnson | 190-195 | 115-120 | 0-5 | 0-5 | - | - | 149,000 | 60,000 | 340-345 | 175-180 |
| Tim Jarvis | 145-150 | 80-85 | 5-10 | 0-5 | - | - | 138,000 | 70,000 | 290-295 | 150-155 |
| Akshay Kaul | 150-155 | 140-145 | 5-10 | 5-10 | - | - | 59,000 | 55,000 | 215-220 | 200-205 |
| Neil Lawrence | 155-160 | 150-155 | 0-5 | 5-10 | - | - | 61,000 | 58,000 | 215-220 | 215-220 |
| Neil Kenward | 135-140 | 120-125 | 10-15 | 10-15 | - | - | 151,000 | 72,000 | 300-305 | 200-205 |
| Priya Brahmbhatt-Patel | 135-140 | 120-125 | 10-15 | 5-10 | - | - | 143,000 | 70,000 | 290-295 | 195-200 |
| Sinead Murray | 140-145 | 130-135 | 10-15 | 10-15 | - | - | 95,000 | 56,000 | 245-250 | 195-200 |
| **Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol (Nodyn 2)** | | | | | | | | | | |
| Cathryn Scott | - | 50-55 | - | - | - | - | - | 76,000 | - | 130-135 |
| Eleanor Warbuton | - | 30-35 | - | - | - | - | - | 27,000 | - | 60-65 |
| Peter Bingham | - | 45-50 | - | - | - | - | - | 18,000 | - | 65-70 |
| Philippa Pickford | - | 25-30 | - | - | - | - | - | 79,000 | - | 105-110 |
| Rebecca Barnett | - | 45-50 | - | 5-10 | - | - | - | 15,000 | - | 65-70 |
| Richard Smith | - | 55-60 | - | - | - | - | - | 31,000 | - | 85-90 |
| Stuart Okin | - | 35-40 | - | 0-5 | - | - | - | 20,000 | - | 60-65 |

| | Cyflog (£000) 2024-2025 | Cyflog (£000) 2023-2024 | Taliadau Bonws (£000) 2024-2025 | Taliadau Bonws (£000) 2023-2024 | Buddian-nau mewn da (i'r £00 agosaf) 2024-2025 | Buddian-nau mewn da (i'r £00 agosaf) 2023-2024 | Buddi-annau Pensiwn (i'r £000 agosaf) 2024-2025* | Buddian-nau Pensiwn (i'r £000 agosaf) 2023-2024* | Cyfanswm (£000) 2024-2025 | Cyfanswm (£000) 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau anweithredol yr Awdurdod (Nodyn 3)** | | | | | | | | | | |
| Mark McAllister (Cadeirydd) | 170-175 | 65-70 | - | - | - | - | - | - | 170-175 | 65-70 |
| Martin Cave (cyn Gadeirydd) | - | 95-100 | - | - | - | - | - | - | - | 95-100 |

*Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu leihad sydd i'w briodoli i drosglwyddo hawliau pensiwn.

Nodyn 1: Penodwyd Melinda Johnson yn Brif Swyddog Gweithredu o 7 Awst 2023 gyda chyflog blwyddyn lawn cyfatebol yn 2023-24 o £180,000-£185.000. Penodwyd Tim Jarvis yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, Marchnadoedd o 4 Medi 2023 gyda chyflog blwyddyn lawn cyfatebol yn 2023-24 o £135,000-£140,000.

Nodyn 2: Yn ystod 2023-24, rhoddwyd strwythur llywodraethu newydd ar waith. Roedd y Pwyllgor Gweithredol ar waith tan ddiwedd mis Awst 2023 a chafodd ei ddisodli gan yr Uwch-bwyllgor Gweithredol o 1 Medi 2023. Dim ond ar gyfer y cyfnodau pan oeddent yn gweithredu fel rhan o'r Pwyllgor Gweithredol y cofnodir y gydnabyddiaeth a'r buddiannau pensiwn a ddangosir yn y tabl ar gyfer y cyfarwyddwyr rhestredig, h.y. 1 Ebrill 2023-30 Awst 2023, ac eithrio Stuart Okina a ddaeth yn aelod o'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Mehefin 2023 a Phillippa Pickford a adawodd ar 16 Gorffennaf 2023. Mae pob aelod o'r Pwyllgor Gweithredol gynt yn parhau yn eu swydd (ac eithrio Richard Smith a adawodd ar 1 Tachwedd 2023 a Rebecca Barnet a adawodd ar 14 Gorffennaf 2024) ond na wnaethant wasanaethu ar fwrdd yn ystod 2024-25. Ceir rhagor o fanylion am y byrddau yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Nodyn 3: Yn ystod 2023-24, newidiodd y Cadeirydd. Martin Cave oedd y Cadeirydd tan 15 Tachwedd 2023, gyda chyflog blwyddyn lawn cyfatebol o £160,000-£165,000. Ymunodd Mark McAllister fel Cadeirydd ar 6 Tachwedd 2023, gyda chyflog blwyddyn lawn cyfatebol yn 2023-24 o £170,000-£175,000.

## Cydnabyddiaeth aelodau anweithredol eraill o'r Awdurdod

| | Honorariwm 2024-2025 | Lwfans 2024-2025 | Honorariwm 2023-24 | Lwfans 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| Lynne Embleton | - | - | £13,333 | £3,250 |
| John Crackett | £1,720 | £0 | £20,000 | £0 |
| Myriam Madden | £20,000 | £3,000 | £20,000 | £3,000 |
| Barry Panayi | £20,000 | £0 | £20,000 | £0 |
| Warren Buckley | £20,000 | £3,000 | £8,055 | £448 |
| Tony Curzon Price | £20,000 | £0 | £8,055 | £0 |
| Jonathan Kini | £20,000 | £0 | £8,055 | £0 |
| Alena Kozakova | £20,000 | £0 | £8,055 | £0 |
| Graham Mather | £20,000 | £0 | £8,055 | £0 |

Daeth cyfnod Lynne Embleton yn ei swydd i ben ar 30 Tachwedd 2023. Y ffigurau cyfatebol blynyddol oedd honorariwm o £20,000 a lwfans o £3,000.

Daeth cyfnod John Crackett yn ei swydd i ben ar 01 Mai 2024, y ffigurau cyfatebol blynyddol yw honorariwm o £20,000. Nid oedd unrhyw lwfans.

Gweithiodd Nick Winser fel cynghorydd i'r Bwrdd rhwng 6 Mehefin 2024 a 31 Mawrth 2025 a thalwyd £16,338 iddo (ffigur cyfatebol blynyddol o £20,000).

## Cydnabyddiaeth aelodau'r Panel Penderfyniadau Gorfodi (EDP)

| | 2024-2025 (£000) | 2023-2024 (£000) |
|---|---|---|
| Megan Forbes | 0-5 | 10-15 |
| Peter Hinchliffe | 10-15 | 30-35 |
| Dr Ulrike Hotopp | 5-10 | 5-10 |
| Ali Nikpay | 0-5 | 0-5 |
| Dr Philip Marsden | - | 0-5 |
| Andrew Ellam | 0-5 | 0-5 |
| Juliet Lazarus | 5-10 | 0-5 |
| David Ashbourne | 15-20 | 0-5 |

Daeth cyfnod Dr Philip Marsden yn ei swydd i ben ym mis Mai 2023. Ymunodd Juliet Lazarus â'r panel ym mis Ionawr 2024 ac ymunodd David Ashbourne â'r panel ym mis Chwefror 2024.

Mae'r Panel Penderfyniadau Gorfodi yn gweithredu ag awdurdod dirprwyedig gan yr Awdurdod; felly, caiff aelodau'r Panel eu penodi fel cyflogeion Ofgem.

Caiff aelodau'r Panel eu penodi am gyfnodau sy'n amrywio rhwng 3 blynedd a 5 mlynedd. Disgwylir iddynt ymrwymo cyfanswm o ryw 25 diwrnod y flwyddyn, gan ddibynnu ar nifer yr achosion dan sylw. Caiff yr aelodau gydnabyddiaeth yn seiliedig ar yr oriau a weithir (ond gan ennill o leiaf £1,000 y flwyddyn). Fel cyflogeion, mae aelodau'r Panel yn ymuno â chynllun pensiwn Alpha'r Gwasanaeth Sifil yn awtomatig (gyda'r opsiwn i optio allan). Nid oes unrhyw ofynion o ran isafswm enillion i fod yn aelod o gynllun pensiwn Alpha.

Yn ogystal â'r gydnabyddiaeth a ddangosir yn y tabl uchod, i'r £000 agosaf, cafodd Megan Forbes fuddiannau pensiwn o £dim (2023-24: £4,000), cafodd Juliet Lazarus fuddiannau pensiwn o £2,000 (2023-24: £1,000), a chafodd David Ashbourne fuddiannau pensiwn o £6,000 (2023-24: £dim).

## Cyflog

ae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros; goramser; lwfansau swyddi preifat; ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n drethadwy yn y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan yr Adran ac fel y'u cofnodir yn y cyfrifon hyn.

## Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddiannau a ddarperir gan yr Adran ac a gaiff eu trin gan Cyllid a Thollau EF yn dâl trethadwy.

## Bonysau (archwiliedig)

Mae bonysau yn seiliedig ar lefelau perfformiad a gyrhaeddir a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu.

Mae taliadau bonws yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod y flwyddyn pan ddônt yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau perfformiad diwedd blwyddyn a dalwyd yn 2024-25 yn ymwneud â pherfformiad yn 2023-24, ac mae'r bonysau cymharol a gofnodwyd ar gyfer 2023-24 yn ymwneud â'r perfformiad yn 2022-23.

Yn 2024-25, roedd 1,663 o staff (2023-24: 1,233 o staff) a gafodd fonws. Y taliad bonws cyfartalog oedd £1,169 (2023-24: £1,157) ac roedd y cyfanswm a dalwyd mewn bonysau yn cyfateb i £1,944,292 (2023-24: £1,426,913). Un unigolyn a gafodd y cyfanswm taliad bonws mwyaf, sef £10,590 (2023-24: cafodd dau unigolyn y bonws mwyaf, sef £10,500).

## Lluosrifau cyflog (archwiliedig)

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol chwartel isaf, canolrifol a chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad. Cydnabyddiaeth ariannol blwyddyn lawn gyfatebol wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 oedd £215,000-£220,000 (2023/24: £205,000-£210,000). Mae'r tabl isod yn dangos cymarebau canolbwynt cydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf, i ffigurau tâl a buddiannau'r cyflogeion y mae eu tâl a'u buddiannau ar 25ain, 50ain a 75ain canradd cyflogeion Ofgem.

| | Cymhareb Tâl y 25ain Ganradd (Chwartel Isaf) | Cymhareb Tâl y 50ain Ganradd (Canolrif) | Cymhareb Tâl y 75ain Ganradd (Chwartel Uchaf) |
|---|---|---|---|
| 2024-25 | 6.14:1 | 4.39:1 | 3.40:1 |
| 2023-24 (ailddatganwyd) | 6.35:1 | 4.59:1 | 3.50:1 |

Ailddatganwyd ffigurau 2023-24 gan eu bod yn cyfeirio at gyflog sylfaenol yn unig yn hytrach na chyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol.

Mae'r cymarebau cyflog wedi lleihau o gymharu â 2023/24. Gellir priodoli hyn i'r cynnydd cyffredinol mewn cyflogau a buddiannau i gyflogeion Ofgem yr ystyrir ei fod ar y cyfan yn uwch na'r cynnydd o ran cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.

Mae cyfanswm tâl a buddiannau 2024-25, ac elfen cyflog cyfanswm tâl a buddiannau, y cyflogeion ar y 25ain, 50ain a 75ain canradd wedi'u nodi isod:

| | 25ain Ganradd (Chwartel Isaf) £ | 50th Percentile (Median) £ | 75th Percentile (Upper Quartile) £ |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm tâl a buddiannau 2024-25 | £ | 50ain Ganradd (Canolrif) | 63,318 |
| Cyfanswm tâl a buddiannau 2023-24 (ailddatganwyd) | £ | 75ain Ganradd (Chwartel Uchaf) | 59,999 |
| Elfen cyflog cyfanswm tâl a buddiannau 2024-25 | £ | 47,895 | 61,446 |
| Elfen cyflog cyfanswm tâl a buddiannau 2023-24 (ailddatganwyd) | 32,498 | 45,077 | 59,999 |

Yn 2024-25, cafwyd cynnydd o 2023-24 yng nghyflog a lwfansau blwyddyn lawn cyfatebol y cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf. Y newid canrannol cyfartalog o 2023-24 yng nghyflog a lwfansau cyflogeion Ofgem yn gyffredinol oedd cynnydd o 6.98%, ac yn y tâl a'r bonysau perfformiad a oedd yn daladwy, cynnydd o 24.35%.

Yn 2024-25, ni chafodd unrhyw un (2023-24: dim) o gyflogeion Ofgem gydnabyddiaeth yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf. Roedd cydnabyddiaeth cyflogeion yn amrywio o £20,000 i £215,000 (2023-24: £20,000 i £210,000).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

## Buddiannau pensiwn (archwiliedig)

| | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31/3/25 a chyfandaliad cysylltiedig (£000) | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn (£000) | CETV ar 31/3/25 (£000) | CETV ar 31/3/24* (£000) | Cynnydd gwirioned-dol mewn CETV (£000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Jonathan Brearley Prif Weithredwr | 55-60 ynghyd â chyfandaliad o 130-135 | 5-7.5 ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 1,207 | 1,082 | 66 |
| Akshay Kaul | 25-30 | 2.5-5 | 378 | 303 | 38 |
| Melinda Johnson | 65-70 | 7.5-10 | 1,393 | 1,191 | 140 |
| Neil Kenward | 45-50 ynghyd â chyfandaliad o 110-115 | 5-7.5 ynghyd â chyfandaliad o 12.5-15 | 987 | 814 | 133 |
| Neil Lawrence | 10-15 | 2.5-5 | 195 | 133 | 38 |
| Priya Brahmbhatt-Patel | 45-50 | 7.5-10 | 822 | 676 | 110 |
| Sinead Murray | 50-55 ynghyd â chyfandaliad o 75-80 | 5-7.5 ynghyd â chyfandaliad o 5-7.5 | 990 | 859 | 77 |
| Tim Jarvis | 60-65 | 5-7.5 | 1,238 | 1,061 | 127 |

*Mae buddiannau pensiwn unrhyw aelodau yr effeithiwyd arnynt gan rwymedi pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus a gofnodwyd yn 2022-23 yn seiliedig ar aelodaeth alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi cael eu cofnodi ers 2023-24 yn seiliedig ar aelodaeth PCSPS ar gyfer yr un cyfnod.

### Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun.

Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn

buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Adroddiad staff

## Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (archwiliedig)

Roedd nifer y staff cyfwerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Staff a gyflogir yn barhaol 2024-25 | Eraill 2024-25 | Cyfanswm 2024-25 | Cyfanswm 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio | 872 | 28 | 900 | 724 |
| Cyflawni a Chynlluniau | 716 | 54 | 770 | 671 |
| Gwasanaethau Corfforaethol a Chanolog | 522 | 84 | 606 | 490 |
| **Total** | **2,110** | **166** | **2,276** | **1,885** |

Ailddatganwyd rhaniad 2023-24 rhwng gwasanaethau rheoleiddiol a chorfforaethol a chanolog er mwyn cysoni'r segmentau gweithredu yr adroddir arnynt yn nodyn 2 o'r cyfrifon.

Roedd cyfartaledd o 98 (2023-24: 69) o bobl cyfwerth ag amser llawn yng ngradd yr Uwch Wasanaeth Sifil yn ystod y flwyddyn. O'u plith, roedd 72 (2023-24: 55) ym mand cyflog 1, 22 (2023-24: 11) ym mand cyflog 2, a 4 (2023-24: 3) ym mand cyflog 3.

## Costau staff (archwiliedig)

Mae costau staff yn cynnwys:

| | Staff a gyflogir yn barhaol 2024-25 (£000) | Eraill 2024-25 (£000) | Cyfanswm 2024-25 (£000) | Cyfanswm 2023-24 (£000) |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 103,767 | 15,795 | 119,562 | 96,631 |
| Costau nawdd cym-deithasol | 11,726 | 630 | 12,356 | 10,157 |
| Costau pensiwn eraill | 27,995 | 1,363 | 29,358 | 23,212 |
| Costau staff eraill | 177 | - | 177 | 33 |
| Ardoll Brentisiaethau (gwariant treth) | 539 | - | 539 | 437 |
| **Cyfanswm** | **144,204** | **17,788** | **161,992** | **130,470** |

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu'n sawl adran wahanol - classic, premium, a classic plus sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol, ond mae nuvos yn darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa. Ymunodd bron bob gwas sifil newydd ei benodi, a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes yn weision sifil â'r cynllun newydd. .

Cynlluniau statudol nas ariennir yw PCSPS ac alpha. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05%, gan ddibynnu ar gyflog). Caiff balans cost y buddiannau sy'n cael eu talu ei dalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff y pensiynau sy'n cael eu talu eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn hytrach na'r trefniadau buddiannau diffiniedig, gall cyflogeion ddewis pensiwn cyfraniadau diffiniedig â chyfraniad gan y cyflogwr, sef y cyfrif pensiwn partneriaeth.

Yn alpha, mae'r pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, a chaiff y cyfanswm a gronnir ei addasu bob blwyddyn yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Cafodd buddiannau PCSPS pob aelod a newidiodd i alpha o PSCPS eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu buddiannau yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Y pensiynau cronedig a nodir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu'n hŷn na hynny. Chwe deg yw'r oedran pensiwn arferol ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 oed ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, i aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan aelod fuddiannau yn y PCSPS ac alpha, mae'r ffigurau yn dangos gwerth cyfun ei fuddiannau yn y ddau gynllun ond noder y gall rhannau cyfansawdd y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau a oedd eisoes yn rhan o'r cynllun yn wahanol yn seiliedig ar eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn o'r PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i alpha. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod trefniadau trosiannol cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau ("dyfarniad McCloud").

O ganlyniad, mae camau yn cael eu cymryd i unioni'r diwygiadau hynny a wnaed yn 2015, er mwyn sicrhau bod darpariaethau cynlluniau pensiwn yn deg i bob aelod. Mae remedy Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn cynnwys dwy ran. Yn sgil y rhan gyntaf, caeodd y PCSPS ar 31 Mawrth 2022, a daeth pob aelod gweithredol yn aelod o alpha o 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r achos o wahaniaethu ar sail oedran ar gyfer cyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023.

Cyfrifwyd y buddiannau pensiwn cronedig, y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a'r cyfanswm cydnabyddiaeth unigol a gofnodwyd ar gyfer unrhyw unigolyn yr effeithiodd Rhwymedi Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus arno yn seiliedig ar gynnwys yr unigolyn hwnnw yn y PSCPS ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae Rhwymedi Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail dros y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol a effeithiodd ar yr aelodau sydd wedi cael eu dychwelyd i'r PCSPS ar gyfer cyfnod y rhwymedi a bydd hynny'n gymwys oni fydd yr aelod yn arfer ei hawl adeg ymddeol i benderfynu derbyn y buddiannau a gyfrifwyd o dan delerau cynllun alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022

Mae'r Cynllun yn dal i ystyried effaith bosibl dyfarniadau'r Uchel Lys a'r Llys Apêl yn achos ymgyfreitha Virgin Media (VM). Mae achos ymgyfreitha VM yn ymwneud â diwygiadau a wnaed i gynlluniau'r sector preifat yn hytrach na'r gwasanaeth cyhoedd ac o ganlyniad, nid yw'n ymdrin yn benodol ag a oes angen cadarnhad o dan adran 37 ar gyfer y diwygiadau perthnasol a wnaed i gynlluniau gwasanaeth cyhoeddus.

Byddai diwygiadau i gynlluniau gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y cyfnod perthnasol wedi cael eu gwneud gan ddeddfwriaeth (h.y. gan ddeddfwriaeth sylfaenol neu reoliadau). Y sefyllfa gyffredinol mewn cyfraith gyhoeddus yw bod deddfwriaeth yn parhau'n ddeddf ddilys hyd nes y caiff ei dirymu neu ei diddymu gan ddeddfwriaeth ddilynol neu yn achos rheoliadau,

ei datgan yn annilys gan lys. Felly mae'r Cynllun yn dal i weinyddu buddiannau a chydnabod rhwymedigaethau yn unol â'r rheoliadau perthnasol sydd ar waith ar hyn o bryd i gynlluniau.

Ar gyfer 2024-25, roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £29,563,560 yn daladwy i'r PCSPS (2023-24: £22,940,594) ar gyfradd o 28.97% o'r enillion pensiynadwy.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiynau cyfraniadau diffiniedig sy'n rhan o ymddiriedolaeth Legal & General Master. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Talwyd cyfraniadau cyflogwr

o £383,603 (2023-24: £270,140) i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig.

Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, telir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall, £15,348 (2023-24: £11,255) o gyflog pensiynadwy i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £52,780 (2023-24: £34,783). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw (2023-24: dim).

Ni wnaeth neb (2023-24: neb) ymddeol yn gynnar oherwydd salwch; ni chronnwyd unrhyw rwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn ystod y flwyddyn (2023-24: dim).

## Gwariant ar wasanaethau ymgynghori

Ein gwariant ar wasanaethau ymgynghori yn 2024-25 oedd £15.7 miliwn, yn unol â nodyn 3 o'r cyfrifon (2023-24: £18.8 miliwn; 2022-23: £29.6 miliwn). Yn unol â disgwyliadau'r Canghellor, rydym wedi cyflwyno rheolaethau i sicrhau mai dim ond lle y cafodd ei herio ac yr ystyriwyd ei fod yn hanfodol y caiff arian ei wario. Rydym yn ceisio lleihau ein dibyniaeth ar gymorth allanol drwy gynnal ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein strategaeth. Rydym yn parhau i ddefnyddio cymorth gwasanaethau proffesiynol i gael gafael ar arbenigwyr sy'n rhoi cyngor proffesiynol neu gyfreithiol mewn perthynas â chyflawni ein portffolio o waith, yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi cymorth cyflawni arbenigol lle nad yw'n ddarbodus cynnal yr arbenigedd hwn yn fewnol.

## Penodeion nad ydynt ar y gyflogres

Ymrwymiadau o ran gweithwyr nad ydynt ar y gyflogres y telir symiau uchel iddynt ar 31 Mawrth 2025, sy'n ennill £245 (nodyn 1) neu fwy fesul diwrnod:

| | **Nifer** |
|---|---|
| Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2025 | - |
| O'u plith, y nifer a oedd yn bodoli: | |
| am lai na blwyddyn | - |
| rhwng blwyddyn a dwy flynedd | - |
| rhwng dwy a thair blynedd | - |
| rhwng tair a phedair blynedd | - |
| am bedair blynedd neu fwy | - |

Pob gweithiwr nad yw ar y gyflogres y telir swm uchel iddo a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, sy'n ennill £245 neu fwy fesul diwrnod: :

| | Nifer |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr dros dro nad ydynt ar y gyflogres (nodyn 2) a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | - |
| O'u plith: | |
| Nid oeddent yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres | - |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac yn cael eu hystyried o fewn cwmpas IR35 | - |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac yn cael eu hystyried o fewn cwmpas IR35 | - |
| Nifer y penodiadau a ailaseswyd at ddiben cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | - |
| O'u plith: Nifer yr ymrwymiadau a welodd newid i statws IR35 ar ôl yr adolygiad | - |

Ar gyfer unrhyw ymrwymiad o ran aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025:

| | Nifer |
|---|---|
| Nifer ymrwymiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol | - |
| Cyfanswm nifer yr unigolion sydd ar y gyflogres ac nad ydynt ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn 'aelodau'r bwrdd, a /neu'n uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol' yn ystod y flwyddyn ariannol | 2 |

Nodyn 1: Mae'r trothwy £245 wedi'i bennu i fod yn agos at bwynt isaf y raddfa gyflog ar gyfer Uwch Was Sifil.

Nodyn 2: Bydd gweithiwr sy'n darparu ei wasanaethau drwy ei gwmni cyfyngedig ei hun neu fath arall o gwmni cyfryngol i'r cleient yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres, a rhaid i'r endid gynnal asesiad i benderfynu a yw'r gweithiwr hwnnw o fewn cwmpas deddfwriaeth cyfryngwyr (IR35) neu y tu allan i'r cwmpas hwnnw at ddibenion treth.

## Amser cyfleuster undeb llafur

Daeth Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 i rym ar

Ebrill 1. Mae'r rheoliadau hyn yn gosod gofyniad deddfwriaethol ar gyflogwyr perthnasol yn y sector cyhoeddus i gasglu a chyhoeddi amrywiaeth o ddata ar gyfanswm a chost amser cyfleuster o fewn eu sefydliad yn flynyddol.

## Swyddogion undeb perthnasol

Cyfanswm nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025:

| | Nifer |
|---|---|
| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | 21 |
| Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn | 20.73 |

## Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

Ar gyfer cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, canran eu horiau gwaith a dreuliwyd ar amser cyfleuster:

| | Nifer |
|---|---|
| 0% | 2 |
| 1-50% | 19 |
| 51-99% | 0 |
| 100% | 0 |

## Canran y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster

Ar gyfer cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, canran y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster:

| | £/% |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £45,148 |
| Cyfanswm y bil cyflogau | £162 million |
| Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster | 0.03% |

## Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Ar gyfer cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, canran yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur.

Canran yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl oedd dim.

## Adrodd ar gynlluniau'r gwasanaeth sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael (archwiliedig)

| Band costau pecyn ymadael | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol 2024-25 | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt 2024-25 | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau 2024-25 | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol 2023-24 | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt 2023-24 | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| <£10,000 | - | - | - | - | - | - |
| £10,000-£25,000 | - | - | - | - | - | - |
| £25,000-£50,000 | - | - | - | - | - | - |
| £50,000-£100,000 | - | 4 | 4 | - | 2 | 2 |
| £100,000-£150,000 | - | - | - | - | - | - |
| £150,000-£200,000 | - | - | - | - | - | - |
| £200,000-£250,000 | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | - | 4 | 4 | - | 2 | 2 |
| Cyfanswm y gost £000 | - | 323 | 323 | - | 133 | 133 |

Talwyd costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (CSCS), cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd iddynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2024-25 (nodir ffigurau cymharol 2023-24 hefyd).

Lle bydd yr adran wedi cytuno i ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan yr adran, nid drwy gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Cyfansoddiad y Staff

Mae'r tabl isod yn dangos cyfansoddiad y staff ar 31 Mawrth 2025.

| Cyfansoddiad y staff (ar 31 Mawrth 2025) | Cyfanswm y menywod | Canran | Cyfanswm y dynion | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Pob cyflogai | 1,032 | 46% | 1,205 | 54% |
| Band Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil | 34 | 47% | 38 | 53% |
| Band Cyflog 2 yr Uwch Wasanaeth Sifil | 12 | 55% | 10 | 45% |
| Band Cyflog 3 yr Uwch Wasanaeth Sifil | 1 | 25% | 3 | 75% |


## Cynnwys cyflogeion

Defnyddir y Mynegai Ymgysylltiad Cyflogeion (EEI) fel ffordd o sicrhau bod cyflogeion yn ymrwymedig i nodau a gwerthoedd eu sefydliad, ac wedi'u cymell i gyfrannu at lwyddiant sefydliadol. Mae Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn defnyddio pum cwestiwn i fesur ymgysylltiad cyflogeion, ac yn cyfuno

pob ymateb (cadarnhaol, niwtral a negyddol) i greu sgôr mynegai cryno, er mwyn i adrannau wybod eu safle ar raddfa sy'n amrywio o lefelau isel iawn o ymgysylltiad (0%) i lefelau uchel iawn (100%).

Ein sgôr ymgysylltiad cyffredinol yw 62%, o gymharu â 59% yn 2023. Meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2024 yw 64%.

Gellir rhannu canlyniad Ofgem yn erbyn y pum maes fel a ganlyn:




## Polisïau Pobl allweddol

Mae Ofgem wedi adolygu ac wedi diweddaru'r polisïau ar Chwythu'r Chwiban, secondiadau a benthyciadau, gweithio dramor a seibiannau gyrfa. Rydym hefyd wedi datblygu canllawiau ar aflonyddu rhywiol yn unol â newidiadau deddfwriaethol. Rydym wedi cyflwyno polisïau newydd ar gymorth yn ystod y menopos a cham-drin domestig ac wedi datblygu canllawiau ar gefnogi ein pobl mewn perthynas â chamesgor a ffrwythlondeb.

O safbwynt gwobrwyo a buddiannau, rydym wedi cyflwyno polisi sy'n galluogi staff i brynu a gwerthu gwyliau blynyddol.

## Trawsnewid Diwylliant yn Ofgem

Mae newidiadau mewnol ac allanol sylweddol yn mynd rhagddynt yn Ofgem, yn unol â Chynllun ar gyfer Newid y llywodraeth, sy'n anelu at foderneiddio'r Gwasanaeth Sifil, gwella effeithlonrwydd a gwella safonau arwain. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnig cyfle i Ofgem ailasesu ei rôl a datblygu diwylliant ei gweithle i ymateb yn well i heriau'r dyfodol.

Er mwyn cefnogi'r trawsnewidiad hwn, mae Ofgem wedi ymgysylltu'n eang â chydweithwyr drwy gyfweliadau ac arolygon, gan greu gweledigaeth ar gyfer amgylchedd gwaith mwy dynamig a chydweithredol.

Mae Cynllun Gweithredu Diwylliant tair blynedd wrthi'n cael ei ddatblygu, gan sicrhau cysondeb â strategaethau ehangach ar gyfer y gweithlu a diwygiadau i'r gwasanaeth sifil. Cyflwynwyd y cynllun hwn i'r uwch-bwyllgorau i'w adolygu a'i gymeradwyo, gan atgyfnerthu ymrwymiad Ofgem i feithrin diwylliant cadarnhaol ac ystwyth yn y gweithle.

## Recriwtio

Rhoddwyd barn sicrwydd 'sylweddol' am yr archwiliad mewnol o brosesau recriwtio Ofgem y flwyddyn hon.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Yn rôl ddeuol Ofgem fel cyflogwr a rheoleiddiwr, rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ein gweithlu, yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn y diwydiant rydym yn ei reoleiddio.

Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith: wrth recriwtio ac mewn cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu gyrfa. Ni ddylai unrhyw un wynebu gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Nid ydym yn goddef gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu.

Yn arolwg ymgysylltu â staff 2024, cawsom sgôr o 85% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg, cynnydd o 1% o gymharu â 2023. Yn 2022-23, gwnaethom ddiwygio ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant , ac un o'i blaenoriaethau allweddol oedd canolbwyntio ar greu gweithlu amrywiol a chynhwysol, a diwylliant cynhwysol.

Ers lansio'r strategaeth, rydym wedi datblygu dangosfwrdd data cadarn er mwyn adrodd ar gynrychiolaeth yn ein gweithlu yn ôl nodweddion gwarchodedig a chefndir economaidd-gymdeithasol ein staff. Rydym wedi gwella cyfraddau datgan data drwy ymgyrch fewnol. Rydym yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ein targedu uchelgeisiol gan lwyddo i gyflawni cydbwysedd rhyw o 50:50 ar uwch lefelau'r gweithlu, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu cynrychiolaeth staff ethnig lleiafrifol ac anabl drwy gynlluniau gweithredu penodol ar gyfer hil ac anabledd.

Rydym yn ail flwyddyn ein cynllun gweithredu symudedd cymdeithasol. Rydym wedi cynnal gwaith allgymorth symudedd cymdeithasol gyda Chyngor Tower Hamlets a Chyngor Glasgow a City, Prifysgol Llundain. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei rhaglen Catapult Mentoring drawslywodraethol, gan ddarparu mentoriaid a gwasanaeth mentora i weision sifil presennol o gefndir economaidd-gymdeithasol isel. Rydym hefyd wedi cydweithio â Rhwydwaith Symudedd Cymdeithasol y Gwasanaeth Sifil, gan gyfrannu at greu'r 'Thriving in the Workplace Guidance'.

Gwnaethom lansio ap Optimal Working Passport i wella ac awtomeiddio'r broses ar gyfer gwneud cais am addasiadau rhesymol – y cyntaf o'i fath yn y Gwasanaeth Sifil. Gwnaethom ddatblygu polisi a chanllawiau ar ddeall niwroamrywiaeth, er mwyn codi ymwybyddiaeth a helpu i gefnogi cydweithwyr niwroamrywiol.

Yn ogystal, mae Ofgem wedi parhau i gefnogi ein rhwydweithiau amrywiaeth a chynhwysiant dan arweiniad staff sy'n ymwneud ag oedran, anabledd a gofalwyr, ethnigrwydd a hil, LHDT+, iechyd meddwl, y ffydd Foslemaidd a menywod. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi lansio dau rwydwaith newydd ar y ffydd Iddewig a symudedd cymdeithasol.

Ar 31 Mawrth 2025

- roedd yn hysbys bod gan 9% (2023-24:9%) o staff anabledd
- roedd 46% (2023-24: 46%) o'r staff yn fenywod
- oedd 43% (2023-24: 43%) o'r staff mewn swyddi rheoli (Lefel 3 i SCS3) yn fenywod
- roedd 48% (2023-24: 47%) o aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn Ofgem yn fenywod
- roedd yn hysbys bod 31% (2023-24: 29%) o'r staff o darddiad ethnig lleiafrifol

- roedd 17% (2023-24: 18%) o'r staff mewn swyddi rheoli (Lefel 3 i SCS3) o gefndir ethnig lleiafrifol..

Mae ein datganiad polisi am gyfle cyfartal ar gael i bob cyflogai

Gellir gweld data Ofgem ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn: Adroddiadau ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau i Ofgem – Gender pay gap service (gender-pay-gap. service.gov.uk).

Roedd amrywiaeth a chynhwysiant yn agwedd allweddol ar ein gwaith ymgysylltu allanol â'r sector ynni ehangach y flwyddyn hon. Ym mis Mehefin 2024, roedd yn bleser gennym weithio mewn partneriaeth ag Energy UK, y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni a'r Sefydliad Ynni i gynnal y bedwaredd gynhadledd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant flynyddol.

Sefydlwyd y grŵp 'Tackling Inclusion and Diversity in Energy' (TIDE) yn 2022. Lansiodd Ofgem y grŵp ar y cyd ag Energy-UK a'r Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni yng Nghynhadledd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022, fel grŵp trawsddiwydiant i wella Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob rhan o'r sector ynni. Caiff bellach ei redeg mewn partneriaeth gan Ofgem, Energy-UK, y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni a'r Sefydliad Ynni. Mae'n rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu ag arweinwyr, data a gwybodaeth, a rhannu arferion gorau.

Lansiodd TIDE wiriad iechyd i gwmnïau i bennu llinell sylfaen aeddfedrwydd ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob rhan o'r sector ynni, a chynhaliodd gyfres o weminarau. Mae ei Hwb ar-lein yn gweithredu fel siop un stop ar gyfer materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob rhan o'r sector ynni.

## Hybu iechyd a diogelwch yn y gwaith

Mae Ofgem yn parhau i reoli iechyd a diogelwch ac mae wedi cymryd camau y flwyddyn hon i ddatblygu a dogfennu ei systemau rheoli iechyd a diogelwch.

Roedd camau gweithredu'r flwyddyn hon yn cynnwys penodi Rheolwr Iechyd a Diogelwch, creu Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant, a llunio gweithdrefnau a chanllawiau iechyd a diogelwch i gefnogi rheolwyr a staff.

Mae'r gwaith parhaus hwn wedi codi proffil iechyd a diogelwch yn y sefydliad. Yn ogystal, ychwanegwyd llesiant staff at y cylch gwaith iechyd a diogelwch ar ddiwedd y flwyddyn, gan gydnabod y themâu trawsbynciol cyffredin sy'n cynnwys iechyd meddwl, straen cysylltiedig â gwaith ac iechyd cyhyrysgerbydol.

## Cydberthnasau ag undebau llafur

Yr Undebau Llafur cydnabyddedig yn Ofgem yw PCS ac FDA. Caiff cyfarfodydd y Cydbwyllgor Negodi (JNC) eu cynnal bob mis, a chaiff cyfarfodydd ad hoc eu hychwanegu lle bo angen er mwyn trafod pwnc brys neu benodol. Sefydlwyd is-grŵp polisi adnoddau dynol hefyd, gan gynnwys cynrychiolwyr yr Undebau Llafur, er mwyn cytuno ar newidiadau newydd neu bwysig i bolisïau adnoddau dynol. Mae gennym gydberthnasau adeiladol â'r ddau Undeb Llafur. Gwneir pob ymdrech i hybu a chynnal y cydberthnasau gwaith gorau posibl rhwng Ofgem a'r Undebau Llafur.

## Diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb

Yn 2024-25, collodd Ofgem 5.2 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai ar gyfartaledd (2023-24: 4.3 diwrnod) oherwydd absenoldeb. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfradd y Gwasanaeth Sifil o 7.8 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai (ar 31 Mawrth 2024).

## Trosiant staff

Yn 2024-25, trosiant staff oedd 12.9% (2023-24: 16.3%). Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 7.5% i'r Gwasanaeth Sifil (ar 31 Mawrth 2024). Mae ein trosiant uchel yn rhannol oherwydd y farchnad gystadleuol ar gyfer talent yn y sector ynni ac hefyd oherwydd anghysondebau cyflog o gymharu â rheoleiddwyr eraill a rhannau o'r llywodraeth. Gwnaethom lansio ein Strategaeth Gweithlu yn 2024 a chynllun gweithredu ategol sydd wedi helpu i ymdrin â throsiant, ac rydym wedi gweld gostyngiad ers y flwyddyn ddiwethaf. Ein nod yw lleihau ein trosiant ymhellach i 10% neu'n is.



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr
14 Gorffennaf 2025



# Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2024-25

# Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

## Datganiad o Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol

### Crynodeb o'r alldro adnoddau a chyfalaf 2024-25

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol.

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig yn cael eu harchwilio, fel y nodwyd yn Nhystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin..

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn eu Hamcangyfrif o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a ddaw o'r Gronfa Gyfunol yn bennaf), y mae Senedd y DU yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn manylu ar y cyflenwad ac mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo drwy bleidlais ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os bydd endid yn mynd dros y terfynau a bennir gan eu Hamcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd barn amodol yn cael ei rhoi ar eu cyfrifon.

Mae fformat y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o'r Cyflenwad, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn ei gwneud yn bosibl cymharu'r hyn y mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cynnwys tabl cryno, sy'n manylu ar berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae Senedd y DU wedi'u cymeradwyo drwy bleidlais, arian parod a wariwyd (llunnir cyllidebau ar sail croniadau ac felly ni fyddai alldro yn cyfateb yn union i'r arian parod a wariwyd) a gweinyddiaeth.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: Alldro fesul llinell o'r Amcangyfrif, sy'n rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni alldro â gwariant/(incwm) gweithredu net yn y SoCNE, i gysylltu'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol â'r datganiadau ariannol (Nodyn 2); cysoni alldro â'r gofyniad arian parod net (Nodyn 3); a, dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy at y Gronfa Gyfunol (Nodyn 4).

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y bydd Senedd y DU yn ei chymeradwyo drwy bleidlais. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd, yn cynnwys trafodaeth gryno ar alldro yn erbyn yr amcangyfrif ac mae'n gweithredu fel cyflwyniad i ddatgeliadau'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol.

Yn ogystal, ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae'r rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS ym mhennod 1 y Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, sydd ar gael ar gov.uk.

Tablau cryno – yn adlewyrchu rhan 1 o'r Amcangyfrifon

## Tabl cryno, 2024-25, pob ffigur wedi'i gyflwyno mewn £000oedd

| Math o Wariant | Nodyn SoPS | Alldro Cymeradwywyd drwy bleidlais | Alldro Nis cymeradwywyd drwy bleidlais | Alldro Cyfanswm | Amcangyfrif Cymeradwywyd drwy bleidlais | Amcangyfrif Nis cymeradwywyd drwy bleidlais | Amcangyfrif Cyfanswm | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad Cymeradwywyd drwy bleidlais | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad Cyfanswm | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Terfyn Gwariant Adrannol** -Adnodd | 1.1 | 40,340 | - | 40,340 | 92,566 | - | 92,566 | 52,226 | 52,226 | 6,351 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** -Cyfalaf | 1.2 | 4,087 | - | 4,087 | 4,800 | - | 4,800 | 713 | 713 | 1,176 |
| **Cyfanswm Gwariant yn y Gyllideb** | | **44,427** | **-** | **44,427** | **97,366** | **-** | **97,366** | **52,939** | **52,939** | **7,527** |
| **Gwariant Heb fod yn y Gyllideb** | | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm yn y Gyllideb a Heb fod yn y Gyllideb** | | **44,427** | **-** | **44,427** | **97,366** | **-** | **97,366** | **52,939** | **52,939** | **7,527** |

Mae'r ffigurau yn y meysydd wedi'u hamlinellu â llinell drwchus yn cwmpasu'r terfynau rheoli a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU. Cyfeiriwch at y llawlyfr.

**Gofyniad arian parod net 2024-25, pob ffigur wedi'i gyflwyno mewn £000oedd**

| Math o wariant | Nodyn SoP | Alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | 3 | (4,392) | 70,395 | 74,787 | (15,161) |

**Costau gweinyddol 2024-25, pob ffigur wedi'i gyflwyno mewn £000oedd**

| Math o wariant | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddol** | 1.1 | 12,583 | 48,356 | 35,773 | 9,098 |

Mae gan yr Adran Addasiadau Cyfnod Blaenorol sy'n deillio o gydnabod treth a gwariant wedi'u priodoli mewn perthynas ag ardoll y Cyflenwr Dewis Olaf.

Mae'n briodol i'r adran geisio awdurdod Seneddol ar gyfer addasiadau cyfnod blaenorol sy'n deillio o benderfyniad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i newid dosbarthiad penderfyniadau ynghylch ardoll y Cyflenwr Dewis Olaf. Mae Addasiadau Cyfnod Blaenorol wedi'u cynnwys o fewn y cyflenwad a gymeradwywyd drwy bleidlais yn amcangyfrif Ofgem.

Caiff penderfyniadau ar gyfer addasiadau wedi'u cysoni i benderfyniadau blaenorol am geisiadau o dan ardoll y Cyflenwr Dewis Olaf eu trin fel Addasiadau Cyfnod Blaenorol.

- Cymeradwywyd £19 miliwn net o geisiadau cysoni ym mis Rhagfyr 2024. Roedd hyn yn cynnwys £2.4m o geisiadau pellach a ganiatawyd (swm a gydsyniwyd) a £21.6m o geisiadau blaenorol yr oedd angen eu had-dalu (swm adennill)

- Cymeradwywyd £16 miliwn net o geisiadau cysoni ym mis Rhagfyr 2023. Roedd hyn yn cynnwys £41 miliwn o geisiadau pellach a ganiatawyd, a £25 miliwn o geisiadau blaenorol yr oedd angen eu had-dalu.

Mae'r dreth wedi'i phriodoli a'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau cysoni hyn wedi'u cynnwys fel Addasiad Cyfnod Blaenorol i gyllidebau 2022-23 (gydag effaith net o ddim, wedi'i dangos fel £1,000 symbolaidd er mwyn galluogi'r Senedd i bleidleisio'r Addasiad Cyfnod Blaenorol). Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol, gan mai addasiad (Alldro) cwbl cyllidebol ydyw.

# Nodiadau i'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol, 2024-25 (£000oedd)

## SOPS1. Manylion yr alldro, fesul llinell o'r Amcangyfrif

### SOPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau fesul Llinell o'r Amcangyfrif

| | Alldro Adnoddau | | | | | | | Amcangyfrif | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o Wariant (Adnodd)** | **Gweinyddu Gros** | **Gweinyddu Incwm** | **Gweinyddu Cyfanswm net** | **Rhaglen Gros** | **Rhaglen Incwm** | **Rhaglen Cyfanswm net** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** | **Trosglwyddiadau** | **Cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau** | **Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad** | **Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2023-24** |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | | | |
| **Gwariant a gymeradwywyd drwy bleidlais** | | | | | | | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 158,561 | (150,986) | 7,575 | - | - | - | 7,575 | 40,075 | - | 40,075 | 32,500 | 6,505 |
| B Cyflawni a Chynlluniau Ofgem gweinyddu | 63,045 | (58,037) | 5,008 | - | - | - | 5,008 | 8,281 | - | 8,281 | 3,273 | 2,593 |
| C Nwy Gwyrdd Ofgem: gweinyddu | 3,931 | (3,931) | - | 34,730 | (6,973) | 27,757 | 27,757 | 44,210 | - | 44,210 | 16,453 | (2,747) |
| D Lefelu: Rhaglen | - | - | - | 53,700 | (53,700) | - | - | - | | - | - | - |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **225,537** | **(212,954)** | **12,583** | **88,430** | **(60,673)** | **27,757** | **40,340** | **92,566** | **-** | **92,566** | **52,226** | **6,351** |

## SOPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf fesul Llinell o'r Amcangyfrif

| Math o Wariant (Cyfalaf) | Alldro Gros | Alldro Incwm | Alldro Cyfanswm net | Amcangyfrif Cyfanswm | Amcangyfrif Virements | Amcangyfrif Cyfanswm gan gynnwys trosglwyddi-adau | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | |
| **Gwariant a gymeradwywyd drwy bleidlais** | | | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 4,087 | - | 4,087 | 4,800 | - | 4,800 | 713 | 1,176 |
| B Cyflawni a Chynlluniau Ofgem gweinyddu | 8,062 | (8,062) | - | - | - | - | - | - |
| C Nwy Gwyrdd Ofgem: gweinyddu | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm cyfalaf** | **12,149** | **(8,062)** | **4,087** | **4,800** | **-** | **4,800** | **713** | **1,176** |

## SOPS2 Cysoni alldro â'r gwariant/(incwm) gweithredu net

| Eitem | Cyfeiriad | Cyfanswm Alldro £000 | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Alldro Adnoddau** | SOPS1.1 | **40,340** | **6,351** |
| Ychwanegu: Incwm cyfalaf gan DESNZ | SOPS1.2 | (8,062) | (9,163) |
| Llai: Traul llog prydles | 7.3 | (504) | (531) |
| Ychwanegu: Incwm llog | SoCNE | 1,244 | 1,159 |
| **Gwariant/(Incwm) Gweithredu Net yn y Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr** | SoCNE | **33,018** | **(2,184)** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ond yn wahanol iddynt. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau i'r gwariant/(incwm) gweithredu net, gan gysylltu'r SOPS i'r datganiadau ariannol.

Caiff incwm cyfalaf ei gyllidebu fel DEL cyfalaf ond cyfrifir amdano fel incwm ar wyneb y SoCNE ac felly mae'n eitem gysoni rhwng cyfanswm yr alldro adnoddau a'r gwariant/(incwm) gweithredu net.

Caiff incwm llog ei gyllidebu fel DEL adnoddau ond caiff ei gynnwys fel incwm cyllid ar wyneb y SoCNE ac felly mae hefyd yn eitem gysoni rhwng cyfanswm yr alldro adnoddau a'r gwariant/(incwm) gweithredu net.

Dosbarthwyd y canlynol fel math o dreth a gwariant wedi'u priodoli. O dan IFRS, nid ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael eu cydnabod fel incwm a gwariant i Ofgem:

- Ym mis Chwefror 2024, penderfynodd Ofgem addasu'r taliadau sefydlog rhwng cwsmeriaid mesuryddion rhagdalu a chwsmeriaid Debyd Uniongyrchol (lefelu). O ganlyniad, gostyngodd taliadau sefydlog cwsmeriaid mesuryddion rhagdalu a chynyddodd taliadau sefydlog cwsmeriaid Debyd Uniongyrchol o dan y cap ar brisiau ynni. Gweithredwyd hyn o fis Ebrill 2024 a chaiff gwerth trosglwyddiadau net rhwng cyflenwyr (a wneir drwy gorff diwydiant) ei gydnabod yng nghyllidebau Ofgem.
- Dosbarthwyd ardoll y Cyflenwr Dewis Olaf yn ystod 2022-23 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Caiff ceisiadau dan yr ardoll (a gymeradwyir gan Ofgem ar ôl dyddiad y penderfyniad dosbarthu) mewn cyllidebau yn ystod y flwyddyn y mae'r penderfyniad yn ymwneud â hi. Gan nad oes unrhyw fewnlifoedd nac all-lifoedd economaidd i Ofgem, ni chânt eu cydnabod yn Natganiad Ofgem o Incwm Net Cynhwysfawr na'r nodiadau cysylltiedig.

## SoPS3 Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| Eitem | Cyfeiriad | Cyfanswm alldro £000 | Amcangyfrif £000 | Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif, arbediad/ (dros ben) £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Alldro Adnoddau** | SOPS1.1 | 40,340 | 92,566 | 52,226 |
| **Cyfanswm alldro cyfalaf** | SOPS1.2 | 4,087 | 4,800 | 713 |
| **Addasiadau i dynnu eitemau anariannol:** Dibrisiant a lleihad mewn gwerth | 3 | (7,913) | (13,809) | (5,896) |
| **Addasiadau i dynnu eitemau anariannol:** Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | 3 | (40,237) | (40,000) | 237 |
| **Addasiadau i dynnu eitemau anariannol:** Ychwanegiadau a gwarediadau IFRS16 | 7.1 | (1,837) | - | 1,837 |
| **Addasiadau i dynnu eitemau anariannol:** Eitemau anariannol eraill | | (547) | (150) | 397 |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy | 10 | 1,434 | - | (1,434) |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** Gostyngiad mewn symiau taladwy | 11 | (2,195) | 26,988 | 29,183 |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** Defnydd o ddarpariaethau | 12 | 126 | - | (126) |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** Elfen cyfalaf taliadau mewn perthynas â phrydlesau | 7.4 | 2,350 | - | (2,350) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **(4,392)** | **70,395** | **74,787** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, yn hytrach nag ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio rhwng yr alldro adnoddau a chyfalaf a'r gofyniad arian parod net.

Mae'r alldro yn cynrychioli arbediad o £74.8 miliwn yn erbyn yr amcangyfrif o £70.4 miliwn, yn bennaf oherwydd bod gwerth darpariaethau cyfreithiol ariannol (tanwariant o £32.5m) a gwariant Nwy Gwyrdd (tanwariant o £16.5m) yn is na'r amcangyfrif.

## SOPS4. Symiau incwm i'r Gronfa Gyfunol

### SOPS4.1 Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Nid oes angen y nodyn hwn i ddadansoddi'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol gan mai £dim (2023-24: £dim) oedd y swm o incwm heb gyllideb a gododd yn ystod y flwyddyn.

### SOPS4.2 Incwm y Gronfa Gyfunol

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 4.1 uchod yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan yr adran yn ei rhinwedd fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn hytrach na'r pennaeth.

| Eitem | Cyfanswm Alldro | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2023-24 |
|---|---|---|
| Dirwyon a chosbau - y flwyddyn gyfredol | - | 5,411 |
| Dirwyon a chosbau - blynyddoedd blaenorol* | - | 27 |
| **Swm sy'n daladwy i'r gronfa gyfunol** | **-** | **5,438** |
| Balans a ddaliwyd ar ddechrau'r flwyddyn | 27 | 70 |
| Taliadau i mewn i'r Gronfa Gyfunol | (27) | (5,481) |
| **Balans a ddaliwyd drwy ymddiriedaeth ar ddiwedd y flwyddyn** | **-** | **27** |

* Derbyniwyd £27,003 yn ystod 2023-24 mewn perthynas â chosb a osodwyd yn ystod 2019-20. Roedd y gosb wreiddiol am swm o £200,000, ond cafodd y sefydliad ei ddatodi a dim ond cyfran o werth y gosb a dderbyniwyd. Talwyd £27,003 i'r Gronfa Gyfunol yn ystod 2024-25.

## Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol (archwiliedig)

### Rheoleidd-dra gwariant

Cymhwyswyd gwariant Ofgem at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU.

Nid oes gan Ofgem ddim i'w nodi mewn perthynas â'r canlynol:

- Taliadau arbennig;
- Colledion;
- Datgeliadau ffioedd a thaliadau;
- Rhwymedigaethau wrth gefn o bell;
- Tueddiadau gwariant hirdymor.



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr
14 Gorffennaf 2025

# Tystysgrif ac adroddiad y rheolwr ac archwilydd cyffredinol i dŷ'r cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan Ofgem:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Lifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y gyfraith gymwys a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig yw'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Ofgem fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025 ac o'i gost weithredu net am y flwyddyn ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a ddyroddwyd odani.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad Alldro o'i gymharu â Chyflenwad y Senedd yn cyflwyno'r alldro o'i gymharu â'r cyfansymiau rheolaeth Seneddol a bleidleisiwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 yn briodol ac yn dangos nad aed y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (UK) (ISAs UK), y gyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 Audit of Financial Statements and Regularity of Public Sector Bodies in the United Kingdom (2024). Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn yr adran Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Revised Ethical Standard 2024 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar Ofgem yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a mi wedi cyflawni'n cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i sicrhau yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod defnydd Ofgem o'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol ynglŷn â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth arwyddocaol ar allu Ofgem i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Mae'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer Ofgem wedi'i fabwysiadu drwy ystyried y gofynion a nodir yn The Government Financial Reporting Manual gan Drysorlys Ei Fawrhydi, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Gwybodaeth arall yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm tystysgrif a'm hadroddiad archwilio i ar y rhain. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn modd perthnasol â'r datganiadau ariannol neu â'm gwybodaeth i a sicrhawyd yn yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos fel pe bai wedi'i cham-ddatgan mewn modd perthnasol.

Os byddaf yn nodi anghysonderau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol o'r fath, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod yna gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a ddyroddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a ddyroddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Ofgem a'i hamgylchedd a sicrhawyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol, sef materion yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan Ofgem neu nad oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi dod i law gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan The Government Financial Reporting Manual gan Drysorlys Ei Fawrhydi neu nad yw'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y canlynol

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ac esboniadau ychwanegol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau o fewn Ofgem y mae'r archwilydd yn penderfynu bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod unrhyw reolaethau mewnol ar waith y bernir bod eu hangen i alluogi datganiadau ariannol i gael eu paratoi sy'n rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a ddyroddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a ddyroddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- asesu gallu Ofgem i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Ofgem yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion i yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a dyroddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gyflawnir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau godi oherwydd twyll neu gamgymeriad a bernir eu bod yn berthnasol os byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

**I ba raddau y barnwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod ar i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

**Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, yr wyf

- wedi ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu Ofgem, dangosyddion perfformiad allweddol a chymhellion perfformiad;

- wedi holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Ofgem a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys sicrhau ac adolygu dogfennau ategol ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau Ofgem ar y canlynol:
  - nodi a gwerthuso cyfreithiau a rheoliadau a chydymffurfio â nhw;
  - canfod risgiau twyll ac ymateb iddyn nhw; a
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Ofgem ynglŷn â chydymffurfiaeth Ofgem â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Managing Public Money;
- wedi holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Ofgem a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
  - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau;
  - a oeddent yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig,
- trafodwyd gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn Ofgem ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodiadau cymhleth a rhagfarn yn amcangyfrifon y rheolwyr. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan ISAs (UK), mae'n ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolaethau'n cael eu diystyru gan y rheolwyr.

Sicrheais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Ofgem a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Ofgem yn gweithredu o'u mewn. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ofgem. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Managing Public Money, Deddf Cyflenwadau a Dyraniadau (Prif Amcangyfrifon) 2024 a'r gyfraith gyflogaeth a'r ddeddfwriaeth dreth berthnasol.

## Ymateb yr archwiliad i'r risgiau a nodwyd

I ymateb i'r risgiau a nodwyd o ganlyniad i'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais y datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r profion ar y dogfennau ategol i asesu'r gydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais y rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsleriaid mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- rhoddais sylw i'r risg o dwyll am fod y rheolwyr yn diystyru rheolaethau drwy brofi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; trwy asesu a yw'r dyfarniadau ar amcangyfrifon yn awgrymu rhagfarn bosibl; a thrwy werthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Mynegais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio gan barhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol imi sicrhau tystiolaeth briodol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro o'i gymharu â Chyflenwad y Senedd yn cyflwyno'r alldro o'i gymharu â'r cyfansymiau rheolaeth Seneddol a bleidleisiwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 yn briodol ac nad aed y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheolaeth Seneddol a bleidleisiwyd yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Gofynion Heblaw'r Gyllideb (Adnoddau) ac Arian Parod Net.

Mae'n ofynnol imi sicrhau tystiolaeth archwilio briodol ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, rychwant ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.



# Cyfrifon Adnoddau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2024-25

# Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm a gwariant cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eu cydnabod fel incwm na gwariant eto.

| | Nodyn | 2024-25 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu | 4 | (226,745) | (191,532) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **(226,745)** | **(191,532)** |
| Costau staff | 3 | 161,992 | 130,470 |
| Gwariant gweithredu arall | 3 | 97,771 | 58,878 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **259,763** | **189,348** |
| **Gwariant/(incwm) gweithredu net** | 2 | **33,018** | **(2,184)** |
| Incwm cyllid | 4 | (1,244) | (1,159) |
| Traul cyllid | 7.3 | 504 | 531 |
| **Gwariant/(incwm) net am y flwyddyn** | | **32,278** | **(2,812)** |
| **Gwariant/(incwm) net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **32,278** | **(2,812)** |

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol yr adran. Mae iddo dair prif ran: asedau a berchenogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, sef gwerth gweddilliol yr endid.

| | Nodyn | | 2024-25 £000 | | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** Eiddo, offer a chyfarpar | 5 | 3,839 | | 3,074 | |
| **Asedau anghyfredol:** Asedau hawl i ddefnyddio | 7.1 | 14,469 | | 14,553 | |
| **Asedau anghyfredol:** Asedau anniriaethol | 6 | 20,351 | | 16,798 | |
| ***Cyfanswm yr asedau anghyfredol*** | | | **38,659** | | **34,425** |
| **Asedau cyfredol:** Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 23,557 | | 22,123 | |
| **Asedau cyfredol:** Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 9 | 17,546 | | 37,161 | |
| ***Cyfanswm yr asedau cyfredol*** | | | **41,103** | | **59,284** |
| ***Cyfanswm yr asedau*** | | | **79,762** | | **93,709** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 11 | (47,955) | | (65,375) | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** Rhwymedigaethau prydlesau | 7.2 | (2,077) | | (1,909) | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** Darpariaethau | 12 | (48,214) | | (8,097) | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol*** | | | **(98,246)** | | **(75,381)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(18,484)** | | **18,328** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** Rhwymedigaethau prydlesau | 7.2 | (12,827) | | (13,046) | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** Darpariaethau | 12 | (1,642) | | (1,608) | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol*** | | | **(14,469)** | | **(14,654)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **(32,953)** | | **3,674** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** Cronfa gyffredinol | | (32,953) | | 3,674 | |
| ***Cyfanswm ecwiti*** | | | **(32,953)** | | **3,674** |



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr
14 Gorffennaf 2025

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir gan yr adran, wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd cyffredinol wrth gefn' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol). Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli cyfanswm asedau adran llai rhwymedigaethau, i'r graddau nad yw'r cyfanswm wedi ei gynrychioli gan gronfeydd wrth gefn nac eitemau ariannu eraill.

| | Nodyn | Cronfa gyffredinol £000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **15,881** |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr | 3 | 149 |
| Incwm net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | 2,812 |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | - |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | 22,000 |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | 11 | (37,161) |
| Symudiadau cronfeydd wrth gefn eraill | | (7) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **3,674** |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr | 3 | 155 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | (32,278) |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | - |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | 13,154 |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | 11 | (17,546) |
| Symudiadau cronfeydd wrth gefn eraill | | (112) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | | **(32,953)** |

# Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

Mae'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar gyfer yr adran yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo drwy ddosbarthu llifau arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth a'r graddau y caiff y gweithrediadau hyn eu hariannu drwy incwm gan dderbynyddion gwasanaethau a ddarparwyd gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae llifau arian parod i mewn ac allan wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan yr adran yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2024-25 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** (Gwariant)/incwm gweithredu net | SoCNE | (33,018) | 2,184 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | SoPS3, SoCNE | 48,193 | 13,962 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10 | (1,434) | 7,749 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** Gostyngiad/(cynnydd) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 11 | (19,046) | (29,423) |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SoCNE | 11 | 19,615 | 35,672 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** Defnydd o ddarpariaethau | 12 | (126) | (3,255) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **14,184** | **26,889** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:** Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd | 5 | (624) | (1,821) |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:** Asedau anniriaethol a brynwyd | 6 | (8,062) | (9,163) |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:** Incwm cyllid | SoCNE | 1,244 | 1,159 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(7,442)** | **(9,825)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido:** O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | SoCiTE | 13,154 | 22,000 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido:** Elfen cyfalaf taliadau mewn perthynas â phrydlesau | 7.4 | (2,350) | (1,903) |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido:** Blaendaliadau o'r Gronfa wrth Gefn | | 42,000 | 30,000 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido:** Taliadau i'r Gronfa wrth Gefn | | (42,000) | (30,000) |
| **Cyllid net** | | **10,804** | **20,097** |
| **Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **17,546** | **37,161** |

| | Nodyn | 2024-25 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|
| Taliadau symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | SoCiTE | (37,161) | (72,833) |
| **Gostyngiad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 9 | **(19,615)** | **(35,672)** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | 9 | 37,161 | 72,833 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | 9 | **17,546** | **37,161** |

# Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae Ofgem wedi dewis y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i'r amgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r Datganiad o Alldro yn erbyn y

Cyflenwad Seneddol (SOPS) a'r nodiadau cysylltiedig yn dangos alldro yn erbyn amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adran ar yr Adroddiad ar Atebolrwydd ac Archwiliad Seneddol sy'n dechrau ar dudalen 77.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir y cyfrifon i'r £'000 agosaf.

#### Busnes gweithredol

Yn debyg i adrannau eraill y llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau eu hariannu yn y dyfodol drwy grantiau cyflenwi yn y dyfodol a defnyddio incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y DU. Mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer 2025-26 eisoes wedi'u cymeradwyo ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff symiau yn y dyfodol eu cymeradwyo. Rydym yn disgwyl parhau i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Felly rydym wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### 1.2 Incwm gweithredu

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Ofgem yw incwm gweithredu. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd am drwyddedau a ffioedd a thaliadau a godir am wasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn.

- Ffioedd trwydded – Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i Ofgem fantoli ei wariant â'i incwm. Mae'n ofynnol i Ofgem godi incwm o'r sector a reoleiddir ganddo er mwyn talu'r costau y mae Ofgem yn mynd iddynt wrth reoleiddio'r sector hwnnw. Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofgem i adennill ei gostau gan drydydd partïon. Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn gysylltiedig â'r gwaith sylfaenol sydd i'w gyflawni gan Ofgem fel rheoleiddiwr y Farchnad Nwy a Thrydan, ac fel y nodir yn y Blaenraglen Waith. Revenue is recognised in the year the performance obligation (cost) is incurred.
- Incwm gan DESNZ a thaliadau a ailgodir drwy gynlluniau – O dan gytundebau lefel gwasanaeth/contractau â'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net a chyrff eraill y llywodraeth, mae Ofgem yn gweinyddu cynlluniau ynni a chynlluniau amgylcheddol ar eu rhan. Darperir y gwasanaethau hyn ar sail cost lawn. Cydnabyddir incwm ar sail croniadau wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad a amlinellir yn y cytundebau/contractau lefel gwasanaeth gael eu bodloni dros amser. Caiff costau gweinyddu a ariennir yn uniongyrchol gan DESNZ, yn hytrach na'r cynllun ei hun neu lywodraethau eraill, eu nodi ar wahân yn Nodyn 4 a cheir esboniad yn Nodyn 14.
- Yr Ardoll Nwy Gwyrdd – Mae'r Ardoll Nwy Gwyrdd yn gosod rhwymedigaethau ar gyflenwyr nwy trwyddedig, gan gynnwys gofyniad i wneud taliadau ardoll bob chwarter, er mwyn ariannu'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd, sef cynllun amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n cynnig cymhellion

ariannol ar gyfer safleoedd biofethan treulio anerobig newydd er mwyn cynyddu cyfran y nwy gwyrdd yn y grid nwy. Nid oes rhwymedigaethau i drosglwyddo nwyddau na gwasanaethau i'r rhai sy'n talu'r ardoll (caiff ei thrin fel math o drethiant), oherwydd caiff y cyllid hwnnw ei ddefnyddio i dalu am daliadau a chostau rhedeg y Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn addasu IFRS 15 i'w gwneud yn ofynnol y dylid cydnabod refeniw trethiant a ddaw i law nad oes modd cael unrhyw ad-daliadau ar ei gyfer ac nad yw'n arwain at unrhyw rwymedigaethau o dan yr amgylchiadau canlynol: pan fydd mater cyfatebol i ddigwyddiad trethadwy wedi digwydd; pan ellir mesur y refeniw yn ddibynadwy; a phan fo'n debygol y bydd y buddiannau economaidd a gynorthwyir o'r digwyddiad trethadwy yn llifo i'r endid sy'n casglu. Ystyrir bod y meini prawf hyn wedi'u bodloni ar gyfer yr Ardoll Nwy Gwyrdd pan ddarperir y data pwyntiau mesuryddion i Ofgem gan gyflenwyr nwy.

- Incwm arall – Cyfrifir am incwm arall ar sail croniadau.

## 1.3 Pensiynau

Cwmpesir cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS). Disgrifir y rhain yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a'r Adroddiad ar Staff. Mae'r ddau gynllun yn anghyfrannol a heb eu hariannu.

Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a gwmpesir gan y ddau gynllun yn cyflawni cost pensiynau a ddarperir ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt drwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail croniadau. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn arwystl ar y cynlluniau. Ceir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS a'r CSOPS yn eu cyfanrwydd.

## 1.4 Costau gadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Ofgem dalu cost buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS a'r CSOPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Darparwyd ar gyfer y gost lawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar wedi'i chyhoeddi a'i bod yn gyfrwymol.

## 1.5 Eiddo, offer, cyfarpar a dibrisiant

Delir eiddo, offer a chyfarpar ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi am werth cyfredol, gan fod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o'r ased yn realistig Ni fyddai ailbrisiadau yn achosi gwahaniaeth perthnasol. Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu eiddo, offer a chyfarpar mewn rhandaliadau hafal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, ar ôl ystyried gwerth gweddilliol. Mae oes asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Gwelliannau lesddaliadol** | Oes y les |
| **Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa** | Pedair blynedd |
| **Cyfarpar TG** | Tair blynedd |

Yr isafswm lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, offer a chyfarpar yw £2,000. Caiff cyfarpar TG a dodrefn, lle y gall asedau unigol gostio llai nag £2,000, eu cyfalafu ar sail grŵp.

## 1.6 Asedau anniriaethol ac amorteiddiad

Caiff asedau anniriaethol sy'n gysylltiedig â meddalwedd wedi'i theilwra'n arbennig a ddatblygwyd gan Ofgem i'w defnyddio wrth gynnal gwahanol gynlluniau eu cydnabod yn ôl eu cost hanesyddol a'u hamorteiddio dros eu hoes ddefnyddiol. Mae'r rheolwyr wedi ailasesu oesoedd defnyddiol yr asedau anniriaethol. Yn flaenorol, amcangyfrifwyd mai'r oesoedd defnyddiol oedd os y cynllun neu bedair blynedd, pa un bynnag oedd isaf. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn fwy priodol amcangyfrif yr oesoedd defnyddiol fel yr isaf o bum mlynedd neu'r cyfnod sy'n weddill lle disgwylir i'r feddalwedd gael ei defnyddio ar gyfer cynllun penodol. Cymhwyswyd y newid hwn yn yr amcangyfrif cyfrifyddu yn ôl-weithredol o 1 Ebrill 2024. Mae'r gostyngiad yn y traul amorteiddio gwirioneddol a disgwyliedig blynyddol (a gynhwysir o dan Gwariant Gweithredu Arall) mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu defnyddio ar ddiwedd y cyfnod adrodd fel a ganlyn:

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gostyngiad mewn amorteiddiad (£000)** | 1,759 | 2,013 | 1,992 | 1,972 | 1,135 |

Pan fyddant yn cael eu datblygu, caiff yr asedau eu dosbarthu fel asedau sy'n cael eu hadeiladu ac ni chânt eu hamorteiddio hyd nes y cânt eu comisiynu. Caiff costau datblygu sy'n uniongyrchol briodoladwy i'r gwaith o ddylunio a phrofi'r feddalwedd bwrpasol eu cyfalafu pan fyddant yn bodloni'r meini prawf a nodir yn IAS 38 Asedau Anniriaethol (fel y'u haddaswyd gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol). Caiff gwariant nad yw'n bodloni'r meini prawf ei gydnabod fel gwariant pan eir iddo.

## 1.7 Lesoedd

Mae IFRS 16 Lesoedd yn cynnig model cyfrifyddu un prydlesai, sy'n ei gwneud yn ofynnol i brydleseion gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les oni fydd tymor y les yn para 12 mis neu lai, neu os bydd yr ased sylfaenol yn bodloni meini prawf IFRS 16 i gael ei ddosbarthu'n ased "gwerth isel". Mae Ofgem wedi pennu gwerth isel i fod yn unol â'r trothwy cyfalafu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar, sef £2,000.

Ar gyfer lesoedd sy'n para 12 mis neu lai a lesoedd asedau gwerth isel, cydnabyddir y taliadau les fel traul ar sail llinell syth dros dymor y les.

Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth disgownt isafswm y taliadau les dros gyfnod perthnasol y les. Cymhwysodd Ofgem gyfradd ddisgowntio Trysorlys EF o 0.95% fel y gyfradd fenthyca gynyddraddol wrth gyfrifo'r gwerth wedi'i ddisgowntio adeg cymhwyso IFRS 16 gyntaf ar 1 Ebrill 2022. Pan gaiff taliadau les yn y dyfodol eu newid oherwydd newid mewn mynegai neu gyfradd neu adolygiad rhent, caiff y rhwymedigaethau les presennol eu mesur eto gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio heb ei newid. Defnyddir cyfradd ddisgowntio ddiwygiedig ar gyfer lesoedd presennol a gaiff eu haddasu'n briodol fel terfyniad rhannol. Lle caiff lesoedd presennol eu haddasu, penderfynir a yw'r trefniant yn gyfystyr â les ar wahân. Ni fu unrhyw addasiadau i lesoedd na lesoedd newydd yn ystod 2024-25, ond yn 2023-24, cymhwysodd Ofgem gyfradd ddisgowntio Trysorlys EF o 3.51% ar gyfer addasiadau i lesoedd a lesoedd newydd a ddigwyddodd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Rhagfyr 2023.

Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur wedi hynny gan ddefnyddio'r model mesur costau yn IFRS 16 fel dirprwy priodol ar gyfer y gwerth cyfredol o ran defnydd presennol neu werth teg. Mae hyn gan fod y lesoedd yn cynnwys telerau ar gyfer diweddaru taliadau les i gyfraddau'r farchnad. At hynny, mae gan yr asedau hawl i ddefnyddio oesoedd defnyddiol byrrach na'u hasedau sylfaenol cyfatebol.

Ar ôl cael eu cydnabod i ddechrau, caiff asedau hawl i ddefnyddio eu dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig y les a chaiff llog ei gydnabod ar y rhwymedigaethau. Caiff y ddwy gost eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr. Caiff taliadau les eu gwrthbwyso yn erbyn y rhwymedigaethau les sy'n ddyledus. Codir cost TAW na ellir ei hadennill yn ystod y cyfnod y mae'n berthnasol iddo ac felly ni chaiff ei chynnwys wrth fesur y rhwymedigaethau les ac yn dilyn hynny, wrth yr asedau hawl i ddefnyddio.

Mae lesoedd perthnasol Ofgem yn gysylltiedig â rhentu eiddo ar gyfer swyddfeydd.

## 1.8 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn cynnwys arian parod yn y banc ac mewn llaw. At ddiben y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys arian parod yn unig.

## 1.9 Darpariaethau

Lle mae gan Ofgem rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongladwy i dalu rhai costau, bydd Ofgem yn darparu ar gyfer hynny ar sail amcangyfrif y rheolwyr o werth, tebygolrwydd ac amseru taliadau yn y dyfodol. Er bod mwy o ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif yn

gysylltiedig â darpariaethau cyfreithiol, bydd rheolwyr yn llunio eu hamcangyfrif gorau yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael.

Lle mae gwerth amser arian yn berthnasol, caiff y ddarpariaeth ei disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio safonol y llywodraeth (cyfradd nominal o 5.15% ar hyn o bryd ar gyfer rhwymedigaethau buddiannau ar ôl cyflogaeth, a chyfradd nominal o 4.03% ar gyfer darpariaethau cyffredinol byrdymor a chyfradd nominal o 4.07% ar gyfer darpariaethau cyffredinol tymor canolig). Bob blwyddyn mae'r taliadau ariannol yn y Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr yn cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt blwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau i lefelau prisiau presennol.

## 1.10 Treth ar werth

Dangosir symiau llai treth ar werth (TAW), ac eithrio'r canlynol:

- codir TAW na ellir ei hadennill ar y Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr ac mae wedi'i chynnwys o dan y pennawd sy'n berthnasol i'r math o wariante
- mae TAW na ellir ei hadennill ar brynu ased wedi'i chynnwys yng nghost prynu wedi'i chyfalafu yr ased.

Mae'r swm sy'n ddyledus i/gan Gyllid a Thollau EF ar gyfer TAW wedi'i gynnwys yn y symiau taladwy/derbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## 1.11 Cyfnewid tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad pob trafodyn.

## 1.12 Risgiau ariannol

Nid yw Ofgem yn sylweddol agored i risgiau sy'n gysylltiedig â hylifedd, cyfradd llog nac arian cyfred. Oherwydd natur ei gweithgareddau a'r ffordd y caiff Ofgem ei hariannu, ni chaiff ei hamlygu i'r un graddau o risg ariannol ag y mae endidau busnes yn eu hwynebu.

## 1.13 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Amodol, cyflwynir adroddiad ar ar rwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol penodol at ddibenion adrodd ac atebolrwydd seneddol. Digwydd hyn lle cred y rheolwyr ei bod yn annhebygol iawn y caiff budd economaidd ei drosglwyddo, ond lle mae adroddiad ar y rhwymedigaethau wedi cael ei gyflwyno i Senedd y DU yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

## 1.14 Asedau sy'n eiddo i drydydd partïon

Ni chaiff asedau sy'n eiddo i drydydd partïon fel y'u datgelir yn Nodyn 15 (megis arian a ddelir mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynllluniau Tariff Cyflenwi Trydan) eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gan nad oes gan Ofgem unrhyw fudd ynddynt.

## 1.15 Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd a diwygiedig

- **IFRS 17**

Mae IFRS 17 Contractau Yswiriant yn disodli IFRS 4 Contractau Yswiriant a chaiff ei gynnwys yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol fel elfen orfodol o 2025-26. Mae'n pennu'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant o fewn cwmpas y Safon hon.

Mae IFRS 17 yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau yswiriant, gan gynnwys contractau ailyswirio, gael eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel cyfanswm y llifoedd arian parod i'w cyflawni a'r elw gwasanaeth cytundebol.

Mae'r llifoedd arian parod i'w cyflawni yn cynnwys gwerth presennol llifoedd arian parod yn y dyfodol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r tybiaethau amcangyfrif gorau ag addasiad risg penodol ar gyfer risg anariannol.

Caiff yr addasiad risg ei ryddhau yn y Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr wrth i'r risg ddirwyn i ben. Yr elw gwasanaeth cytundebol yw'r elw nas enillwyd ar gontractau yswiriant a chaiff ei ryddhau i'r Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr dros gyfnod y contract yswiriant wrth i wasanaethau yswiriant gael eu darparu.

Lle bydd contract yswiriant yn feichus, ni fydd unrhyw elw gwasanaeth cytundebol a chaiff elfen feichus y contract yswiriant ei chydnabod ar unwaith yn y Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr.

Nid yw effaith ariannol cymhwyso IFRS 17 yn hysbys eto ond ni ddisgwylir y bydd yn berthnasol i'r adran.

- **Prisio asedau nad ydynt yn fuddsoddiadau**

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Trysorlys EF ddrafft amlygiad ar newidiadau posibl i'w gwneud i'r broses o brisio a chyfrifyddu ar gyfer asedau nad ydynt yn fuddsoddiadau (e.e. eiddo, peiriannau a chyfarpar, asedau anniriaethol).

Caiff addasiad i IAS 16 ei gyflwyno er mwyn tynnu'r gofyniad i ailbrisio ased lle mae ei werth teg yn sylweddol wahanol i'w werth cario yn ôl.

Caiff yr opsiwn i fesur asedau anniriaethol gan ddefnyddio'r model ailbrisio ei dynnu'n ôl. Ystyrir mai gwerthoedd cario asedau anniriaethol ar 31 Mawrth 2025 fydd y gost hanesyddol ar 1 Ebrill 2025.

- **Arall**

Bydd Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2025-26 yn cynnwys canllawiau newydd ar gyfrif am fuddiannau cymdeithasol. Bydd Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2025-26 yn diffinio buddiannau cymdeithasol fel 'current transfers received by households (including individuals) intended to provide for the needs that arise from certain events or circumstances, for example, sickness, unemployment, retirement, housing, education, or family circumstances'. Ni ddisgwylir y bydd hyn yn cael unrhyw effaith ar yr adran.

Disgwylir i'r sector preifat fabwysiadu safonau IFRS 18 Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol ac IFRS 19 Is-gwmnïau heb Ddatgeliadau Atebolrwydd Cyhoeddus o gyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027, ond ni chadarnhawyd yr effaith ar y sector cyhoeddus na'r dyddiad gweithredu ar gyfer y sector eto.

## 1.16 Penderfyniadau cyfrifyddu hanfodol ac ansicrwydd ynghylch amcangyfrif

- **Darpariaethau**

Mae darpariaethau yn dibynnu ar arfer barn broffesiynol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill y disgwylir iddynt ddylanwadu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Lle y bernir bod rhwymedigaeth yn debygol o grisialu ac y gellir ei mesur gyda sicrwydd rhesymol, cydnabyddir darpariaeth. Datgelir rhagor o wybodaeth yn Nodiadau 1.9 a 12.

- **es ddefnyddiol asedau anghyfredol**

Ceir ansicrwydd ynglŷn ag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau anghyfredol; caiff y rhain eu hadolygu ar y dyddiad adrodd a'u diweddaru os bydd disgwyliadau yn wahanol i'r amcangyfrifon blaenorol oherwydd traul, darfodiad technegol neu fasnachol neu gyfyngiadau cyfreithiol neu gyfyngiadau eraill ar y defnydd a wneir ohonynt.

- **Tymhorau lesoedd**

O dan IFRS 16, mae Ofgem yn asesu'r tebygolrwydd y caiff cymalau terfynu neu opsiynau estyn eu harfer yn ystod tymhorau lesoedd. Mae'r amcangyfrif hwn yn pennu hyd tymor y les sy'n effeithio ar rwymedigaethau lesoedd ac asedau hawl i ddefnyddio. Caiff asesiadau o'r fath eu hadolygu os bydd digwyddiad mawr neu newid sylweddol mewn amgylchiadau.

# 2. Datganiad o wariant/(incwm) gweithredu yn ôl segment gweithredu

## 2024-25

| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Cyflawni a Chynlluniau* £000 | Gwasanaethau Corfforaethol a Chanolog £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant gros | 86,049 | 101,705 | 72,009 | 259,763 |
| Incwm | (86,049) | (77,003) | (63,693) | (226,745) |
| **Gwariant gweithredu net** | **-** | **24,702** | **8,316** | **33,018** |

## 2023-24

| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Cyflawni a Chynlluniau* £000 | Gwasanaethau Corfforaethol a Chanolog £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant gros | 71,491 | 58,561 | 59,296 | 189,348 |
| Incwm | (68,195) | (66,718) | (56,619) | (191,532) |
| **Gwariant/(incwm) gweithredu net** | **3,296** | **(8,157)** | **2,677** | **(2,184)** |

Mae adroddiadau segmentaidd yn cael eu cyflwyno ar sail gweithgarwch, yn unol ag adroddiadau misol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y sefydliad.

* Mae'r segment gweithredu hwn hefyd yn cynnwys Nwy Gwyrdd.

# 3. Gwariant

| | Nodyn | 2024-25 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau staff*:** Cyflogau** | | 119,562 | 96,631 |
| **Costau staff*:** Costau nawdd cymdeithasol | | 12,356 | 10,157 |
| **Costau staff*:** Costau pensiwn eraill | | 29,358 | 23,212 |
| **Costau staff*:** Ardoll Brentisiaethau | | 539 | 437 |
| Costau staff eraill | | 177 | 33 |
| | | **161,992** | **130,470** |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:** Cydnabyddiaeth a threuliau'r archwilwyr*** | | 155 | 149 |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:** Dibrisiant – eiddo, offer a chyfarpar | 5 | 1,483 | 1,312 |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:** Dibrisiant – asedau hawl i ddefnyddio | 7 | 1,921 | 1,824 |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:** Amorteiddio – asedau anniriaethol | 6 | 4,509 | 2,564 |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:** Addasu croniadau tâl gwyliau | | 337 | 957 |
| | | **8,405** | **6,806** |
| **Addasu croniadau tâl gwyliau:** Ymgynghoriaeth | | 15,753 | 18,828 |
| **Addasu croniadau tâl gwyliau:** Cyflenwadau a gwasanaethau swyddfa a TG | | 10,198 | 8,126 |
| **Addasu croniadau tâl gwyliau:** Gwasanaethau proffesiynol | | 8,398 | 7,418 |
| **Addasu croniadau tâl gwyliau:** Taliadau cynlluniau | | 6,951 | 1,118 |
| **Addasu croniadau tâl gwyliau:** Costau llety | | 2,922 | 2,687 |
| **Addasu croniadau tâl gwyliau:** Recriwtio a hyfforddiant | | 2,070 | 2,492 |
| **Addasu croniadau tâl gwyliau:** Teithio a chynhaliaeth | | 1,703 | 1,780 |
| **Addasu croniadau tâl gwyliau:** Costau sy'n ymwneud â staff | | 547 | 424 |
| **Addasu croniadau tâl gwyliau:** Rhenti o dan brydlesau gweithredu (Adeiladau) | | - | 40 |
| **Addasu croniadau tâl gwyliau** | | 587 | 1,029 |
| | | **49,129** | **43,942** |
| **Darpariaethau:** Symudiad mewn darpariaethau**** | 12 | 40,237 | 8,130 |
| | | **259,763** | **189,348** |

* Ceir dadansoddiad pellach o gostau staff yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ar dudalen 68
** Nid yw hyn yn cynnwys y £4.984 miliwn (£6.063 miliwn yn 2023-24) a gyfalafwyd fel rhan o gyfanswm yr ychwanegiadau i asedau anniriaethol sy'n cael eu hadeiladu yn Nodyn 6.
*** Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.
**** Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys £0.040 miliwn (£0.087 miliwn yn 2023-24) a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn am ddadfeiliadau a gyfalafwyd yn fel rhan o'r asedau hawl i ddefnyddio yn Nodyn 7, yn unol ag IFRS 16. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys £35.300 miliwn o daliadau cynllun y darparwyd ar eu cyfer (£4.917 miliwn yn 2023-24).

# 4. Incwm

| | 2024-25 Incwm £000 | 2024-25 Costau llawn £000 | 2024-25 Gwarged/ (Diffyg) £000 | 2023-24 Incwm £000 | 2023-24 Costau llawn £000 | 2023-24 Gwarged/ (Diffyg) £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd trwydded | 138,441 | 138,441 | - | 114,668 | 114,668 | - |
| Arall* | 88,304 | 121,322 | (33,018) | 76,864 | 74,680 | 2,184 |
| **Cyfanswm Gweithredu** | **226,745** | **259,763** | **(33,018)** | **191,532** | **189,348** | **2,184** |
| Incwm/traul cyllid | 1,244 | 504 | 740 | 1,159 | 531 | 628 |
| **Cyfanswm Net** | **227,989** | **260,267** | **(32,278)** | **192,691** | **189,879** | **2,812** |

| * Mae incwm arall yn cynnwys: | Nodyn | 2024-25 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|
| Tâl Tendr Trawsyrru ar y Môr a Ailgodir | | 3,427 | 3,163 |
| Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net | 14 | 61,420 | 50,703 |
| Taliadau wedi'u hailgodi a ariennir gan gynlluniau | | 10,800 | 9,230 |
| Ardoll Nwy Gwyrdd | | 9,660 | 11,212 |
| Adennill costau'r rhaglen reoleiddiol | | 2,282 | 1,957 |
| Amrywiol** | | 715 | 599 |
| | | **88,304** | **76,864** |

** Mae incwm amrywiol yn cynnwys ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwydded, adennill costau cyfreithiol a mân eitemau eraill.

# 5. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn £000 | Cyfarpar swyddfa £000 | TG £000 | Gwelliannau lesddaliadol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** Ar 1 Ebrill 2024 | 231 | 283 | 6,345 | 3,310 | 10,169 |
| **Cost neu brisiad** Ychwanegiadau | - | 9 | 2,233 | 8 | 2,250 |
| **Cost or valuation** Gwarediadau | (15) | (18) | (479) | (53) | (565) |
| **Cost neu brisiad Ar 31 Mawrth 2025** | **216** | **274** | **8,099** | **3,265** | **11,854** |
| **Dibrisiant** Ar 1 Ebrill 2024 | 226 | 228 | 4,079 | 2,562 | 7,095 |
| **Dibrisiant** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 1 | 36 | 1,212 | 234 | 1,483 |
| **Dibrisiant** Ar waredìadau | (15) | (16) | (479) | (53) | (563) |
| **Dibrisiant Ar 31 Mawrth 2025** | **212** | **248** | **4,812** | **2,743** | **8,015** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2025** | **4** | **26** | **3,287** | **522** | **3,839** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2024 | 5 | 55 | 2,266 | 748 | 3,074 |

| | Dodrefn £000 | Cyfarpar swyddfa £000 | TG £000 | Gwelliannau lesddaliadol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** Ar 1 Ebrill 2023 | 231 | 270 | 4,967 | 3,288 | 8,756 |
| **Cost neu brisiad** Ychwanegiadau | - | 13 | 1,786 | 22 | 1,821 |
| **Cost neu brisiad** Gwarediadau | - | - | (408) | - | (408) |
| **Cost neu brisiad Ar 31 Mawrth 2024** | **231** | **283** | **6,345** | **3,310** | **10,169** |
| **Dibrisiant** Ar 1 Ebrill 2023 | 220 | 163 | 3,478 | 2,330 | 6,191 |
| **Dibrisiant** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 6 | 65 | 1,009 | 232 | 1,312 |
| **Dibrisiant** Ar waredìadau | - | - | (408) | - | (408) |
| **Dibrisiant Ar 31 Mawrth 2024** | **226** | **228** | **4,079** | **2,562** | **7,095** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **5** | **55** | **2,266** | **748** | **3,074** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2023 | 11 | 107 | 1,489 | 958 | 2,565 |

Mae'r holl eiddo, offer a chyfarpar yn eiddo i Ofgem.

# 6. Asedau anniriaethol

Asedau meddalwedd gyfrifiadurol bwrpasol a grëwyd yn fewnol i'w defnyddio wrth redeg amryw gynlluniau Ofgem yw'r asedau anniriaethol.

Cânt eu dosbarthu i ddechrau fel asedau sy'n cael eu hadeiladu ac ni chânt eu hamorteiddio hyd nes y byddant yn barod i gael eu defnyddio.

| | Meddalwedd gyfrifiadurol £000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** Ar 1 Ebrill 2024 | 12,335 | 8,318 | 20,653 |
| **Cost** Ychwanegiadau | - | 8,062 | 8,062 |
| **Cost** Ailddosbarthiadau | 8,386 | (8,386) | - |
| **Cost Ar 31 Mawrth 2025** | **20,721** | **7,994** | **28,715** |
| **Amorteiddio** Ar 1 Ebrill 2024 | 3,855 | - | 3,855 |
| **Amorteiddio** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 4,509 | - | 4,509 |
| **Amorteiddio Ar 31 Mawrth 2025** | **8,364** | **-** | **8,364** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2025** | **12,357** | **7,994** | **20,351** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2024 | 8,480 | 8,318 | 16,798 |

| | Meddalwedd gyfrifiadurol £000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** Ar 1 Ebrill 2023 | 8,222 | 3,268 | 11,490 |
| **Cost** Ychwanegiadau | - | 9,163 | 9,163 |
| **Cost** Ailddosbarthiadau | 4,113 | (4,113) | - |
| **Cost Ar 31 Mawrth 2024** | **12,335** | **8,318** | **20,653** |
| **Amorteiddio** Ar 1 Ebrill 2023 | 1,291 | - | 1,291 |
| **Amorteiddio** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 2,564 | - | 2,564 |
| **Amorteiddio Ar 31 Mawrth 2024** | **3,855** | **-** | **3,855** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **8,480** | **8,318** | **16,798** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2023 | 6,931 | 3,268 | 10,199 |

# 7. Prydlesau

## 7.1 Asedau hawl i ddefnyddio

Mae contractau prydlesau Ofgem yn cynnwys prydlesau adeiladu gweithredol.

| | Adeiladau £000 |
|---|---|
| **Cost** Ar 1 Ebrill 2024 | 18,332 |
| **Cost** Ychwanegiadau | 1,837 |
| **Cost Ar 31 Mawrth 2025** | **20,169** |
| **Dibrisiant** Ar 1 Ebrill 2024 | 3,779 |
| **Dibrisiant** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 1,921 |
| **Dibrisiant Ar 31 Mawrth 2025** | **5,700** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2025** | **14,469** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2024 | 14,553 |

| | Adeiladau £000 |
|---|---|
| **Cost** Ar 1 Ebrill 2023 | 18,986 |
| **Cost** Ychwanegiadau | 2,401 |
| **Cost** Gwarediadau | (3,055) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **18,332** |
| **Dibrisiant** Ar 1 Ebrill 2023 | 1,964 |
| **Dibrisiant** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 1,824 |
| **Dibrisiant** Ar warediadau | (9) |
| **Dibrisiant Ar 31 Mawrth 2024** | **3,779** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **14,553** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2023 | 17,022 |

## 7.2 Rhwymedigaethau Prydlesau

| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgowntio: | Adeiladau 2024-25 £000 | Adeiladau 2023-24 £000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 2,077 | 1,909 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 8,118 | 7,108 |
| Ar ôl pum mlynedd | 4,709 | 5,938 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **14,904** | **14,955** |

## 7.3 Symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr

| | 2024-25 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|
| Dibrisiant | 1,921 | 1,824 |
| Traul llog | 504 | 531 |
| TAW na ellir ei hadennill | 63 | 32 |
| **Cyfanswm a godwyd i'r Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr** | **2,488** | **2,387** |

## 7.4 Symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o Lifau Arian Parod

| | 2024-25 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu'r prifswm ar brydlesau | 2,350 | 1,903 |
| **Cyfanswm all-lif arian parod ar gyfer prydlesau** | **2,350** | **1,903** |

## 8. Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses Amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r mwyafrif o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr Adran ac felly fel arfer nid yw'r Adran yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

Caiff y gwarannau a'r llythyrau credyd a ddisgrifir yn Nodyn 14 eu dal er mwyn rheoli risg yn y broses tendro ar y môr a'r Ardoll Nwy Gwyrdd a gynhelir gan Ofgem ar ran y llywodraeth. Nid yw Ofgem yn agored i risg yn gysylltiedig â'r gwarannau a ddelir ganddi mewn perthynas â'r broses hon.

# 9. Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb iddo

| | 2024-25 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 37,161 | 72,833 |
| Newid net mewn balansau arian parod | (19,615) | (35,672) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **17,546** | **37,161** |
| Delir y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 17,546 | 37,161 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **17,546** | **37,161** |

Yn ogystal â’r arian parod a’r hyn sy’n cyfateb iddo a ddatgelir uchod, mae Ofgem yn dal asedau trydydd parti ar ffurf arian parod a llythyrau credyd sy’n ymwneud â gwarannau datblygwyr tendrau ar y môr, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, a chronfeydd y Tariffau Cyflenwi Trydan, y Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy, y cynlluniau Cymorth Nwy Gwyrdd a’r Cynllun Uwchraddio Boeleri. Disgrifir y rhain yn nodyn 15.

# 10. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 2024-25 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy’n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Incwm a gronnwyd | 12,595 | 15,342 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 8,156 | 4,046 |
| Symiau TAW derbyniadwy | - | 547 |
| Rhagdaliadau | 2,778 | 2,172 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 28 | 16 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **23,557** | **22,123** |

Y symiau derbyniadwy eraill yw benthyciadau staff sy’n ddyledus, megis y rhai sy’n gysylltiedig â’r cynllun beicio i’r gwaith.

Caiff asedau wrth gefn hefyd eu cydnabod mewn perthynas ag incwm o un o adrannau eraill y llywodraeth, a ddatgelir yn nodyn 18

# 11. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2024-25<br>£000 | 2023-24<br>£000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau arian parod gormodol sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 17,546 | 37,161 |
| Ffioedd trwydded gohiriedig | 3,348 | 4,319 |
| Incwm gohiriedig arall | 74 | 158 |
| Croniadau | 15,533 | 13,729 |
| Symiau taladwy eraill | 4,248 | 4,186 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | 6,331 | 5,405 |
| TAW sy'n daladwy | 119 | - |
| Symiau masnach taladwy | 756 | 417 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **47,955** | **65,375** |

"Mae Ofgem yn annog staff i ddefnyddio eu hawl lawn i wyliau bob blwyddyn. Fodd bynnag, gall staff gario hyd at ddeg diwrnod o wyliau nas defnyddiwyd drosodd i'r flwyddyn nesaf. Caiff symiau nas defnyddiwyd ar 31 Mawrth eu cronni o fewn “”symiau taladwy eraill””.

Dim ond y credydwr staff a gynhwysir o fewn symiau taladwy eraill “.

## 12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ymddeol yn gynnar £000 | Ymadael gwirfoddol £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfreithiol £000 | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2024 | 62 | 336 | 1,560 | 2,800 | 4,917 | 30 | 9,705 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 400 | 40 | 9,600 | 32,380 | 59 | 42,479 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | (118) | - | (2,100) | - | - | (2,218) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (22) | (104) | - | - | - | - | (126) |
| Effaith disgowntio | 11 | - | 5 | - | - | - | 16 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **51** | **514** | **1,605** | **10,300** | **37,297** | **89** | **49,856** |

| | Ymddeol yn gynnar £000 | Ymadael gwirfoddol £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfreithiol £000 | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2023 | 78 | - | 1,810 | 2,825 | - | 30 | 4,743 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 336 | 87 | 3,406 | 4,917 | - | 8,746 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | - | (341) | (196) | - | - | (537) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (20) | - | - | (3,235) | - | - | (3,255) |
| Effaith disgowntio | 4 | - | 4 | - | - | - | 8 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **62** | **336** | **1,560** | **2,800** | **4,917** | **30** | **9,705** |

| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgownito ar 31 Mawrth 2025 | Ymddeol yn gynnar £000 | Ymadael gwirfoddol £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfreithiol £000 | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 14 | 514 | - | 10,300 | 37,297 | 89 | 48,214 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 28 | - | 338 | - | - | - | 366 |
| Ar ôl pum mlynedd | 9 | - | 1,267 | - | - | - | 1,276 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **51** | **514** | **1,605** | **10,300** | **37,297** | **89** | **49,856** |

| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgownito ar 31 Mawrth 2024 | Ymddeol yn gynnar £000 | Ymadael gwirfoddol £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfreithiol £000 | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 14 | 336 | - | 2,800 | 4,917 | 30 | 8,097 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 38 | - | 338 | - | - | - | 376 |
| Ar ôl pum mlynedd | 10 | - | 1,222 | - | - | - | 1,232 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **62** | **336** | **1,560** | **2,800** | **4,917** | **30** | **9,705** |

**Ymddeol yn gynnar**
Yr adran sy'n talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS i gyflogeion, a oedd yn gweithio yn swyddfa Ofgem yng Nghaerlŷr, drwy dalu'r symiau gofynnol yn fisol i'r PCSPS.

**Ymadael gwirfoddol**
Mae darpariaethau diswyddo yn gysylltiedig ag achosion o ymadael gwirfoddol a drafodwyd â'r aelodau o staff dan sylw cyn 31 Mawrth 2025 ond na ddisgwylir iddynt ddigwydd tan 2025-26.

**Dadfeiliadau**
Mae darpariaethau dadfeiliadau yn rhagweld cost adfer eiddo a brydlesir gan yr adran i'w gyflwr fel yr oedd ar ddechrau'r brydles yn y dyfodol.

**Cyfreithiol**
Roedd nifer o risgiau cyfreithiol yn deillio o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan Ofgem yn ystod 2024-25. Amcangyfrifwyd gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar yr asesiad gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol o'r tebygolrwydd o her a pha mor llwyddiannus y gallai fod. Mae'r amcangyfrif cost yn ystyried ffactorau fel lefel cymhlethdod, yr adnoddau yr amcangyfrifir y bydd eu hangen i ymateb i her a chostau trydydd parti posibl.

**Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd**
Mae'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd (GGSS) yn gwneud taliadau i gyfranogwyr cofrestredig. Mae proses gwneud cais tri cham cyn y gellir cofrestru cyfranogwyr. Mae'r ddarpariaeth yn cydnabod ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd camau terfynol y broses, sy'n debygol o gael eu cofrestru â'r cynllun yn y dyfodol, ac y mae'n debygol y caiff taliadau yn y dyfodol eu hôl-ddyddio hyd at 31 Mawrth 2025. Mae gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar allbynnau amcangyfrifedig a'r dyddiad cymhwyso amcangyfrifedig.

**Darpariaethau eraill**
Mae darpariaethau eraill yn cynnwys costau dyledus sy'n ymwneud â diffyg hanesyddol mewn cyfraniadau pensiwn ar gyfer rhai aelodau o staff a chyn-aelodau o staff, yn ogystal â chosbau treth.

## 13. Rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan IAS 37

O bryd i'w gilydd byddwn yn destun her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol o benderfyniadau a wneir yn ystod ein busnes arferol fel rheoleiddiwr y marchnadoedd nwy a thrydan. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at atebolrwydd i dalu costau cyfreithiol ond ni ellir mesur y rhain gan y byddai canlyniad yr achos yn anhysbys. Felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ganlyniadol

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol y mae'n ofynnol eu datgelu o dan IAS 37."

## 14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd £17.860 miliwn gennym i'r Adran Busnes a Masnach am wasanaethau eirioli. Roedd £1.073 miliwn arall wedi cronni ar 31 Mawrth 2025 am wasanaethau metroleg a chaiff ei drosglwyddo i'r Adran yn ystod 2025-26. Caiff y cronfeydd hyn eu casglu gan Ofgem drwy ffi'r drwydded, ar ran yr Adran. Yn 2023-24, trosglwyddwyd £16.081 miliwn i'r Adran am wasanaethau eirioli a £0.998 miliwn am wasanaethau metroleg. Rydym yn gweinyddu rhaglenni amgylcheddol ar ran yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ). Cyfanswm yr incwm gan DESNZ a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn oedd £61.420 miliwn, yr oedd £5.896 miliwn ohono wedi cronni ar 31 Mawrth 2025 (£50.703 miliwn o incwm yn 2023-24 gyda £9.118 miliwn wedi cronni ar 31 Mawrth 2024).

Rydym yn gweinyddu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi, ac yn gweinyddu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau. Cydnabuwyd incwm o £1.018 miliwn yn ystod y flwyddyn gan Adran yr Economi, yr oedd £0.238 miliwn ohono wedi cronni ar 31 Mawrth 2025 (incwm o £0.855 miliwn yn 2023-24 gyda £0.173 miliwn wedi cronni ar 31 Mawrth 2024). Cydnabuwyd incwm o £2.277 miliwn yn ystod y flwyddyn gan Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau, yr oedd £0.117 miliwn ohono wedi cronni ar 31 Mawrth 2025 (incwm o £1.800 miliwn yn 2023-24 gyda £0.072 miliwn wedi cronni ar 31 Mawrth 2024). Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn ffigur y Taliadau a Ailgodir drwy Gynlluniau yn Nodyn 4.

Yn ogystal, rydym wedi ymgymryd â nifer bach o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog.

Un o aelodau'r Bwrdd, Graham Mather, yw'r Llywydd ac un o gyfarwyddwyr y Fforwm Polisi Ewropeaidd Cyfyngedig. Mae Ofgem yn aelod o'r Fforwm Seilwaith, sy'n rhan o'r sefydliad hwn. Talodd Ofgem ffi aelodaeth o £7,500 i'r Fforwm Polisi Ewropeaidd Cyfyngedig ar gyfer 2024-25 (2023-24: £7,500).

Yn ogystal, cyflogwyd Tony Curzon Price drwy asiantaeth i ymgymryd â gwaith cynghori cyn iddo gael ei benodi fel cyfarwyddwr anweithredol ym mis Tachwedd 2023. Roedd y trefniant â'r asiantaeth ar waith o fis Medi 2022 hyd at fis Hydref 2023 ac roedd ar sail hyd braich. Ni chafwyd unrhyw drafodion yn ystod 2024-25. Yn ystod 2023-24, talodd Ofgem £58,968 gan gynnwys TAW i'r asiantaeth am wasanaethau cynghori Tony Curzon Price.

Daeth un o gyflogeion Ofgem yn gyfarwyddwr FIGURE Forum CIC ym mis Awst 2023. Gwariodd Ofgem £15,260 mewn perthynas â FIGURE Forum CIC ar gyfer 2023-24 rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024. Ni fu unrhyw wariant mewn perthynas â 2024-25.

Nid oes unrhyw aelodau eraill o'r Awdurdod, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Ofgem yn ystod y flwyddyn ac eithrio'r gydnabyddiaeth a nodir ar dudalen 62.

# 15. Asedau trydydd partïon

## Gwarannau Datblygwyr Tendrau ar y Môr

Ynghyd â'r llywodraeth, rydym wedi sefydlu cyfundrefn reoleiddio trawsyrru ar y môr gystadleuol i benodi perchennog Trawsyrru ar y Môr drwy broses dendro gystadleuol.

Ni sy'n gyfrifol am reoli'r broses dendro gystadleuol y rhoddir trwyddedau trawsyrru ar y môr drwyddi.

Mae rhoi trwyddedau i weithredu asedau trawsyrru ar y môr newydd drwy broses dendro gystadleuol yn golygu y caiff cynhyrchwyr ynni eu partneru â'r chwaraewyr mwyaf effeithlon a chystadleuol yn y farchnad. Dylai hyn arwain at gostau is a safonau gwasanaeth uwch i gynhyrchwyr ynni ac, yn y pen draw, y defnyddwyr.

Rhan o strategaeth rheoli risg Ofgem ar gyfer y broses dendro gystadleuol yw dal gwarannau at ddibenion adennill costau os na chwblheir proses dendro. Mae'r gwarannau hyn ar ffurf llythyr credyd neu arian parod. Ar 31 Mawrth 2025 roedd Ofgem yn dal £8.450 miliwn mewn llythyrau credyd a £dim mewn arian parod (31 Mawrth 2024: £8.250 miliwn mewn llythyrau credyd, £dim mewn arian parod).

## Y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Mae'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn un o'r prif ddulliau o gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn y DU, a gweinyddir y cynllun gan Ofgem. Caeodd y cynllun i ymgeiswyr yn 2017. Ceir rhagor o wybodaeth am y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn https://www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/ro/about-ro

Defnyddir sawl cyfrif banc i weinyddu'r cynllun:

- Cronfeydd allbrynu – Gall cyflenwyr gyflawni eu rhwymedigaeth ynni adnewyddaddwy drwy dalu i mewn i'r gronfa allbrynu. Caiff enillion y gronfa allbrynu eu had-dalu ar sail pro-rata i'r cyflenwyr hynny sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.
- Taliadau hwyr – Bydd unrhyw daliadau sy'n dod i law ar ôl 31 Awst yn daliadau hwyr. Mae'r rhain yn destun cosb llog ddyddiol flynyddol (5% a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr).
- Cilyddu – Pan fydd diffyg cyffredinol yn swm y rhwymedigaeth, mae'n ofynnol i gyflenwyr wneud taliad tuag at gilyddu. Caiff cronfeydd cilyddu eu hailddosbarthu i gyflenwyr sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.

Cyfanswm y balansau banc a ddaliwyd mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar 31 Mawrth 2025 oedd £3.628 miliwn (31 Mawrth 2024: £40.477 miliwn). Cydnabuwyd incwm o £7.505 miliwn yn 2024-25 mewn perthynas 131 chynlluniau'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (incwm o £6.575 miliwn yn 2023-24). Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn ffigur y Taliadau a Ailgodir drwy Gynlluniau yn Nodyn 4.

## Cronfeydd lefelu'r cynllun Tariff Cyflenwi Trydan

Rhaglen gan y llywodraeth yw'r cynllun Tariff Cyflenwi Trydan, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2010, gyda'r nod o hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r cynllun ar ran yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ), sy'n gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun Tariff Cyflenwi Trydan, tra bod Cyflenwyr Trydan Trwyddedig (Trwyddedeion FIT) yn gweithredu'r agwedd ar y cynllun sy'n wynebu'r cyhoedd. Os bydd gan ddeiliad tŷ, cymuned neu fusnes osodiad cymwys, telir tariff iddynt am y trydan a gynhyrchir ganddynt a thariff am y trydan a allforir ganddynt yn ôl i'r grid gan eu Trwyddedai FIT.

Mae'r broses lefelu a weithredir gan Ofgem yn ailddosbarthu cost y cynllun ymhlith yr holl Gyflenwyr Trydan

Trwyddedig, yn seiliedig ar eu cyfran o Farchnad Drydan Prydain Fawr ac unrhyw Daliadau FIT a wnaed ganddynt i osodiadau achrededig. Proses chwarterol yw hon, gyda phroses gysoni flynyddol a gwblheir erbyn mis Medi bob blwyddyn. Fel arfer, mae'r balans yn y gronfa lefelu yn werth bach ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Cyfanswm y balansau banc a ddaliwyd mewn perthynas â FIT ar 31 Mawrth 2025 oedd £0.285 miliwn (31 Mawrth 2024: £0.916 miliwn).

## Cynlluniau cymhelliant gwres adnewyddadwy (RHI) domestig ac annomestig

Mae'r cynllun RHI domestig yn gynllun ariannol gan y llywodraeth i annog newid i systemau gwresogi adnewyddadwy. Mae'n ffordd o helpu'r DU i leihau allyriadau carbon ac mae ar gael i gartrefi oddi ar y grid nwy ac ar y grid nwy.

Mae'r cynllun RHI annomestig yn rhaglen amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n rhoi cymhellion ariannol i gynyddu'r defnydd o wres adnewyddadwy gan fusnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau nid er elw.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r ddau gynllun ar ran DESNZ ym Mhrydain Fawr, ac mae'n gweinyddu'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig yng Ngogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi. Y balansau banc a ddaliwyd mewn perthynas â'r cynlluniau ar 31 Mawrth 2025 oedd: RHI domestig: £2.703 miliwn; RHI annomestig Prydain Fawr: £0.600 miliwn; RHI annomestig Gogledd Iwerddon: £0.710 miliwn (31 Mawrth 2024: £3.787 miliwn; £0.106 miliwn; £0.114 miliwn).

## Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd

Cynllun amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n cynnig cymhellion ariannol ar gyfer safleoedd biofethan treulio anerobig newydd er mwyn cynyddu cyfran y nwy gwyrdd yn y grid nwy yw'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Agorodd y cynllun i gyfranogwyr ar 30 Tachwedd 2021 ac mae ar agor i geisiadau tan 31 Mawrth 2028. Gwneir taliadau bob chwarter i gyfranogwyr cofrestredig dros gyfnod o 15 mlynedd, ar sail y swm o fiofethan cymwys y bydd cyfranogwr yn ei gyfrannu at y grid nwy.

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd 2021, mae'r Ardoll Nwy Gwyrdd yn gosod rhwymedigaethau ar gyflenwyr nwy trwyddedig, gan gynnwys gofyniad i wneud taliadau ardoll bob chwarter i Ofgem er mwyn ariannu'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Rhaid i gyflenwyr nwy trwyddedig hefyd gynnig yswiriant credyd, naill ai ar ffurf arian parod neu drwy gyflwyno llythyr credyd dilys, er mwyn helpu i sicrhau y caiff yr arian ei gasglu'n brydlon ac er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen digwyddiadau cilyddu. Rhaid i'r yswiriant credyd bara o leiaf chwarter a'r pedair wythnos dilynol. Pan fydd ar waith, gall Ofgem ddefnyddio yswiriant credyd cyflenwyr mewn achosion pan fydd cyflenwr yn peidio â thalu taliad ardoll neu daliad cilyddu cyfan neu ran ohono erbyn y dyddiad dyledus. Ar 31 Mawrth 2025, roedd Ofgem yn dal £1.425m mewn yswiriant credyd arian parod a £3.500 miliwn mewn llythyrau credyd (31 Mawrth 2024: £1.915 miliwn mewn yswiriant credyd arian parod, £1.950 miliwn mewn llythyrau credyd).

Caiff y polisi ar gyfer GGSS, a'r GGL cysylltiedig, ei bennu gan DESNZ ond caiff y cynllun ei weinyddu gan Ofgem.

## Cynllun Uwchraddio Boeleri

Cynllun amgylcheddol gan y Llywodraeth sy'n helpu i ddatgarboneiddio gwres mewn adeiladau yw'r Cynllun Uwchraddio Boeleri. Mae'n rhoi grantiau cyfalaf ymlaen llaw er mwyn helpu i dalu costau gosod pympiau gwres a boeleri biomas mewn cartrefi ac adeiladau annomestig yng Nghymru a Lloegr. Agorodd y cynllun yn 2022 ac ar 30 Mawrth 2023, cyhoeddodd y llywodraeth y byddai'r cynllun yn cael ei ymestyn am dair blynedd hyd at 2028. Ofgem yw gweinyddwr y cynllun, ac mae DESNZ yn gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun a nodir yn Rheoliadau Cynllun Uwchraddio Boeleri (Cymru a Lloegr) 2022. Y balans banc a ddaliwyd mewn perthynas â'r cynllun ar 31 Mawrth 2025 oedd £11.068 miliwn (31 Mawrth 2024: £17.258 miliwn).

# 16. Cosbau ariannol

Mae'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn gyfrifol am gymryd camau gorfodi, gan gynnwys rhoi cosbau ariannol, mewn perthynas â'r cwmnïau ynni y mae'n eu rheoleiddio. Casglwn y symiau hyn er mwyn eu talu i'r Gronfa Gyfunol. Mae crynodeb o'r ymchwiliadau a'r camau gorfodi ar gyfer y flwyddyn i'w weld yn Atodiad II.

| | 2024-25<br>£000 | 2023-24<br>£000 |
|---|---|---|
| Cosbau a osodwyd | - | 5,411 |
| | **-** | **5,411** |

Y cosbau a osodwyd yn ystod 2024-25 oedd £dim (2023-24: £5,411,153).

# 17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cafodd y broses o gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ei hawdurdodi'n briodol gan y Swyddog Cyfrifyddu ar ddyddiad tystysgrif archwilio'r.

# 18. Asedau Wrth Gefn

Ar 31 Mawrth 2025, os gwneir y taliad yn erbyn un o'r darpariaethau cyfreithiol a restrir yn nodyn 12, mae'n debygol y caiff Ofgem ei ad-dalu'n llawn gan un o adrannau eraill y llywodraeth.

Mae'r derbyniad hwn yn dibynnu ar gyflawni'r amodau a fydd yn ysgogi'r taliad; caiff y gwerth adenilladwy ei feintioli yn unol â chostau'r ddarpariaeth, sef £9.0m (31 Mawrth 2024: £dim)



# Atodiadau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2024-25

# Atodiad I

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

### Prosesau Rhanddeiliaid a Rheoleiddio'r Diwydiant

| Metrig (DPAau) | Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur | Targedau blynyddol gyfer 2024-25 | Gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| Proses trawsyrru ar y môr | Rhoddwyd trwydded o ddechrau ymgyngoriadau Adran 8a | - | 47 diwrnod |
| Proses trawsyrru ar y môr | Dewis Cynigydd a Ffefrir i gyflwyno'r "Gwahoddiad i Dendro" (heb gynnwys y Cynigion "Gorau" a "Therfynol") | - | 103 diwrnod |
| Ceisiadau am drwydded | Penderfyniadau ar geisiadau am drwydded a wnaed o fewn y cyfnod penodedig | 100% | 100% |
| Cysylltiadau cwsmeriaid | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau cwsmeriaid | 80% within 10 working days | 99.46% |
| Chwythwyr chwiban | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i chwythwyr chwiban (allanol) | 100% - 1 diwrnod gwaith i gael ymgysylltiad cychwynnol | 100% |

### DPAau Cynlluniau Amgylcheddol a Chymdeithasol

Caiff dangosyddion perfformiad cynlluniau eu cyhoeddi'n rheolaidd yn adran Cynlluniau Amgylcheddol a Chymdeithasol gwefan Ofgem. Ceir crynodeb o rai o'r metrigau isod, gan restru'r cynllun, y metrig ac a lwyddwyd i gyrraedd y targed neu ragori arno ar gyfer 2024-25.

| Cynllun | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith (targed = 80%) | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes (targed = 99%) | Gwneud taliadau o fewn y nifer o ddiwrnodau gwaith y cytunwyd arno (targed = 90% ar gyfer NDRHI/95% ar gyfer cynlluniau eraill) |
|---|---|---|---|
| Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Domestig (DRHI) | Yes | Islaw'r targed ym mis Tachwedd 2024 (98.15%) | Yes |
| Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig (NDRHI) | Yes | Islaw'r targed ym mis Mai 2024 (98.94%), Tachwedd 2024 (98.15%) a Rhagfyr 2024 (80.56%) | Yes |
| Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (RO) | Yes | Islaw'r targed ym mis Tachwedd 2024 (98.15%) | Islaw'r targed ym mis Gorffennaf 2024 (89.2%) |

| Cynllun | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith (targed = 80%) | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes (targed = 99%) | Gwneud taliadau o fewn y nifer o ddiwrnodau gwaith y cytunwyd arno (targed = 90% ar gyfer NDRHI/95% ar gyfer cynlluniau eraill) |
|---|---|---|---|
| Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) | Yes | Islaw'r targed ym mis Mehefin 2024 (97.78%) a mis Tachwedd 2024 (98.15%) | Yes |
| Energy Company Obligation (ECO) | Yes | Below Target in June 2024 (97.78%) & November 2024 (98.15%) | - |
| Great British Insulation Scheme (GBIS) | Yes | Below Target in November 2024 (94.71%) | - |
| Warm Home Discount (WHD) | Yes | - | - |
| Boiler Upgrade Scheme (BUS) | Yes | Below Target in November 2024 (98.15%) | Yes |
| Green Gas Support Scheme | Yes | Below Target in November 2024 (98.15%) | Yes |

## Twyll a gwallau mewn cynlluniau

Mae Ofgem yn gweithredu'n seiliedig ar risg er mwyn trechu twyll ar y cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol y mae'n eu gweinyddu. Mae gan Ofgem dîm Trechu Twyll penodedig i ganfod, atal a rhwystro twyll ar y cynlluniau a phan fyddwn yn canfod achos o dwyll, rydym yn ei gymryd o ddifrif. Y ffordd fwyaf effeithiol o leihau twyll yn y cynlluniau yw atal, felly mae Ofgem yn gweithio'n agos gydag awduron polisi i asesu risgiau twyll ac i roi rheolaethau cadarn ar waith i'w gwneud hi'n anos fyth i dwyllwyr osgoi cael eu canfod.

Er mwyn canfod twyll yn fwy effeithiol, mae'r tîm Trechu Twyll yn monitro risgiau a thueddiadau ac yn defnyddio dadansoddeg data, sy'n ei alluogi i dargedu adnoddau at feysydd risg uchel, ac i nodi meysydd pryder sy'n dod i'r amlwg cyn gynted â phosibl. Rydym yn ategu hyn â dull samplu trylwyr drwy ein gwaith archwilio er mwyn helpu i nodi camweddau ar gam cynnar. Mae hyn yn helpu i atal twyllwyr eraill yn y meysydd lle rydym yn gweld y lefel uchaf o dwyll ar yr adeg honno, ac i atal materion sy'n dod i'r amlwg rhag dod yn feysydd risg uchel yn y dyfodol.

Rydym yn monitro tueddiadau diffyg cydymffurfio a lefel yr achosion o dwyll a gwallau yn y cynlluniau sy'n cymryd rhan drwy ein rhaglenni archwilio. Mae gwerth y gwallau a ddatganwyd yn cynrychioli effaith amcangyfrifedig twyll a gwallau.

- Amcangyfrifir mai gwerth y taliadau gwallus a wnaed yn ystod 2024-2025 o dan y Cynllun Uwchraddio Boeleri oedd £4.6m (2.42% o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfwng hyder o £1.8 i £7.4 miliwn. 2023-2024 wedi'i ailddatgan: £1.9 miliwn (2.14% o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfwng hyder 95% o £0.7m i £3.1m.

Cafwyd cynnydd yng ngwerth y gwallau o wall gwirioneddol o £1.9m yn 2023-24 i wall amcangyfrifedig o £4.6m ar gyfer 2024-25. Mae hyn oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys y cynnydd yng ngwerth y grant ei hun, nodi mater newydd lle roedd gosodwyr yn hawlio'r daleb cyn cwblhau'r gwaith gosod yn llawn ac achos twyll sylweddol.

- Amcangyfrifir mai gwerth y taliadau gwallus a wnaed yn ystod 2024-25 o dan Gynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Prydain Fawr oedd £9.8m (0.9% o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfwng hyder 95% o £6.5 miliwn i £13.0 miliwn (2023-24: £3.2 miliwn (0.3% o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfwng hyder 95% o £2.1 miliwn i £4.3 miliwn). Caiff y gyfradd gwallau ei chyfrifo o'r gwerthoedd canfod ac atal a gaiff eu sefydlu yn ystod pob blwyddyn gyfrifyddu. Roedd gwerth canfod 2024-25 deirgwaith gwerth y flwyddyn flaenorol.

# Atodiad II

## Ymchwiliadau a Chamau Gorfodi 2024-25

Mae manylion ein hachosion ar gael ar ein gwefan yn unol â'n polisi fel y'i nodir yn ein Canllawiau Gorfodi. Byddwn fel arfer yn cyhoeddi manylion byr y ffeithiau a natur yr ymchwiliadau ar ein gwefan, er bod polisi yn wahanol ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â'r Rheoliad ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni Cyfanwerthu (REMIT) a Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS).

Isod ceir manylion y taliadau unioni a sicrhaodd Ofgem drwy gamau gweithredu amgen neu waith cydymffurfio. Mae hyn yn rhoi cyfle i gwmni unioni pethau'n gyflym i ddefnyddwyr heb i ni arfer ein pwerau gorfodi statudol.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Scottish Power Energy Retail Limited ("SP") | Cyflwynodd SP wybodaeth i Ofgem yn datgan ei fod, drwy gamgymeriad, rhwng 2015 a 2023, wedi codi cyfradd uwch ar 1,699 o gwsmeriaid debyd uniongyrchol, sef cyfradd y dylid ond ei chodi ar y rhai hynny sy'n talu drwy gredyd safonol (ar ôl cael bil). O ganlyniad, cododd SP symiau rhy uchel ar gwsmeriaid ar gyfer 11 o gyfnodau cap ar brisiau (daeth y cap ar brisiau i rym ar 1 Ionawr 2019). | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd SP gyfanswm o £1,500,000. Ad-dalodd SP £250,000 a thalodd £250,000 pellach ar ffurf ewyllys da i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. Yn ogystal, cytunodd SP i dalu £1,000,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem (y cyfeirir ati hefyd fel y Cynllun Unioni Gwirfoddol). | Ebrill 2024 |
| Southern Electric Power Distribution plc ("SEPD") | Ymchwiliodd Ofgem i brosesau SEPD i gwsmeriaid bregus, gan roi ystyriaeth benodol i'r gofrestr gwasanaethau â blaenoriaeth, trin cwsmeriaid yn deg ac argaeledd adnoddau. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Gwnaeth SEPD roddion gwirfoddol gwerth cyfanswm o £150,000 i elusennau lleol. | Mai 2024 |
| Beatrice Offshore Windfarm Limited ("BOWL") | Yn dilyn cyfnod o waith ymgysylltu ynghylch cydymffurfiaeth ag Ofgem, derbyniodd BOWL ei fod wedi codi prisiau rhy uchel er mwyn lleihau ei allbwn cynhyrchu pan oedd angen gwneud hynny er mwyn sicrhau cydbwysedd yn y grid trydan, gan felly gynyddu costau i ddefnyddwyr. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd BOWL i dalu £33,140,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Mai 2024 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| E.ON Next ("E.ON") | Cyflwynodd E.ON wybodaeth yn datgan nad oedd wedi bod yn cydymffurfio â'i ofyniad i arddangos y Neges Tariff Rhataf i'w gwsmeriaid Economy 7. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd E.ON gyfanswm o £2,148,312. Gwnaeth E.ON daliadau ewyllys da o £2,064,172 ac ôl-ddyddiodd arbedion i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. Yn ogystal, cytunodd E.ON i dalu £84,140 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Mehefin 2024 |
| Utilita Energy Limited ("Utilita") | Cyflwynodd Utilita wybodaeth yn datgan ei fod wedi codi symiau rhy uchel ar dros 17,000 o gwsmeriaid â mesuryddion rhagdalu SMETS 1 deallus ar gyfer trydan a nwy rhwng 2019 a 2022 oherwydd gwall technegol. Cyflwynodd Utilita hefyd wybodaeth yn sôn am broblemau wrth ad-dalu cwsmeriaid yr oedd problemau wrth gysylltu mesuryddion deallus wedi effeithio arnynt. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd Utilita gyfanswm o £1,598,172. Ad-dalodd Utilita £437,708 a thalodd £922,355 pellach mewn iawndal i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. Yn ogystal, cytunodd Utilita i dalu £238,109 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Mehefin 2024 |
| E.ON | Cyflwynodd E.ON wybodaeth yn datgan fod achosion o fethu â thalu iawndal am fethu â chynnig apwyntiad o fewn cyfnod rhesymol wedi effeithio ar 12,369 o gwsmeriaid rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ebrill 2023. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd E.ON gyfanswm o £958,740. Talodd E.ON £742,140 mewn taliadau Safonau Perfformiad Gwarantedig a £189,770 mewn iawndal i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. Yn ogystal, cytunodd E.ON i dalu £26,830 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Gorffennaf 2024 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Drax Power Limited ("Drax") | Ymchwiliodd Ofgem er mwyn canfod a oedd Drax wedi torri'r gofynion ar gyfer adroddiadau proffilio blynyddol mewn perthynas â chynllun y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a materion cysylltiedig eraill. Ffocws yr ymchwiliad oedd y trefniadau llywodraethu data a'r rheolaethau a oedd ar waith gan Drax i lywio ei broses ar gyfer cyflwyno data proffilio i Ofgem er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Orchymyn y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy 2015. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Drax i dalu £25,000,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Awst 2024 |
| OVO Energy Limited ("OVO") | Ar ôl cynnal gwaith ymgysylltu ynghylch cydymffurfiaeth ag Ofgem, cydnabu OVO yr effaith andwyol ar ei allu i wasanaethu cwsmeriaid wrth ymdrin â chwynion gan ddefnyddwyr. Effeithiodd methiannau ym mhrosesau OVO ar gyfer ymdrin â chwynion gan gwsmeriaid ar 1,935 o'i gwsmeriaid. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd OVO gyfanswm o £2,378,512. Talodd OVO £378,512 o daliadau iawndal yn uniongyrchol i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. Yn ogystal, cytunodd OVO i dalu £2,000,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Medi 2024 |
| OVO | Yn dilyn gwaith ymgysylltu ynghylch cydymffurfiaeth ag Ofgem, canfu Ofgem fod OVO, drwy gamgymeriad, wedi codi symiau rhy uchel ar 2,372 o Gwsmeriaid Perthnasol â Seilwaith Mesuryddion Cyfyngedig drwy godi mwy nag un tâl sefydlog, a oedd, o'u cyfuno â'r cyfraddau uned, yn uwch na'r cap ar brisiau am wahanol gyfnodau amser rhwng mis Ionawr 2019 a mis Ebrill 2024. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd OVO gyfanswm o £882,134.78. Talodd OVO £602,066.05 mewn ad-daliadau a £280,068.73 mewn taliadau ewyllys da i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. | Hydref 2024 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Opus Energy Limited ("Opus") | Cyflwynodd Opus wybodaeth i Ofgem yn datgan ei fod wedi codi symiau rhy uchel ar gyfrifon 87,825 o gwsmeriaid annomestig oherwydd gwall technegol yn ei system filio. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd Opus gyfanswm iawndal o £7,077,077. Ad-dalodd Opus £3,914,531 i gwsmeriaid a thalodd £2,901,613 pellach ar ffurf ewyllys da. Yn ogystal, cytunodd Opus i dalu £260,933 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Tachwedd 2024 |
| E.ON | Rhwng mis Chwefror 2021 a mis Medi 2023, methodd E.ON ag anfon biliau terfynol at gwsmeriaid â mesuryddion rhagdalu o fewn 6 wythnos o drosglwyddo cyflenwr neu ddod â'r Contract Cyflenwi Domestig i ben (h.y., ar ôl iddynt roi'r gorau i ddefnyddio cyflenwad gan E.ON). | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd E.ON gyfanswm o £14,500,000. Ad-dalodd E.ON £4,700,000 a thalodd £6,600,000 pellach mewn taliadau Safonau Perfformiad Gwarantedig i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. Yn ogystal, cytunodd E.ON i dalu £3,200,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Tachwedd 2024 |
| Maxen Power Supply Limited ("Maxen") | Nododd Ofgem faterion â gweithdrefnau gwasanaeth cwsmeriaid Maxen mewn perthynas ag ymdrin â chwynion a newid tenantiaeth, ei allu gweithredol a'r gofyniad arno i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad oedd ei gontractau tybiedig yn rhy feichus. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Maxen i dalu £1,650,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Rhagfyr 2024 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| So Energy Trading Limited ("So Energy") | Yn dilyn gwaith ymgysylltu ynghylch cydymffurfiaeth ag Ofgem, canfu Ofgem fod So Energy, drwy gamgymeriad, wedi codi symiau rhy uchel ar 1,558 o Gwsmeriaid Perthnasol â Seilwaith Mesuryddion Cyfyngedig drwy godi mwy nag un tâl sefydlog, a oedd, o'u cyfuno â'r cyfraddau uned, yn uwch na'r cap ar brisiau am wahanol gyfnodau amser rhwng mis Ionawr 2019 a mis Ebrill 2024. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd So Energy gyfanswm o £324,327. Talodd So Energy £266,041 mewn ad-daliadau a £58,286 mewn taliadau ewyllys da i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. | Chwefror 2025 |
| Utility Warehouse ("UW") | Yn dilyn gwaith ymgysylltu ynghylch cydymffurfiaeth ag Ofgem, canfu Ofgem fod UW, drwy gamgymeriad, wedi codi symiau rhy uchel ar 8,272 o Gwsmeriaid Perthnasol â Seilwaith Mesuryddion Cyfyngedig drwy godi mwy nag un tâl sefydlog, a oedd, o'u cyfuno â'r cyfraddau uned, yn uwch na'r cap ar brisiau am wahanol gyfnodau amser rhwng mis Ionawr 2019 a mis Ebrill 2024. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd UW gyfanswm o £2,497,058.84. Talodd UW £2,043,098.84 mewn ad-daliadau a £453,960 mewn taliadau ewyllys da i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. | Mawrth 2025 |
| Octopus Energy Limited ("Octopus") | Yn dilyn gwaith ymgysylltu ynghylch cydymffurfiaeth ag Ofgem, canfu Ofgem fod Octopus, drwy gamgymeriad, wedi codi symiau rhy uchel ar 20,862 o Gwsmeriaid Perthnasol â Seilwaith Mesuryddion Cyfyngedig drwy godi mwy nag un tâl sefydlog, a oedd, o'u cyfuno â'r cyfraddau uned, yn uwch na'r cap ar brisiau am wahanol gyfnodau amser rhwng mis Ionawr 2019 a mis Ebrill 2024. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Talodd Octopus gyfanswm o £3,183,162. Talodd Octopus £2,636,884 mewn ad-daliadau a £546,278 mewn taliadau ewyllys da i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. | Mawrth 2025 |

Yn ogystal â hyn, arweiniodd gwaith ymgysylltu arall ynghylch cydymffurfiaeth at y canlynol

| Math o effaith | Gwerth |
|---|---|
| Ad-daliadau i gwsmeriaid | £241,872.40 |
| Taliadau iawndal i ddefnyddwyr | £249,022.21 |
| Taliadau unioni i'r Gronfa Unioni Gwirfoddol | £84,615.75 |
| **Cyfanswm** | **£575,510.36** |

## Achosion Agored

Isod ceir yr ymchwiliadau agored fel yr oeddent ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Noder, nid yw agor ymchwiliad yn awgrymu ein bod wedi gwneud unrhyw ganfyddiad(au) ynghylch diffyg cydymffurfiaeth. Nid yw Ofgem yn cyhoeddi gwybodaeth am bob ymchwiliad agored, yn arbennig pan fydd Ofgem yn cynnal ymchwiliadau i achosion posibl o fethu â chydymffurfio â gofynion REMIT neu Reoliadau NIS. Fel rheol, nid ydym yn rhoi sylwadau pellach ar yr ymchwiliadau hyn, gan gynnwys pwy rydym yn ymchwilio iddo, oni chredwn fod angen gwneud hynny er budd defnyddwyr neu hyder y farchnad.

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| National Grid Electricity Transmission plc ("NGET") | Mawrth 2022 | Ymchwiliad i ganfod a wnaeth NGET dorri rhwymedigaethau statudol o dan Adran 9 o Ddeddf Trydan 1989 ac Amod Trwydded Safonol B7 o'i Drwydded Trawsyrru Trydan. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn ymwneud â chyflwr ei asedau yn Harker ac oedi wrth gysylltu systemau cynhyrchu ar y safle. |
| British Gas Trading Limited ("BG") | Chwefror 2023 | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth BG ag Amodau Trwydded Safonol 0, 13.1 (a) a (d), 27, 28 a 28B o'r Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan. Mae'r Amodau Trwydded Safonol hyn yn ymwneud â'r Safonau Ymddygiad, y trefniadau ar gyfer mynediad i safleoedd cwsmeriaid, datgysylltiadau, mesuryddion rhagdalu a gosod mesuryddion rhagdalu o dan Warant Berthnasol. |
| Ovo Energy Limited ("OVO") | Mai 2023 | Ymchwiliad i bedwar endid cyflenwi trwyddedig Ovo sy'n rhan o riant-gwmni Ovo Energy Limited, a'u cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol SLC0.3(c)(d), 26.4, 26.5(d)(f), 27A a 28.1A, B o'r Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan. Mae'r Amodau Trwydded Safonol hyn yn ymwneud â thrin cwsmeriaid domestig yn deg, rhwymedigaethau i gwsmeriaid ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth a sicrhau bod Mesuryddion Rhagdalu cwsmeriaid yn ddiogel ac yn rhesymol ymarferol o dan unrhyw amgylchiadau. |

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| Ruby Electricity Ltd a Ruby Gas Ltd (ar y cyd, "Ruby") - BES Commercial Electricity Ltd a Business Energy Solutions Ltd gynt | Tachwedd 2023 | Ymchwiliad i ganfod a yw Ruby yn cydymffurfio ag Amod Trwydded Safonol 7.3 y Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan. Pan fydd cwsmer yn cael cyflenwad yn seiliedig ar gydberthynas contract tybiedig, mae'n ofynnol i'r cyflenwr o dan Amod Trwydded Safonol 7.3 gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw telerau ei gontractau tybiedig yn rhy feichus. |
| Tomato Energy Limited | Rhagfyr 2023 | Ymchwiliad i ganfod a yw Tomato Energy Limited yn cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 4A a 5 y Drwydded Cyflenwi Trydan. Mae hyn o ganlyniad i bryderon o ran darparu data o dan y Warant Pris Ynni. Mae'r Amodau Trwydded Safonol hyn yn ymwneud â Gallu Gweithredol a Darparu Gwybodaeth i'r Awdurdod a Chadw Data. |
| Utilita Energy Limited ("Utilita") | Chwefror 2024 | Ymchwiliad i ganfod a yw Utilita Energy Limited yn cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 4A, 11B, 12 a 12A ei Drwydded Cyflenwi Trydan. Mae'r Amodau Trwydded Safonol hyn yn ymwneud â Gallu Gweithredol, y Cod Ynni Manwerthu, Materion sy'n ymwneud â Mesuryddion Trydan, a Materion sy'n ymwneud â Dwyn Trydan. |
| Heb ei ddatgelu | Mawrth 2024 | Agorwyd ymchwiliad mewn perthynas ag achosion a amheuwyd o dorri cyfraith gystadleuaeth o dan Bennod II o Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag achos lle yr amheuwyd bod cwmni wedi camddefnyddio ei statws uchel. |
| Farringdon Energy Ltd ("Farringdon") | Mai 2024 | Ymchwiliad i Farringdon a'i gydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 0A a 4A ei Drwydded Cyflenwi Trydan. Mae'r Amodau Trwydded Safonol hyn yn ymwneud â thrin cwsmeriaid microfusnes yn deg a gallu gweithredol. |
| Cadent Gas Limited ("Cadent") | Awst 2024 | Ymchwiliad i Cadent a'i gydymffurfiaeth ag Amod Arbennig Safonol D10.2(h) o'i drwydded cludwr nwy. Mae'r amod hon yn ymwneud ag ymateb i ddigwyddiadau lle rhoddwyd gwybod bod nwy yn dianc mewn modd amserol. |
| Scotland Gas Networks Plc ("ScGN") and Southern Gas Networks Plc ("SGN") | Awst 2024 | Ymchwiliad i ScGN ac SGN a'u cydymffurfiaeth ag Amod Arbennig Safonol D10.2(h) o'i drwydded cludwr nwy. Mae'r amod hon yn ymwneud ag ymateb i ddigwyddiadau lle rhoddwyd gwybod bod nwy yn dianc mewn modd amserol. |

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| Utilita | Tachwedd 2024 | Ymchwiliad i ganfod a yw Utilita yn cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 0, 4A, 23, 26, 27, 27A, 28 a 28B o'r Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan. Mae'r Amodau Trwydded Safonol yn ymwneud â thrin cwsmeriaid domestig yn deg, gallu gweithredol, hysbysu am Delerau Contractau Cyflenwi Domestig, y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth, datgysylltiadau, hunan-ddatgysylltiadau, mesuryddion rhagdalu a gosod mesuryddion rhagdalu o dan Warant Berthnasol. |

## Gorchmynion Terfynol

Ni chafodd unrhyw orchmynion terfynol eu gwneud, eu cynnig na'u cwblhau yn ystod y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025.

## Gorchmynion Dros Dro

Isod ceir manylion y gorchmynion dros dro a wnaed yn ystod y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Gwnaethom gyhoeddi 3 gorchymyn dros dro.

| Gorchymyn dros dro a roddwyd | Cwmni | Pryder | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Mai 2024 | Farringdon Energy Limited ("Farringdon") | Ar 7 Mai 2024, cyhoeddodd yr Awdurdod Orchymyn Dros Dro i Farringdon yn unol ag adran 25(2) o Ddeddf Trydan 1989. Roedd yn ymddangos yn debygol i'r Awdurdod bod Farringdon yn torri Amodau Trwydded Safonol 4A.1(a) a 4A.1(b), neu ei fod yn debygol o'u torri, drwy wneud y canlynol:<br>(1) methu â chynnal gallu, systemau a phrosesau mewnol cadarn i'w alluogi i wasanaethu pob un o'i gwsmeriaid yn effeithlon ac yn effeithiol,<br>(2) nodi risgiau tebygol o ran niwed i ddefnyddwyr yn effeithlon ac yn effeithiol a lliniaru unrhyw risgiau o'r fath. | Ymgysylltodd yr Awdurdod â Farringdon drwy gydol cyfnod y Gorchymyn Dros Dro. Ar ôl asesu'r wybodaeth a ddaeth i law, roedd yr Awdurdod yn fodlon bod Farringdon wedi cymryd camau a oedd yn briodol, yn ein barn ni, i sicrhau cydymffurfiaeth ag Amod 4A. Felly, penderfynodd yr Awdurdod beidio â chadarnhau'r Gorchymyn Dros Dro. Daeth y Gorchymyn Dros Dro i ben ac nid oedd yn weithredol mwyach o 7 Awst 2024. |

| Gorchymyn dros dro a roddwyd | Cwmni | Pryder | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Mai 2024 | Maxen Power | Ar 10 Mai 2024, cyhoeddodd yr Awdurdod Orchymyn Dros Dro i Maxen yn unol ag adran 25(2) o Ddeddf Trydan 1989 a 28(2) o Ddeddf Nwy 1986. Roedd yn ymddangos yn debygol i'r Awdurdod bod Maxen yn torri Amodau Trwydded Safonol 0A a 4A, neu ei fod yn debygol o'u torri. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â Newid Tenantiaeth (Amod Trwydded Safonol 0A - trin cwsmeriaid microfusnes yn deg) a monitro Cwmnïau Cyfryngol Trydydd Parti dan gontract a oedd yn atgyfeirio cwsmeriaid (Amod Trwydded Safonol 4A - gallu gweithredol) | Ymgysylltodd yr Awdurdod â Maxen drwy gydol cyfnod y Gorchymyn Dros Dro. Ar ôl asesu'r polisïau diwygiedig a'r adroddiad archwilio a ddarparwyd gan Maxen, roedd yr Awdurdod yn fodlon bod Maxen wedi cymryd camau a oedd yn briodol, yn ein barn ni, i sicrhau cydymffurfiaeth ag Amodau 0A a 4A. Felly, penderfynodd yr Awdurdod ddirymu'r Gorchymyn Dros Dro ac nid oedd yn weithredol mwyach o 7 Awst 2024. |
| Mawrth 2025 | Rebel Energy Supply Ltd ("Rebel Energy") | Ar 14 Mawrth 2025, cyhoeddodd yr Awdurdod Orchymyn Dros Dro i Rebel Energy yn unol ag adran 25(2) o Ddeddf Trydan 1989 gan ei fod yn ymddangos yn debygol i'r Awdurdod bod Rebel Energy yn torri Amod Trwydded Safonol 30, neu ei fod yn debygol o'i dorri. Mae Amod Trwydded Safonol 30 yn ymwneud â'r rheolau ynghylch clustnodi'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. | Yn mynd rhagddo o hyd ar ddiwedd mis Mawrth 2025. |

# Atodiad III

## Adroddiad blynyddol ar swyddogaethau cludo a storio carbon deuocsid o dan Adran 41 o Ddeddf Ynni 2023

Mae Adran 41(1)(a) o Ddeddf Ynni 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno adroddiad (yr "adroddiad cludo a storio blynyddol") i'r Ysgrifennydd Gwladol bob blwyddyn ar y broses o gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 1 o Ddeddf Ynni 2023 yn ystod y flwyddyn honno, gan gynnwys arolwg cyffredinol o ddatblygiadau mewn perthynas â materion sydd o fewn cwmpas y swyddogaethau hynny.

Dyma'r adroddiad cludo a storio blynyddol cyntaf a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod gan mai yn ystod blwyddyn adrodd 2024-25 y daeth swyddogaethau'r Awdurdod o dan Ran 1 o Ddeddf Ynni 2023 i rym.

Mae Adran 41(2)(a) o Ddeddf Ynni 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad cludo a storio blynyddol gynnwys adroddiad ar hynt y prosiectau a ddisgrifir yn y flaenraglen waith cludo a storio ar gyfer y flwyddyn honno.

Nodwyd ein prosiectau ar gyfer rheoleiddio dulliau cludo a storio carbon deuocsid yn ein Strategaeth Amlflwyddyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, ein blaenraglen waith 2024-25 ac fe'u datblygwyd ymhellach o dan Flaenoriaeth Strategol 2 ein blaenraglen waith 2025/26, sef "Galluogi seilwaith i sicrhau sero net yn gyflym".

Roedd ein cynnydd yn erbyn Amcan 8.2 ym mlaenraglen waith 2024/25 – "rheoleiddio dulliau dal, defnyddio a storio carbon" – yn cynnwys carreg filltir bwysig ym mis Rhagfyr 2024 pan ddyfarnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net y Drwydded Economaidd gyntaf i Net Zero North Sea Storage Limited, gan benodi'r Awdurdod fel y rheoleiddiwr economaidd ar gyfer y rhwydwaith cludo a storio CO2 hwnnw.

Yn ogystal â rheoleiddio cwmnïau y dyfarnwyd trwydded cludo a storio carbon deuocsid iddynt, mae'r Awdurdod yn parhau i roi cymorth cynghorol annibynnol i DESNZ wrth iddi barhau i ddatblygu rhaglen CCUS.

Mae Adran 41 o Ddeddf Ynni 2023 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i nifer o elfennau eraill gael eu cynnwys yn yr adroddiad cludo a storio blynyddol:

- a41(1)(b) adroddiad ar weithgareddau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ystod y flwyddyn honno mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriad a wneir ato gan yr Awdurdod. (Ni wnaeth yr Awdurdod unrhyw gyfeiriadau at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae angen adrodd arnynt)
- Crynodeb o'r cosbau a osodwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn honno; (Ni osodwyd unrhyw gosbau yn ystod y flwyddyn adrodd hon)
- Adroddiad ar unrhyw gyfryw faterion eraill ag a all fod yn ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd.
- (Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ei gwneud yn ofynnol cyflwyno adroddiad ar unrhyw faterion eraill o'r fath yn ystod y flwyddyn adrodd hon).

In addition, section 41(3) of the Energy Act 2023 requires the Authority to include in its annual T&S Yn ogystal, mae adran 41(3) o Ddeddf Ynni 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys adroddiad ar y canlynol yn ei adroddiad cludo a storio blynyddol:

(b) y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag adran 100(1) a (2) o Ddeddf Ynni 2023 mewn perthynas â datganiad strategaeth a pholisi CCUS a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (i'r graddau yr oedd y dynodiad datganiadau mewn grym am y flwyddyn gyfan neu unrhyw ran ohoni);

(b) i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud yr hyn a nodir mewn blaenraglen waith neu ddogfennau eraill fel y pethau y cynigiodd yr Awdurdod eu gwneud yn ystod y flwyddyn wrth roi ei strategaeth ar waith ar gyfer datblygu'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau polisi yn y datganiad strategaeth a pholisi CCUS.

(Ni ddynodwyd unrhyw ddatganiad strategaeth a pholisi CCUS yn ystod y flwyddyn adrodd hon).

# Atodiad IV

## Trefniadau statudol o dan Adran V o Ddeddf Cyfleustodau 2000

Mae Adran 5(1) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol bob blwyddyn ar y canlynol:

- gweithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn;
- gweithgareddau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ystod y flwyddyn honno mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriad a wneir ato gan yr Awdurdod.

Adroddir ar weithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn drwy gydol yr adroddiad hwn. (Ni wnaeth yr Awdurdod unrhyw gyfeiriadau at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae angen adrodd arnynt)

Mae Adran 5(2) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys y canlynol yn ei adroddiad blynyddol:

- Arolwg cyffredinol o ddatblygiadau mewn perthynas â materion a ddaw o dan swyddogaethau'r Awdurdod, gan gynnwys, yn benodol, datblygiadau mewn cystadleuaeth rhwng personau sy'n ymwneud â'r canlynol neu â gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
  - morgludo, cludo neu gyflenwi nwy drwy bibellau;
  - cynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu neu gyflenwi trydan; (Cyfeirir at y datblygiadau hyn yn yr Adroddiad ar Berfformiad)
- Adroddiad ar gynnydd y prosiectau a ddisgrifir yn y flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn honno; (Rhoddir adroddiad ar gynnydd yn yr Adroddiad ar Berfformiad)
- Crynodeb o'r gorchmynion terfynol a'r gorchmynion dros dro a wnaed gan GEMA yn ystod y flwyddyn honno; (Mae hwn ar gael yn Atodiad II)
- Crynodeb o'r cosbau a roddwyd gan GEMA yn ystod y flwyddyn honno; (Mae hwn ar gael yn Atodiad II)
- Crynodeb o unrhyw hysbysiadau terfynol a roddwyd gan GEMA yn unol â REMIT yn ystod y flwyddyn honno; (Mae hwn ar gael yn Atodiad II)
- Adroddiad ar unrhyw gyfryw faterion eraill ag a all fod yn ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd.

Mae Adran 5(2A) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys adroddiad ar y canlynol yn ei adroddiad blynyddol

(a) y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag adran 132(1) a (2) o Ddeddf Ynni 2013 mewn perthynas â datganiad strategaeth a pholisi a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (i'r graddau yr oedd y dynodiad datganiadau mewn grym am y flwyddyn gyfan neu ran ohoni);

(b) i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud yr hyn a nodir mewn blaenraglen waith neu ddogfennau eraill fel y pethau y cynigiodd yr Awdurdod eu gwneud yn ystod y flwyddyn wrth roi ei strategaeth ar waith ar gyfer datblygu'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau polisi yn y datganiad strategaeth a pholisi.

(Mae hwn ar gael yn yr Adroddiad ar Berfformiad).

Mae Adran 5(3) o'r Ddeddf Cyfleustodau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod nodi yn ei adroddiad blynyddol unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag a34(3) o Ddeddf Nwy 1986 neu a47(2) o Ddeddf Trydan 1989.

(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol o'r fath)

Mae Adran 5(3A) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys trosolwg o'r canlynol yn ei adroddiad blynyddol

(a) datblygiadau sy'n ymwneud â dogfennau a ddynodwyd at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Ynni 2023 (llywodraethu codau'r diwydiant nwy a thrydan);

(b) penderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r cyfryw ddogfennau gan gynnwys manylion unrhyw addasiadau a wnaed o dan adran 192 o Ddeddf Ynni 2023.

(Ni ddynodwyd unrhyw ddogfennau at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Ynni 2023 yn ystod y flwyddyn adrodd hon).

978-1-5286-4875-2 E03123541

ofgem.gov.uk